ECO'R WYDDFA

RHIF 317 RHAGFYR 2004 PRIS 40c

Eco Dolig

Bydd RHAID i'r golygyddion dderbyn popeth ar gyfer rhifyn 'Dolig yr Eco erbyn DYDD SUL, 5 RHAGFYR neu nid oes sicrwydd y caiff ei gynnwys

EISTEDDFOD Y WLADFA

PAN aeth Siân Davies, o Fethel, ar ei gwyliau i Batagonia yn ddiweddar, a chael cyfle i fynd i Eisteddfod Gadeiriol y Wladfa, doedd hi ddim wedi bargeinio am gael ei chadeirio, yn enwedig gan nad oedd hi hyd yn oed wedi cystadlu! Ond dyna ddigwyddodd a dyma'r lluniau i brofi.

Roedd Nia Môn, merch Siân, sy'n byw yn Llanberis, wedi cystadlu am gadair Eisteddfod Patagonia. Cwta fythefnos cyn yr Eisteddfod ei hun cafodd Nia alwad i'w hysbysu ei bod wedi ennill y Gadair, a gwahoddiad i fynd i'r seremoni i'w derbyn. Oherwydd ei bod yn brysur yn ei gwaith, nid oedd hi'n medru mynd yr holl ffordd i dde America i nôl ei gwobr – felly dyma droi at ei mam, oedd ar wyliau yno. Mewn sgwrs ffôn fe dorrodd y newyddion a gofyn a fyddai hi'n fodlon cael ei chadeirio yn ei lle a dod â'r gadair adre i Gymru!

Bu'n rhaid i Siân gadw'r gyfrinach oddi wrth weddill y criw ar y trip am rai dyddiau.

'Ar ôl i mi siarad hefo Nia, mi ddywedais wrth un ffrind ac mi oedd y ddwy ohonon ni'n crio, ond doedd neb arall yn gwybod,' meddai. 'Cyn y seremoni doeddwn i ddim yn meddwl y baswn i'n medru mynd ar y llwyfan, ro'n i'n ofni methu stopio crio. Ond mi gymrais i ddwy baracetamol i setlo'r nerfau ac roedd pob dim yn iawn.'

Roedd y seremoni yn debyg i'r un sy'n gyfarwydd i ni yma yng Nghymru ond bod lluniau o Nia ar sgrin tu cefn iddi ar y llwyfan. Ac er poeni am y seremoni, fe fwynhaodd Siân y profiad.

'Roedd o'n O.K. yn y diwedd, gan nad fi oedd wedi ennill mewn gwirionedd, felly mi wnes i fwynhau,' meddai.

Ar ôl y cadeirio roedd yn cael ei stopio a'i llongyfarch gan bobl ar y stryd a bu lot o ddathlu. Ond nid oedd yr anturiaethau wedi dod i ben... roedd yn rhaid dod â'r Gadair adre!

Rhaid oedd ei thynnu'n ddarnau, ei phacio a'i rhoi ar do'r bws i fynd i'r maes awyr. Dipyn o sioc oedd darganfod ei bod mor drwm nes bod rhaid talu bron i £800 i'w chludo'n ôl i Gymru. Ond gan nad oedd yr awyren yn llawn – ac oherwydd caredigrwydd yr Archentwyr – £320 gostiodd y cludo yn y diwedd, gan iddynt rannu'r pwysau ychwanegol rhwng y seddi gwag.

Meddai Nia Môn, 'Doeddwn i ddim yn mynd i gystadlu yn y lle cynta. Roedd mam yn mynd yno ar drip Cwmni Drama Llwydyrus a hi oedd yn swnian, felly yn y diwedd mi wnes i. Doeddwn i ddim yn medru mynd yno fy hun achos rown i'n ei chanol hi hefo gwaith.'

Hanes llwyddiant Band Ieuenctid Deiniolen ar dudalen 2.

Teyrngedau i John Roberts Williams ar dudalen 4.

APÊL NADOLIG DAER

Daw rhifyn nesaf Eco'r Wyddfa allan NOS LUN, 20 RHAGFYR. Plant ysgol Brynrefail sydd wedi bod yn gyfrifol am blygu'r rhifyn hwn ers sawl blwyddyn bellach. Yn anffodus, eleni, bydd yr ysgol ar gau. Ni fyddai'n deg rhoi'r cyfrifoldeb yn nwylo un pentref a hithau mor agos i'r Nadolig, felly, taer erfyniwn ar holl garedigion a chefnogwyr yr Eco o'r ardal i ddod ynghyd i'r Sefydliad Coffa yn Llanrug o 5.30 o'r gloch ymlaen i blygu'r Eco.

Peidiwch da chi a gadael y byrdwn hwn ar ysgwyddau'r ychydig rai. Gofynnwn am awr o'ch amser i geisio cwblhau'r plygu. Bydd paned a mins pei ar gael – a hynny am ddim!

* * *

Dymuna aelodau o bwyllgor llywio, y panel golygyddol, a holl weithwyr gwirfoddol yr Eco, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi'r darllenwyr.

ECO'R WYDDFA

RHIF 317
RHAGFYR 2004

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Nadolig/Ionawr	13 Rhagfyr	23 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones (Prifathro)	672381

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tîm Golygyddol
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com
Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
DEINIOLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-GOED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Dauryddi i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, 13 RHAGFYR
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 23 RHAGFYR

Llythyrau

Allt Riwth
Pontrhythallt
Llanrug

Annwyl Olygydd
Ym 1936 roedd athrawes Gymraeg o'r enw Catherine Evans M.A. o Gaernarfon yn hen ysgol (go iawn) Brynrefail. Roedd hi'n aros yn Arfryn, Ponthrythallt, efo Kate Williams, cyfnither fy mam.

Bu'n absennol am gyfnod oherwydd salwch nerfol. Yr oeddwn yn hoff ohoni.

Oes rhywun tybed a ŵyr fan ei chladdu (os claddu hefyd) a'r ysgrif uwchben ei bedd?

Buaswn yn falch iawn o wybod.

Yr eiddoch yn gywir
John E. Williams

Tŷ Silyn
Penygroes
Caernarfon

Annwyl Olygydd,
Darn o dir ar gael yn Llanrug
Mae gan Gymdeithas Tai Eryri ddarn o dir ar waelod Ffordd yr Orsaf, Llanrug, sydd ar gael i grwpiau cymunedol.

Mae'r tir yn addas i gae chwarae neu ardd fechan gymunedol, ac mae'r Gymdeithas yn fodlon ei roi i unrhyw grŵp sy'n gallu gwneud defnydd da ohono. Hefyd, mae aelodau Tîm Prosiectau Cymunedol ar gael i roi cyngor ynglŷn â syniadau ar gyfer y tir.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Ben Gregory, Swyddog Cymuned ar (01286) 881588.

Yn gywir
Ben Gregory

Pencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru

Neuadd y Dref, Y Rhyl
Sadwrn, 20 Tachwedd
Bandiau Ieuenctid Dosbarth B
Llongyfarchiadau calonnog i Seindorf Ieuenctid Deiniolen, o dan arweiniad Hefin Goronwy Jones ar ennill dwy wobr gyntaf yn y bencampwriaeth uchod.

Emyn Dôn 'Lloyd'
Gwobr Goffa Eifion Rogers.
Un o Rydaman oedd Eifion, ac wedi gwneud gwaith mawr trwy Gymru gyfan i ganolbwyntio ar lwyddiant ieuenctid mewn bandiau pres ac ysgolion.

Y darn Prawf: London River
Tlws newydd 'Rhôl Gogledd Cymru'
Cafwyd beirniadaeth gampus gan y beirniad, Mr David Hirst, M.A., B.Ed (Hons) L.T.C.L., sydd wedi bod yn aelod o fandiau enwog y Black Dyke a Brighouse. Yr oedd yn canmol tôn y band yn arw iawn. Roedd y band yn haeddu y ganmoliaeth fwyaf bosibl, oherwydd eu bod wedi gweithio yn galed gyda'i harweinydd am nosweithiau ar gyfer y gystadleuaeth. Roedd 6 band yn cystadlu a dyma'r ganlyniad:
1. Deiniolen; 2. Llanrug; 3. Biwmares; 4. Porthaethwy; 5. Llaneurgain; 6. Dyffryn Nantlle.

RHODDION

£20: Mrs Jennie Roberts, 97 Pentre Helen, Deiniolen.

£10: Robert Evans, 12 Hafod Olau, Deiniolen; Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Olau, Deiniolen; Mrs Clara Roberts, Bwlch Uchaf, Deiniolen; Mrs Pricilla Williams, Wylfa, Gallt-y-foel, Deiniolen; Bob ac Eileen Roberts, Earls Barton, Northampton.

£5: Dwynwen Roberts a'r teulu, Llanberis; Mrs Jennie Williams, Cae Corniog, Penisarwaun.

£2: Dafydd Oritt, 7 Blaen y Ddôl, Llanberis.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi):
YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650349
(0589) 699901

BRYSIWCH!
Archebwch eich TWRCI NADOLIG a'ch CYW IÂR a CHIGOEDD ERAILL RŴAN

oddi wrth
Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673574
PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Teyrngedau i

John Roberts Williams



Ddechrau mis Tachwedd bu farw'r darlledwr, John Roberts Williams, Llanrug, yn 90 oed. Derbyniodd y golygyddion y teyrngedau canlynol gan gyfeillion agos iddo, sy'n dangos agweddau gwahanol ar fywyd a phersonoliaeth John.

Roeddwn yn 'nabod John Roberts Williams ers hanner can mlynedd, ac ers iddo ddod i fyw i Lanrug roeddem mewn cysylltiad cyson. Yn wir, yn ystod tymor criced byddem yn trafod hynt a helynt tîm criced Morgannwg yn ddyddiol, gan ein bod ein dau yn gefnogwyr brwd ohono.

Roedd gan John ddiddoreb mawr mewn chwaraeon – pêl-droed, criced, snwcer, golff a reslo o bob dim, ond fawr ddim i'w ddweud wrth rygbi am ryw reswm.

Pan symudodd i Lanrug awgrymais iddo ddod yn aelod o glwb llên a chân a sefydlwyd yn Nyffryn Peris, sef Clwb Eryri, a thros nifer o flynyddoedd bu ei gyfraniad i weithgareddau'r clwb yn amhrisiadwy. Cyfrannwr yn dweud llawer mewn ychydig eiriau oedd John Roberts Williams, ei gyfraniad yn ffraeth, difyr a bachog ac yn cael ei gyflwyno yn ei ddull ddihafal ac unigryw.

Dywedodd wrthyf drocon iddo gael mwynhad mawr o fod ynghanol chwarelwyr diwylliedig y fro, hynny o bosib yn fyd newydd i ŵr o Eifionydd.

'Hen hogia ffantastig,' fel yr arferai ddweud.

Tueddai i fod yn anghofus ar brydiau ac, er bod yn edmygydd mawr iawn o Gwilym Owen, ym mhrysurdeb berwi ei lobscows hynod ganmoladwy (ei ffefryn cogyddol) amser cinio dydd Llun, tueddai i anghofio am raglen radio Gwilym, a chymerwn innau arnaf fy hun i'w ffonio i'w atgoffa. Pum neu chwe gair fyddai'r sgwrs,

'John... Gwilym Owen.'

'Diolch yn fawr.'

Sawl blwyddyn yn ôl bellach, rydwi'n cofio bod yng Ngwersyll Glanllyn, fel un o banelwyr y rhaglen deledu *Penigamp*, yn recordio rhaglen. Ar y canol byddai'n ofynnol i ni, aelodau'r panel – Harri Gwynn, I. B. Griffith, Griff Parry a minnau – osod mwgwd tros ein llygaid a cheisio dyfalu pwy oedd y gŵr neu'r wraig wadd, a gwneud hynny trwy ofyn cwestiynau i'r Cadeirydd, Robin Williams.

Y noson honno, John Roberts Williams oedd y gŵr gwadd ac, wedi diosg y mwgwd, canfod fod plastar mawr ar foch John. Pawb yn holi wedi'r rhaglen beth oedd y rheswm am hyn ac yntau'n pwyntio'i fys ataf i gan ddweud, yn cithaf blin,

'Arno fo mae'r bai!'

Ymddengys fod John, cyn cychwyn y rhaglen, wedi mynd allan o un o'r cabannau yn y gwersyll am smôc sydyn, ond pwy ddaeth allan o'r caban cyfagos yn ei ddiniweidrwydd, ond fi. Wrth reswm, pe byddwn wedi gweld John cyn dechrau, yna byddai'r rhaglen wedi'i difetha'n llwyr. Yn anffodus fe geisiodd John guddio tu ôl i wal gerllaw a baglu ar draws ceblau'r telediad, gan grafu ei wyneb yn y *chippings* oedd ar y llawr.

Doedd amser ddim yn caniatáu loetran ynglŷn â'r feddyginiaeth, felly nid oedd dim amdani ond rhoi plastar ar ei foch i rwystro'r gwaed! Chwith meddwl fod pob un o'r criw oedd yng Nglanllyn y noson honno wedi'n gadael erbyn hyn.

O'm rhan fy hun byddaf yn disgwyl am alwad ffôn fel cynt mae'n siŵr,

'Rol, ar ba sianel ma' Man U. heno?'

Bu John yn gyfaill dibynadwy, yn gymorth ac yn annog pan fentrais gyhoeddi llyfr neu ddau. Ym marwolaeth John Roberts Williams, cafodd Cymru golled fawr oherwydd ef yn ddi-os oedd brenin newyddiaduraeth Gymraeg, a'i gyfraniad tros gyfnod hir i'r maes hwnnw yn werthfawr, yn sylweddol tu hwnt ac yn safonol.

ROL WILLIAMS

Y ffan pêl-droed

'Ddowch chi hefo fi i Goodison Park, Gwyn – mae nhw'n chwara adra. Mi dala' i am y ticedi a'r bys?' Mi neidiais am y cyfle, wrth gwrs, ac ychwanegais, 'Ond cofiwch mai fi fydd yn talu am y refreshments, Mr Williams.'

Daeth y diwrnod mawr ym mis Chwefror – diwrnod digon tywyll a niwlog. Cychwyn o Gaernarfon mewn bws mini ac wrth nesáu at Lerpwl, sylwodd J.R. ar yr enwau Cymraeg ar y tai o'n cwmpas, fel 'Mona' a'r 'Wylfa'. Roedd J.R. yn gydymaith diddorol i drafaelio hefo fo a chawsom sgwrs am ei hoff arwyr pêl-droed. John Charles (The Gentle Giant) oedd ei ffefryn, ac roedd yn adnabod Trevor Ford a'r ddau frawd Alchurch. Mark Williams oedd ei arwr yn y byd snwcer.

Cyrraedd Goodison Park awr o flaen y gêm.

'Beth am banad, Gwyn?' Telais £2 y gwpanaid a finnau'n dweud wrtho y buasem wedi cael dau debot llawn o de yng Nghymru am y pris. Ffendio ein seddau wedyn yn entrychion y stand ac edrych ar y gêm drwy'r niwl. Cyfartal oedd y sgôr.

'Gêm dda, Gwyn.'

Oedd, roedd cael cwmni J.R. y diwrnod hwnnw yn goron ar y cwbl. Oedd, roedd niwl drwy gydol y chwarae a heddiw eto mae'r niwl wedi crynhoi ar ôl colli cyfaill annwyl iawn. Diolchaf am gael ei adnabod.

GWYNFOR HUMPHREYS,
CYMYDOG

Yncyl Williams
Y Dyn Drws Nesa

Cawsom fel teulu y fraint o fod yn gymdogion i'r annwyl Mr John Roberts Williams am bron i naw mlynedd ar hugain, ac fel 'Yncyl Williams' yr adnabyddid ef gan ein dwy ferch a phlant eraill y stad acw.

Yr wythnosau diweddar yma clywsom am ei athrylith yn y byd cyfryngol/newyddiadurol, ond hoffwn i sôn am J.R. y cymydog annwyl. Y dyn distaw, diymhongar, na fyddai byth yn codi ei lais. Y dyn â chalon fawr. Dyn caredig a fyddai bob amser yn barod i helpu rhywun mewn trybini, ac er y swildod naturiol, roedd yn berson cymdeithasol. Roeddem yn ei edmygu, er yn flin hefo fo ar rai adegau am wrthod help. Hyd yn oed pan gafodd y gnoc fawr o golli Ffion, ei ferch, chwe mlynedd yn ôl, ni bu arwydd o hunandosturi o gwbl, a bu ei bedair wyres o help iddo yn sicr, ac er eu bod yn bell oddi wrtho câi sgyrsiau aml hefo nhw ar y ffôn. Âi i'r siop ei hun a gyrrai ei gar hefyd tan yn ddiweddar iawn. Cadwodd ei annibyniaeth ac roeddem yn ei barchu o'r herwydd.

Ond bu'n rhaid iddo blygu ddechrau'r flwyddyn, yn gyntaf i'r niwmonia ac wedyn cael y newydd gwaethaf posibl am ei iechyd.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, ni chlywid ef yn cwyno, ond pan es i'w weld i'r ysbyty un diwrnod fis Hydref, roedd ganddo un gŵyn,

'Dydw i ddim yn câl llonydd 'chi, i wrando ar y radio.' Roedd wedi cael llond bol ar rwtîn ysbyty, ond ategodd, 'Ond ma nhw yn edrych ar fy ôl i'n dda yma cofiwch,' ac ychwanegodd, 'ac mi rydw i mor falch o weld fy ffrindia.'

Wrth edrych yn ôl gwelaf ddyn direidus, yn gafael yn y fforch,

'Wel, Mrs Humphreys, beth am chwynu tipyn ar fama hefyd!' wrth fy ngweld yn yr ardd ffrynt yn chwys diferol ar ddiwrnod poeth o haf. Byddai'n hoffi cael cwmpeini ambell noson a galwai ar y gŵr i weld gemau pêl-droed dros baned o de a bisged, a'r dyn distaw fyddai'r uchaf ei gloch pan sgorid gôl arbennig.

'Yncyl Williams' oedd o i'r plant, a phob blwyddyn yn ddidor byddai'r wyau Pasg yn cyrraedd y tŷ acw. Ac, os oedd problem cystrawen neu sillafu, pa athro gwell na J.R. (yr athrylith hefo geiriau) i edrych dros y gwaith a chywiro tipyn.

Rydym nid yn unig wedi colli cymydog arbennig iawn, ond wedi colli ffrind mynwesol a didwyll. Rydym yn falch o fod wedi cael ei adnabod a theimlwn na chawn fyth gymydog fel 'Yncyl Williams' eto.

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
WILLIAM SELWYN :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NWYDDAU GROSER
LLYSIAU • FFRWYTHAU • BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, LLanberis
Ffôn: 870840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Jill a Peter

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn: 871278
www.ybistro.co.uk
PERCHNOGION : DANNY A NERYS ROBERTS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

STEPHEN JONES

Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol Profiadol
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E. W. Pritchard
62 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Am anrhegion y Nadolig dowch i Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

41A Stryd Fawr
Llanberis 872501
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Eisteddfod Genedlaethol

Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn y Faenol y flwyddyn nesaf, peth da fuasai atgoffa ein hunain o'r gefnogath a roddwyd gan yr ardal yma i Eisteddfodau'r gorffennol.

Daeth llun i'm llaw oddi wrth Ellen Whitehouse, merch John Owen Jones (gynt o East Lynn, Llanberis) yn dangos Côr Mr James wedi iddynt fod yn llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Penybont-ar-Ogwr yn 1948.

Mae rhai o'r aelodau yn dal i fyw yn yr ardal.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS.
Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

COFIWCH am y Noson Garolau yng Nghapel Coch, nos Sul, 5 Rhagfyr am 7.30 o'r gloch, gyda Lleisiau Lliwedd, Côr Meibion Dyffryn Peris a phlant Ysgol Dolbadarn yn cymryd rhan.

DYMUNA Wil Munro, Bryn Teg, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion, yn enwedig ei gymdogion o Fryn Teg, am eu caredigrwydd ar ôl ei lawfeddygaeth Ysbyty Brenhinol Lerpwl yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i chwi oll.

Y GYMEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cafwyd sgwrs ddiddorol fis Tachwedd gan Dr Dafydd Roberts, Amgueddfa Lechi Llanberis, yn olrhain hanes 'Twm Chware Teg a'i Glawdd Pileri Llechi'. William Thomas, Cyfreithiwr o Amlwch oedd o, a fo gychwynnodd y gwaith copr yn Mynydd Paris. Cyfrannodd yn hael at elusennau lleol a chafodd ei enwi yn 'Twm Chware Teg'. Fe symudodd i Ddyffryn Tafwys ac aeth yn Aelod Seneddol gan adeiladu tŷ moethus yno. Cododd glawdd pileri llechi o'i amgylch a ddygwyd, yn honedig, o Chwareli Bethesda, a'u cario mewn llong hwyliau o Borth Penrhyn i Lundain. Mae'r rhan fwyaf o'r pileri i'w gweld heddiw, er fod y tŷ bellach wedi mynd.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fawrth, 14 Rhagfyr am 7 o'r gloch yn Festri Capel Coch, pryd y bydd canu Carolau, darlleniadau Nadolig a phaned a mins pei ar gael. Croeso i bawb i'r cyfarfod hwn, aelodau, ffrindiau a theuluoedd i ddathlu dyfodiad Iesu Grist i'r byd.

DYMUNA Dafydd Orritt, 7 Blaen y Ddôl, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 5 oed ar 8 Tachwedd.

DYMUNA Dwynwen a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad o golli chwaer a modryb annwyl. Diolch am yr holl gardiau a rhoddion at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r Parchedig John Pritchard, swyddogion Capel Coch a Gareth a Gwynfor am y trefniadau.

DYMUNA'r Cynghorydd Trevor O. Edwards Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Llanberis a Nant Peris, a diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cynhaliwyd cyfarfod y mis yn Angorfa, dan gadeiryddiaeth Anne P. Jones a chymerwyd y rhan dechreuol gan Betty Humphreys. Cyflwynodd Anne y gŵr gwadd, sef y Parch Gareth Maelor Jones, a'i sgwrs oedd ar y gwahanol fathau o lysiau oedd i'w cael o fewn y Beibl, a'u defnydd at wahanol fath o anhwylderau, ac fe ddaeth a rysetiau gydag o i bob un o'r aelodau.

Diolchwyd iddo ac i Betty Parry, ac i Kate ac Eirlys Owen am y baned a'r raffl, gan y Parch Gwynfor Williams, a'r enillydd oedd Anne. Parti Nadolig ym Mhenrhos, Caeathro fydd y mis nesaf.

CYMANFA GAROLAU

yng

Nghapel Coch, Llanberis

Nos Sul, 5 Rhagfyr am 7.30

Plant Ysgol Dolbadarn

Côr Meibion Dyffryn Peris

Lleisiau Lliwedd

Yn arwain y gymanfa:

Mrs Lowri Roberts Williams

Organydd: Mr Gareth Jones

Mynediad: Oedolion £3; Plant £1

Elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cylch 2005

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cyfarfod Clwb Eryri yn y Fictoria, nos Wener, 5 Tachwedd 2004. Yn gynharach yn y dydd, roedd cynrychiolaeth deilwng o'r aelodau wedi mynychu angladd un o aelodau oes y Clwb, sef y diweddar John Roberts Williams.

Yn dilyn gair o groeso gan y Llywydd, Ralph Jones, darllenodd Wyre Thomas ei gerdd goffa i John Roberts Williams, gan ddechrau gyda'r geiriau:

'Ysgafn oedd ôl ei sgrifbin ar y papur, y llygaid du rhyw gysgod o ddireidi...' gan gorffen gyda 'Heno, nyni sydd eto'n arddel bro – cyd-gyfranogion o'i "gymdogaeth" o.'

Dilynwyd hyn gan deyrnged arbennig o addas gan Dei Tomos a soniodd am ei ymwneud â phobl a'i deyrngarwch. Roedd Wyre a Dei yn gallu tynnu'n llawn o'u hadnabyddiaeth personol o John, a fu'n aelod, mawr ei gyfraniad, i'r clwb mewn sawl ffordd dros sawl blwyddyn. Yn sicr, gall aelodau'r clwb dystio iddynt fwynhau ei wybodaeth drylwyr o hanes a llên Cymru a'i gwmni diddan ar y teithiau blynyddol.

Wedi derbyn y cofnodion, cyflwynodd Llywydd y noson, Emyr Williams, siaradwr y noson, sef John Huw Hughes. Yn gelfydd, soniodd am gyfraniad y Prifathro hynaws ym maes addysg, a sawl maes arall, gan gynnwys rhoi un o brif actorion y wlad ar ben ffordd ar gyfer ei yrfa ar y llwyfan a'r ffilmiau!

Testun gogleisiol John oedd 'Celwydd Golau'. Wedi dadansoddiad o'r rhesymau dros ddweud anwiredd ac enghreifftiau o storiau W. J. Gruffydd ac R. Williams Parry, aeth ymlaen i ddweud sawl stori celwydd golau a glywodd gan gymeriadau ffraeth gwaelod Dyffryn Conwy. Roedd John yn amlwg wedi mwynhau cwmni'r cymeriadau hyn, yn edmygu eu dawn deud stori a'r lliw a roddent i fywyd pob dydd yr ardaloedd hyn.

Wedi trafodaeth ddifyr o'r llawr, gyda'r aelodau yn barod iawn i adrodd storïau celwydd golau eu hunan, diolchwyd i'r siaradwr am sgwrs hwyliog a diddorol gan Ifan Parry. Cyhoeddodd y Llywydd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, Rhagfyr 3. Y siaradwr fydd Alwyn Evans gyda Wyre Thomas yn llywyddu.

DRAENOG

Gŵr bonheddig o Lanberis yn penderfynu mynd am beint i'r Fic, neu'r Quality Hotel erbyn hyn ac aeth a'i gi hefo fo. Gan fod y ci yn llwyr ymwrthodwr clymwyd ei dennyn i goeden fechan. Pan ddaeth y gŵr allan roedd yn ei yn ei ddisgwyl wrth y drws gyda'r goeden yn sownd wrth ei dennyn! LLEW o gi os bu un erioed!

Cyfarchion Nadoilg

LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

SWIGOD A SEBON

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088** **GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **DYLAN**
Stryd Fawr Llanberis
Ffôn: **870777**

- Galwch i mewn am anrhegion Nadolig anghyffredin, yn cynnwys dodrefn pîn a Mecsicanaidd.
- Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Caffi a Siop Sglodion

SEAFRESH

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
ROY a CORRIE a'r holl staff

56 Stryd Fawr
Llanberis 870 425

Croeso i gwsmeriaid hen a newydd.
Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y flwyddyn newydd.



Dymuna **David** a **Tara Williams**

CASTLE GIFTS

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Galwch yma am:
Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigaréts,
Melysion, Llyfrau a Chaffi Rhyngrwyd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Siop**

SPAR

LLANBERIS

Ffôn: 871050

Dewch atom am ddewis rhagorol o fwyd, diod a nwyddau eraill ar gyfer y Nadolig, am brisiau cystadleuol iawn.
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

SIOP a FFARM FÊL YR WYDDFA

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 870218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

CYFARCHION Y TYMOR

i bawb yn yr ardal

oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Nadolig na Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr.
Gwasanaeth Dydd Sul ar Ddyddiau Llun a Mawrth 27 a 28 Rhagfyr.
Dim gwasanaeth Dydd Calan 1 Ionawr 2005. Gwasanaeth Dydd Sul ar 2 a 3 Ionawr.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

HYDREF a TACHWEDD 2004

Nos Iau, Hydref 28ain.

Presennol: *Ward Padarn:* Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Wendy Hughes, Derek Jones, Olwen Gwilym, Ken Jones (Blaen y Ddôl), Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp (Cadeirydd), Trystan Thomas

Ymddiheuriadau: Carys Morris

CROESO: Estynnwyd croeso i'r aelodau, ac yn arbennig FO a KJ a fu yn Yr Eidal, yn nhref Morbegno, ar gyfer arwyddo'r siarter yn gefeillio Llanberis â'r dref honno.

Materion yn codi o'r cofnodion:

• Hen Siop y Co-op, Stryd Fawr:
Cafwyd adroddiad gan y Clerc iddo ysgrifennu at Gwmni Adwy Cyf. (CAC) yn mynegi mai dymuniad y Cyngor Cymuned (CC) oedd gweld agor siop groser yno. Derbyniodd ateb yn ôl yn dweud fod yr adeilad eisioes wedi ei osod cyn i'w lythyr gyrraedd. Anfonodd lythyr arall wedyn yn holi sut y gosodwyd y siop heb ystyried teimladau'r pentref. Roedd hefyd wedi gofyn am eglurhad ynglŷn â'r berthynas rhwng cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Ardal y Llechen a CAC.

Bu'r Cyng. Emlyn Baylis (EB) fel cynrychiolydd y CC ar Ardal y Llechen ac un o Gyfarwyddwyr Cwmni Adwy Cyf. yn egluro pam mai i gwmni yn ymwneud â chwareon awyr agored y gosodwyd yr adeilad, yn hytrach nag i gwmni siop groser.

Dywedodd nad oedd yn gefnogol i'r siop awyr agored ac mai'r hyn oedd orau er lles Llanberis oedd bwysicaf iddo fo, nid rhyngu bodd y Cyngor Cymuned (CC). Dywedodd ei fod wedi siarad gyda nifer o berchnogion busnesau yn y pentref, ac wedi dod i'r casgliad y byddai siop groser yn fygythiad i'r busnesau hynny. Dywedodd nad oedd am weld siop yn gwerthu sigarets a diodydd alcohol yn dod i ganol y pentre a'r problemau cymdeithasol a ddeuai gyda hi wrth fod ar agor yn hwyr y nos.

Cyfaddefodd nad oedd wedi holi barn trwch poblogaeth y pentref, ond ychwanegodd hefyd ei fod yn ymwybodol bod siop groser arall ar fin agor yn y Stryd Fawr mewn lleoedd arall. Cyfaddefodd EB nad oedd yn siŵr pwy yr oedd yn ei gynrychioli ar CAC.

Dywedodd mai'r ddau gyfarwyddwr lleol sydd fel arfer yn gyfrifol am osod adeiladau y Cwmni, ond y tro yma gan nad oedd cytundeb rhyngddynt galwyd ar Gadeirydd CAC, o Lan Ffestiniog, i fod yn ganolwr. Ychwanegodd ei fod o'r farn fod y canolwr eisioes wedi penderfynu pwy a gefnogai, ac nad oedd diben sôn wrtho am ddymuniad y CC na'r pentrefwyr. Nid oedd y naill ochr na'r llall yn credu y byddai siop fwyd arall o werth i'r pentref. [Bu'r dadlau ynglŷn â dau fusnes gwahanol, nid oedd siop groser o dan ystyriaeth ganddynt].

Dywedodd KJ na fedrai yn ei fyw gredu y byddai siop, na fyddai o bosib yn ddim mwy na storws yn gwerthu ar y rhyngrwyd, yn medru dod a manteision economaidd i'r pentref. Credai yn siŵr y byddai busnes fel siop groser wedi cyflogi nifer fawr, ac wedi bod yn fwy manteisiol mewn sawl ffordd!

Cafwyd trafodaeth bur boeth ynglŷn â'r ffordd y gweithredodd EB. Credai'r mwyafrif nad oedd wedi cynrychioli barn y Cyngor na gwrando llais y pentref. Dyma'r eildro i'r siop yma gael ei gosod gan CAC, a'r eildro i farn y pentref gael ei diystyru.

Gofynnwyd am bleidlais o ddiffyg hyder yn EB gan KJ a DP yn eilio. Roedd 6 o blaid y cynnig, gyda'r gweddill yn ymatal.

Penderfynwyd anfon llythyr at CAC yn gofyn i'r cwmni ail ystyried y ffordd y mae'n gosod adeiladau yn y dyfodol, gan bwysleisio y dylai ystyriaethau lleol gael sylw yn ogystal â rhai eraill. Os nad oedd gwybodaeth felly ar gael yna dylai'r cwmni gysylltu â'r Cyngor Cymuned lleol. Gofynnwyd hefyd pam nad oedd un o gynghorwyr Gwynedd wedi ei alw i gadeirio'r panel yn hytrach na thynnu cyfarwyddwr o ardal arall. Cafwyd ar ddeall y gelwir fel arfer ar un o Gynghorwyr Gwynedd i dorri'r ddadl lle nad oes cytundeb yn bodoli yn lleol. Cynnig ac eilio: KJ a DJ.

Rhai materion eraill a gafodd sylw:

• Y Fainc ar Ffordd Tŷ Du:
Bu cryn ymateb i'r bwriad i symud y fainc, yn ogystal â hanner dwsin o alwadau ffôn, cafwyd deiseb a tua 115 o enwau arni yn gofyn am adael y fainc lle mae hi.

Roedd y cais i'w symud ar sail ei bod yn denu criw swnllyd o'i chwmpas yn hwyr y nos. Yn ol tystiolaeth lleol doedd y sŵn ddim yn ymyrryd â'r mwyafrif a oedd yn byw yn yr ardal, ond dywedodd FO nad oedd hynny yn wir ac fod y sŵn yn broblem gyson. Methodd cynnig i'w gadael lle mae a chael cefnogaeth ac ar sail gwelliant, cynnig DJ, eilio TT, penderfynwyd holi a fyddai modd ei symud hi oddi wrth ymyl y ffordd i ganol y tir glas.

• Biniau Baw Cwn:
Daeth llythyr i law o'r diwedd oddi wrth CG yn cynnig tri bin baw ci yn unig. Penderfynwyd lleoli un ar Stryd Fawr, Llanberis ac un arall ger Maes Derlwyn. Mae'r trydydd i'w leoli yn Nantperis rhwng y Post a Ty'n Llan. Pwysleisiwyd y byddai'n ddymunol cael mwy oddi wrth CG y flwyddyn ariannol nesaf.

• Goryrru yn Nantperis:
Daeth llythyr i law yn nodi fod yr arolwg gyrru trwy'r pentref wedi ei gwblhau. Cafwyd cydnabyddiaeth fod yna oryrru ac mae CG wedi addo anfon at yr Heddlu i ofyn i 'Siwrne Saff' edrych ar y pentref. Roedd croeso i'r llythyr ond fe holwyd pam na chafwyd atebion i gwestiynau eraill megis a oedd y Cyngor o'r farn fod angen arwyddion newydd a marciau tawelu ar y ffordd. Awgrymwyd fod y Clerc yn anfon gair eto.

• Trafnidiaeth Llanberis
Adroddwyd hefyd fod llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth CG yn nodi fod llinellau melyn atal parcio i'w paentio ar ffordd Tŷ Du a Rhes Victoria yn Llanberis. Cafwyd adroddiad hefyd fod arwyddion gwahardd i'w codi'n fuan ar y 'ffordd osgoi' i atal trafnidiaeth rhag dod i mewn i Stryd y Farchnad. Cafwyd cydnabyddiaeth nad oedd fawr o obaith cael gorfodaeth briodol ar gyfyngiadau parcio yn y dyfodol agos oherwydd prinder adnoddau gan yr Heddlu. Dywedwyd y gallai'r holl broses gymeryd hyd at ddwy flynedd.

Yn ôl aelodau'r Cyngor doedd dim angen mwy o gyfyngiadau parcio yn Rhes Victoria, a gofynnwyd a fyddai modd cael arwydd ar y ffordd o flaen y Feddygfa yn nodi parcio ar gyfer y feddygfa, parcio 'amser byr'.

• Diogelwch Cymunedol:
Cafwyd adroddiad gan FO yn dilyn y cwrs undydd a fynychwyd ganddo ar 'Ddiogelwch Cymunedol'. Trafod lleihau y nifer o droseddau o fewn cymunedau oedd y nod, trwy gael pobl i gydweithio fel tîm â'i gilydd. Trwy dderbyn a rhannu cyfrifoldeb yr oedd datrys problemau a lleihau y nifer o droseddau. Roedd y cyfan yn seiliedig ar Adran 17 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau a chymunedau i wneud popeth rhesymol i atal troseddu a chamymddwyn yn eu hardaloedd. Trefnwyd y cwrs gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd. Diolchwyd iddo am roi diwrnod i fynychu'r cwrs yng Nghaernarfon.

• Gefeillio Llanberis – Morbegno:
Adroddwyd gan FO a KJ, a fu yn Yr Eidal, i hwn fod yn gyfarfod buddiol iawn ac fod y gefeillio swyddogol bellach wedi digwydd. Roedd y croeso'n arbennig iawn a'r trefniadau'n effeithiol. Credai'r ddau y gallai llawer o ddaioni ddod o efeillio Llanberis a'r dref yng ngogledd Yr Eidal. Arwyddwyd y Siarter Gefeillio ar ran y Cyngor gan FO. Gofynnwyd i'r Clerc anfon gair i ddiolch i'r awdurdodau yn Morbegno, a gofynnwyd iddo gysylltu â CG i weld a ellid cael arwydd y tu allan i'r pentref yn nodi ein perthynas â Morbegno. Mae arwydd felly i fyny'n Morbegno mewn lair iaith eisioes.

Diolchodd KJ yn ffurfiol i FO am ei waith a'i gyfraniad i'r ymweliad ar ran y Cyngor, ac eiliwyd hynny gan y Cadeirydd, gan ddiolch yn arbennig iddo am gynrychioli CC Llanberis. Mae angen fframio'r siarter a'i ddangos mewn lle cyhoeddus. Cynnig ac eilio: DP/GA.

Caniatâd Cynllunio

NP3/15/174 – Codi pont bren dros afon, Cwm Glas Bach, Nantperis – yn dilyn gohebiaeth ag Awdurdod y Parc derbyniwyd llythyr yn dweud fod y caniatâd wedi ei roi yn unol â Polisi PC1 Cynllun Lleol Eryri, er ei fod yn groes i bolisi PC3, datblygiad tu allan i drefi a phentrefi. Yn yr achos yma roedd PC1 yn cael blaenoriaeth 'am fod pont o'r fath er mwyn hybu diogelwch a mwynhad cerddwyr sydd yn debygol o ddefnyddio'r tir ar ddwy ochr yr Afon Cwm Glas Bach.'

Holwyd a ydi hyn yn golygu fod Awdurdod y Parc yn bwriadu codi cannoedd o bontydd eraill mewn cymoedd diarffordd cyffelyb, er nad oedd llwybr cyhoeddus yn agos i'r lle.

Gohebiaeth

• Llythyr Lakeside Play Area Group – gofyn am gefnogaeth ac efallai gymorth ariannol maes o law ar gyfer datblygu'r maes chwarae ar lan y llyn. Yn y lle cynta cefnogaeth o ran egwyddor.
Cynnig ac eilio FO/WH. Dywedodd y Clerc y byddai'n anfon llythyr y diwrnod canlynol gan fod y grŵp yn cyflwyno cais am gymorth ariannol erbyn y laf o Dachwedd.

• Arolwg Ariannol – Derbyniwyd dau lythyr yn derbyn cyfrifon 2001–02 a 2002–03 fel rhai cywir oddi wrth yr Archwiliwr annibynnol, Cwmni Hacker Young, Caer. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am sicrhau fod y gwaith wedi ei gwblhau.

Unrhyw Fater Arall

• Stryd Goodman: Cafwyd trafodaeth ar sefyllfa trafnidiaeth Stryd Goodman, y prinder llefydd ar gyfer parcio a gor-yrru difrifol mewn stryd lle mae maes chwarae. Dywedwyd fod CG wedi addo rai blynyddoedd yn ôl y byddai'r stryd yma yn cael sylw. Cytunwyd i anfon gair at CG. Cynnig ac eilio: KJ/OG.

* * *

Nos Iau, Tachwedd 18fed.

Pesennol: *Ward Padarn:* Emlyn Baylis, Olwen Gwilym, Ken Jones (Blaen y Ddôl), Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp (Cadeirydd), Carys Thomas (Morris)

Ymddiheuriadau: Neb

Materion yn codi o'r cofnodion:

• Hen Siop y Co-op, Stryd Fawr:
Adroddwyd fod llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth gwmni Adwy Cyf. yn nodi y bydd awgrymiadau'r Cyngor ynglŷn â gosod eiddo'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf Cyfarwyddwyr y cwmni.

Cafwyd trafodaeth ar sefyllfa'r hen siop a hynny yn bennaf am fod Emlyn Baylis am geisio egluro ymhellach gefndir gosod y siop. Dywedodd nad oedd ef ei hun yn hapus â'r ffordd y gosodwyd y siop, roedd hynny yn rhannol am nad oedd wedi cael y maen i'r wal a chael gosod yr adeilad i'r sawl yr oedd yn ei ffafrio. Roedd o'r farn fod yr ardalwyr wedi eu camarwain gan fod amryw yn gwybod meddai fod bwriad i agor siop groser arall yn y pentref, yn adeilad Bwyty'r Caban. Dywedodd ymhellach mai am weld lleoli busnes y Caban yr oedd o yn adeilad yr hen Co-op.

Teimlai ei fod wedi cael cam am fod y Cyngor Cymuned (CC) wedi pleidleisio nad oedd ganddynt hyder ynddo. Ychwanegodd ei fod wedi cael barn gyfreithiol o'r Cyngor Sir yn dweud mai cynnig o rybudd 'o ddiffyg hyder' ddylai fod wedi digwydd fis yn ôl, ac mai yn y cyfarfod presennol y dylid fod wedi pleidleisio ar y mater.

Dywedodd hefyd ei fod wedi holi tenantiaid newydd y Siop a'i fod wedi cael ar ddeall y byddai y siop yn cael ei hagor yn hytrach na bod yn ddim mwy na storfa, fel yr awgrymodd un yn y cyfarfod diwethaf. Ychwanegodd iddo gefnogi'r caffi am y byddai hwnnw wedi cyflogi mwy na siop. Byddai siop Londis meddai wedi rhoi 4 swydd llawn amser a 7 rhan amser, tra byddai'r Caban fel caffi wedi cyflogi 10 llawn amser a 2 rhan amser. Cafodd y wybodaeth, meddai, oddi wrth y ddau gwmni. I gloi dywedodd fod un o swyddogion Cyngor Gwynedd wedi dweud mai cynrychioli Gweithgor Peris (Ardal y Llechen) yr oedd ar fwrdd Adwy Cyf. ac nid y CC. Serch hynny cafodd ei atgoffa mai aelodau'r CC a'i dewisodd i'w cynrychioli ar Weithgor Peris / Ardal y Llechen.

• Y Fainc yn Ffordd Tŷ Du
Dywedodd y Cadeirydd iddi holi preswylwyr bythynnod Glanrafon, Ffordd Tŷ Du am eu barn am symud y fainc o'i safle ar fin y ffordd i ganol y tir glas. Yn ddiethriad roedd pawb am i'r fainc aros yn ei safle presennol. Adroddwyd fod y fainc yn cael defnydd, yn arbennig gan ambell un, a doedd dim cwynion fod sŵn yn ymyrryd â bywydau'r trigolion. Dywedodd FO ei fod yn derbyn fod barn gyhoeddus yn erbyn symud y fainc, ond mynnai fod criw o lafnau yn ymgasglu o'i chwmpas a chadw twrw wedi nos. Pan awgrymwyd iddo y dylai roi gwybod i'r heddlu pan oedd yno dwrw, dywedodd iddo wneud hynny ar sawl achlysur ond i ddim pwrpas. Ar gynnig FO penderfynwyd i adael y fainc lle mae.

- Trafnidiaeth Llanberis a Goriad Gwyrdd Eryri(GGE)
Mae Goriad Gwyrdd Eryri (GGE) yn bwriadu codi cysgodfan ar gyfer teithwyr Bws y Sherpa yn Maes Parcio'r Parc Cenedlaethol yn Nantperis. Roedd sôn wedi bod am godi un ar ochr y ffordd, ond mewn ymgynghoriad a'r Clerc, a oedd wedi ceisio cu perswadio nad oedd angen cysgodfan o unrhyw fath, penderfynwyd mai yn y maes parcio yr oedd ei lle os am gael un o gwbl. Barn y Cyngor oedd nad oedd angen un. Cynnig ac eilio: CT/KJ.

Crybwyllwyd fod nifer o lythyrau a ddaeth oddi wrth CG yn ddiweddar bron yn ddieithriad yn gwrthod y syniadau a gynigiwyd gan y CC. Yn amlach na pheidio anallu neu anfodlonrwydd yr heddlu neu'r Cyngor i orfodi oedd y rheswm, e.e. doedd dim bwriad i atal parcio carafanetiau dros nos yn maes parcio'r pentref yn Llanberis, na chwaith yn y gilfan ger Adwy Ffordd Haearn yn y Nant.

Yr oedd y Cyngor Sir yn derbyn fod angen gwell arwyddion i sicrhau nad oedd trafnididaeth yn mynd i Ffordd y Farchnad o'r ffordd osgoi. Awgrymwyd fod lefel yr arwyddion presennol hefyd yn cael eu gostwng yn y fan honno ac ar y fynedfa i Faes Derlwyn. Does dim mynediad yn y fan honno o'r ffordd fawr, ac mae angen gwneud hynny yn gliriach. Cynnig ac eilio: DP/FO.

Mae'r arwydd 'Dôl y Goeden' bellach wedi ei godi yn y gyfnewidfa bws newydd. Awgrymwyd anfon llythyr at GGE i ddiolch fod yr enw a awgrymwyd gan y CC wedi ei dderbyn ac i groesawu'r arwydd llechen newydd.

Llwybrau

Cafwyd trafodaeth ar lwybrau ac awgrymwyd fod angen gwella Llwybr Tyddyn Charles i Pylla Dŵr a Waterfall View. Adroddwyd fod y stepia'n cael eu tacluso ond fod gwaith pellach i'w wneud mewn mannau eraill ar y llwybr. Cynigiwyd fod y CC yn gwneud y gwaith os nad oedd Cyngor Gwynedd (CG) yn abl i'w wneud. Cynnig ac eilio: OG/DP.

Ar gais KJ penderfynwyd holi a fyddai CG yn ffensio uwch ben y rhaeadr ym Mhen Ceunant. Tir preifat yw hwn ond roedd ffens yn arfer bod yma ar un amser ac er diogelwch dylid cael un eto. Cynnig ac eilio: KJ/CT

Bu trafodaeth hefyd am ddefnyddio'r tir o flaen Gwesty Victoria i greu rhyw fath o arddangosfa yn ymwneud â hanes chwarelyddol Llanberis. Roedd amryw o'r farn nad oedd diben cael gwely blodau i fwydo defaid y fro. Gofynnwyd i'r Clerc holi CG i weld a ellid cydweithio. Cynnig ac eilio DP/FO.

Cynllunio

NP3/15/124F – 'Newid defnydd o goedwig masnachol i safle carafanau teithiol a champio (cais diwygiedig)', Coed Victoria, Llanberis.

Cafwyd trafodaeth hir ar y cynllun diwygiedig yma. Cynllun llai na'r rhai blaenorol ar gyfer y safle, a chynllun yn amlwg a ffurfiwyd yn sgil gwrthod y ceisiadau blaenorol a'r ymchwiliad cyhoeddus.

Mae'r cais yn cynnwys mynedfa newydd, un adeilad fel swyddfa, toiledau a chyfleusterau molchi a golchi a lle i 49 o garafanau neu bebyll.

Tra'n derbyn fod y cais yma yn llai na'r cais blaenorol ac yn llai o fwgan i Westy Victoria, roedd gan y Cyngor bryderon sylweddol, ac ar bleidlais roedd y mwyafrif yn erbyn y datblygiad gan gredu eto nad oedd y safle yma yn addas ar gyfer gwersyll fel hyn. Yn gynta mae'r safle o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. Mae mannau eraill o fewn yr ardal a fyddai'n fwy addas, os yn wir oes angen am safle fel hyn yn yr ardal. Mae o leia saith o safleoedd eraill yn y cyffiniau ar gyfer carafanau a gwersylla. Credir fod y safle'n rhy agos at dros ddeugain o dai a gwesty, mae pryder am y pwysau ychwanegol ar garthffosiaeth y pentref ac ar ben hynny mae yma fwriad i greu mynedfa ar ffordd beryglus yn agos at gylchdro newydd, sydd eisioes wedi gweld nifer o fân ddamweiniau. Byddai'r safle hefyd yn ddolur i'r llygad o'r bryniau cyfagos.

Er fod yma elfen o goedwig fasnachol mae yma hefyd hen goedlan naturiol, cynefin prin yng Nghymru a chynefin y dylid ei ddiogelu. Penderfynwyd anfon at Awdurdod PCE i wrthwynebu'r cais.

Cynnig ac eilio: KJ/FO.

Cariwyd y cynnig o fwyafrif. Neb yn erbyn ond 2 yn ymatal.

Unrhyw Fater Arall

• Geifr:
Adroddwyd fod cwynion o sawl lle am nifer cynyddol y geifr a oedd o gwmpas yr ardal a'u bod yn difrodi coed a gerddi. Penderfynwyd anfon at Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Chyngor Gwynedd yn holi a oedd modd dod a nifer y geifr i lawr er mwyn cu rheoli'n well. Cynnig ac eilio KJ/DP.

• Priodas Hapus:
Dymunwyd yn dda i Carys Thomas (Morris gynt) ar ei phriodas yn ddiweddar â'i gŵr Richard, Pob hapusrwydd iddynt.

Chwilio am anrhegion Nadolig?
Galwch i'n gweld yn

SIOPAU MYNYDDA JOE BROWN

Menai Hall, Llanberis (01286) 870327
a Capel Curig (01690) 720205

- Dillad o ansawdd da am brisiau rhesymol
- Dewis eang o ddillad hamdden i'r teulu i gyd
- Menyg, hetiau, scarffiau a throwsusau *fleece*
- Offer mynydda

Yr ydym yn cadw stoc o:

- *Rab*
- *Marmot*
- *Sprayway*
- *Mammut*
- *Lowe Alpine*
- *Brasher*
- *Scarpa*
- *Troll*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

joe brown

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

W.J. DAVIES

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn: 870225

M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos
Hefyd

JOHN WHITE

THE BODY SHOP

LLANBERIS

★ Trwsio wedi damweiniau
★ Ailsbreio
★ Curo paneli

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Surf-Lines
OCEAN • RIVER • MOUNTAIN

SIOP OFFER CANWIO A CHYRSIAU ANTUR.
50% ODDI AR Y DILLAD AC OFFER RHEDEG SYDD AR ÔL

Lagŵn y Glyn
Llanberis
Ffôn: **879001**
www.surf-lines.co.uk
eich antur chi ydyw...

AR FIN AGOR AR

10 Rhagfyr...

Costcutters
(Y Caban)
LLANBERIS

Lle newydd gwych i brynu bwyd a diodydd ar gyfer y Nadolig!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb
yn Rheilffordd yr Wyddfa

SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY
LLANBERIS
• To the Summit since 1896 •

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sue Lowe

odyn copr

66 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 871366

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART
STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

★ Am luniau mynyddoedd
★ Peintiadau
★ Printiadau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS
Ffôn: 870253
(Quality Hotel Snowdonia)

QUALITY HOTEL

wrth droed yr Wyddfa

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn y gwesty.
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

Fel yr Eryr

Er gwaethaf y tywydd garw ar nos Wener, 22ain Hydref lansiodd Susan Williams, Pant Hyfryd, Ceunant ei chryno ddisg gyntaf 'Fel yr Eryr' yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Yn cadw cwmni iddi roedd y cantorion poblogaidd Meinir Gwilym, Ynyr ac Eirug Roberts o'r grŵp Epitaff, a'r gantores glasurol Sian Gibson. Yn anffodus oherwydd y dilyw a gawsom methodd Côr Eryri ac Elise Gwilym fod yn bresennol. Er hynny cafwyd noson lwyddiannus a chartrefol gyda chynulleidfa gynnes a frwydrodd yn erbyn yr elfennau i gyrraedd yr eglwys!

Cantores sydd wedi cyfansoddi caneuon sy'n mynegi ei phrofiad a'i ffydd bersonol yw Susan. Hi ysgrifennodd y rhan fwyaf o'r caneuon ond mae enwau cyfarwydd eraill yn gymorth iddi ar y CD newydd – Siân Wheway, Arfon Wyn a Siôn Aled. Casgliad o wyth cân sydd ar y CD – rhai ohonynt ar arddull gospel ac eraill yn faledi. Mae Susan yn hynod ddiolchgar i Gwmni Gwynfryn, Waenfawr, yn enwedig i Bob Galvin, y peiriannydd, sydd hefyd wedi trefnu'r caneuon. Ef hefyd yw'r offerynnwr ar bob trac. Yn ôl Susan, 'Mae wedi bod yn fraint cael gweithio â cherddor mor amryddawn ac mae'r gefnogaeth gan y cwmni wedi bod yn wych.'

Yn ddiweddar bu Susan yn perfformio yn Theatr Ardudwy gyda Meinir Gwilym ac Anhysbys. 'Roeddwn yn crynu fel deilen,' meddai 'ond er hynny roedd yn brofiad gwefreiddiol.'

Ei gobaith yn awr yw y bydd yn cael y cyfle i hyrwyddo'r CD ac i berfformio'r caneuon hwnt ac yma ond yn enwedig yn yr ardal hon. Os am drefnu cyngerdd, gwasanaeth neu gymanfa, beth am gysylltu â Susan ar y rhif ffôn (01286) 650272 neu drwy e.bost i huwemyr@btinternet.com

Pris 'Fel Yr Eryr' yw £7.99 ac mae hi ar werth mewn siopau Cymraeg, gan Gwmni Gwynfryn neu gan Susan ei hun. Acth £1.00 am bob copi a werthwyd cyn ac yn ystod y noson lansio i gronfa cymdeithas sy'n agos iawn at ei chalon; casglwyd £200.00 at Gymdeithas S.A.N.D.S. Cymdeithas yw S.A.N.D.S. sy'n helpu rhieni a gollodd faban ar ei enedigaeth neu'n fuan wedyn.

O SIAMBAR SELWYN

EDRYCH drwy hen luniau o fy nheithiau i wahanol wledydd yr oeddwn i pan ddeuthum ar draws llun o Buba. Pwy yn y byd mawr 'ma ydi Buba? meddech. Ysgwn i ble mae Buba heddiw? Ys gwn i ydi o wedi dysgu mwy o Gymraeg?

Buba Jabang oedd ei enw fo, ac roedd o'n gweithio yng ngwesty mwyaf moethus y Gambia, sef y Kombo Beach, pan fu Myra a minnau ar ymweliad yno tua deng mlynedd yn ôl. Bachgen ifanc croenddu, dwy ar hugain oed oedd Buba, a gwên barhaus ar ei wyneb o.

Roedd o wedi sylwi bod Myra a minnau yn siarad iaith wahanol i'r gweddill o'r gwesteion. Clustfeiniodd, a dechreuodd ein holi. Oedd, roedd ganddo ddiddordeb arbennig mewn ieithoedd, ac eisoes roedd o'n gyfrwydd â nifer o ddywediadau syml mewn Almaeneg a Ffrangeg. Roedd o wedi dysgu'r ymadroddion hyn drwy sgwrsio â'r ymwelwyr. Wrth gwrs, roedd o'n rhugl yn y Saesneg.

Roedd Buba yn awyddus iawn i ddysgu'r iaith ddieithr a siaradem ni. Nid oedd erioed wedi clywed gair o Gymraeg cyn hyn, yn wir wyddai o ddim bod 'na ffasiwn le a Chymru. Bob prynhawn ar ôl gorffen ei ddyletswyddau yn y gwesty, fe ddeuai atom i eistedd wrth ein tŷ to gwellt ar draeth Kotu, a chyn pen dim roedd ymadroddion cyffredin fel 'bore da' a 'diolch yn fawr' a 'sut ydach chi heddiw?' yn llithro'n llyfn dros ei wefusau. Buan iawn hefyd y daeth i ddysgu dyddiau'r wythnos, a chlywais i 'rioed yr un dysgwr yn gallu ynganu'r llythyren 'ch' mor loyw ag o. Roedd o'n gallu dweud 'dydd Mercher' a 'chwech' cystal ag unrhyw Gymro, ond roedd yntau yn cael cryn drafferth gyda'r 'll' a chawsom dipyn o hwyl wrth geisio ei ddysgu i ynganu 'dydd Llun'.

Ta waeth, hyfryd oedd clywed Buba yn cin cyfarch yn forcol â 'bore da', gan ddweud pa ddiwrnod oedd hi, ac yn ffarwelio â ni gyda 'hwyl fawr', 'gwela i chi fory' a 'diolch yn fawr'. Na, wna i byth anghofio y wên a lenwai ei wyneb pan dynnwyd y llun ohono ar draeth Kotu dros ddeng mlynedd yn ôl.

Yn Cala Bona, Majorca, ychydig wythnosau yn ôl, y gŵr sy'n gofalu am gario'r bagiau i'n hystafell yn ein cyfarch mewn Cymraeg pur, 'Helo, sut ydach chi, mae'n braf. Croeso.'

Fe wyddoch chithau fel finnau am sawl Sais a fynnodd gartrefu ym mro'r *Eco* ac sydd wedi bod yn byw yn ein plith am flynyddoedd lawer, a fedran nhw ddim deud pethau syml fel 'bore da' a 'diolch yn fawr', heb fod a'u tafodau nhw yn bwrw tin dros ben yn eu cegau nhw. Gwyddom am eraill hefyd sydd wedi ymdrechu i ddysgu ein hiaith, a diolch amdanyn nhw, ond prin ydyn nhw ar gyfartaledd i'r gweddill.

Gambia ydi'r wlad annibynnol leia ar gyfandir Affrica – tua 4,400 milltir sgwâr. Tua 200 milltir o hyd, a 20 milltir o led. Yr ugain milltir, mwy neu lai yn un traeth hir o dywod melyn a thonnau'r Iwerydd yn ei olchi. Eto, mewn gwlad fach, mae yna tua 800,000 o bobl yn byw. Pobl gyfeillgar, parod i sgwrsio, awyddus i'ch plesio, a rhai (fel ymhob gwlad) yn fwy na pharod i'ch twyllo hefyd. Gwlad sy'n ddibynnol ar dwristiaeth a ffermio ydi Gambia. Gwlad sy'n baradwys i adarwyr. Does dim problem newyn, ond mae yno dlodi.

Mae'n siŵr fod pethau wedi newid cryn dipyn yno mewn deng mlynedd, ond gan ei bod yn y trofannau mae'n wlad eithriadol o boeth gyda'r tymheredd ar gyfartaledd o 97 yn y cysgod yno. Fe gawsom y profiad o fynd ar saffari mewn *jeep* i berfeddion y wlad ar hyd ffyrdd llychlyd, ac i ymweld â chartrefi ac ysgolion. Cofiaf fynd a llyfrau a biros a gefais gan ysgolion Bro'r Eco i'r ysgolion yn Gambia, a'r fath groeso gefais gan y plant a'r athrawon.

Buom hefyd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau traddodiadol gyda'r trigolion o dan gysgod coeden enfawr a elwir yn 'goeden cliffant'. Roedd hyd yn oed y plant lleiaf (tua dwy flwydd oed) yn siglo'n frwdfrydig i rythm y drymiau taro.

Anodd coelio y cyfeiriad at y wlad fel 'bedd y dyn gwyn' ychydig flynyddoedd yn ôl. Be ydi hanes Buba Jubang bellach ys gwn i. Ydi o'n dal i gofio'r ychydig Gymraeg a ddysgodd ar draeth crasboeth Kotu dros ddeng mlynedd yn ôl. Ydi, mae lluniau mewn albwm yn dwyn atgofion melys yn ôl i rywun. Digon o waith y caf i fynd i wlad Gambia byth eto a wela i byth mo Buba Jubang. Dim ond syllu ar ei lun, a'r wên yn llenwi ei wyneb.

Un funud fach

DRAW, DRAW YN...

Dwi'n ddigon hen i gofio'r gân, ac yn ddigon ifanc i gofio fersiwn y Trwynau Coch ohoni. Ac erbyn hyn bron nad yw'r fersiwn honno yn fwy cywir, neu o leiaf yn fwy derbyniol:

'Draw, draw yn China a thiroedd Japan
Hondas a Mazdas sy'n byw;
Dim ond Suzukis a Kawazakis mhob man,
Gwlad y teledu lliw.'

Wedi'r cwbl, ni fedrwn heddiw ganu nad oes 'neb i ddweud am Dduw' wrth y 'plant bach melynion' (pe meiddiem ddefnyddio'r fath derm!). Mae Efengyl Iesu Grist wedi cyrraedd y gwledydd hynny ers blynyddoedd, diolch i Dduw.

Clywais yn ddiweddar ddau weinidog yn sôn am eu hymweliad â China. Gwelsant eglwysi swyddogol sy'n derbyn nawdd y wladwriaeth ac eglwysi answyddogol sydd heb y fath nawdd. Mae'r eglwysi swyddogol yn rhydd i gyflawni eu gwaith yn agored tra bo'r eglwysi answyddogol, i raddau helaeth, yn gorfod cynnal eu gweithgarwch yn y dirgel. Mae gan yr eglwysi swyddogol eu hefengyl swyddogol a'r eglwysi answyddogol eu hefengyl answyddogol. Mae'r eglwysi swyddogol er enghraifft yn ofalus i beidio tramgwyddo arweinwyr y wlad, ac o'r herwydd yn sicrhau nad ydynt yn dweud dim sy'n awgrymu bod y bobl hynny, heb Grist, yn golledig. Ond does gan y rhai answyddogol mo'r bwriad lleiaf i wanhau'r neges a ymddiriedwyd iddynt gan y Brenin Mawr.

Nid yn China yn unig y mae'n beryg i bobl wanhau'r Efengyl a'i hamddifadu o'i helfennau tramgwyddus. Mae sôn am aberth Crist a'i waed yn anesmwytho rhai; a chrybwyll uffern yn annerbyniol i eraill; tra bo cyhoeddi'r angen am droedigaeth yn ennyn gwrthwynebiad eraill eto. Mae'r busnes o gyhoeddi'r Efengyl yn fwy cyfforddus o'r hanner heb bwysleisio'r fath bethau. A dyna'r peryg mawr, ein bod yn gwthio'r pethau tramgwyddus hyn i'r naill ochr ac yn cyflwyno efengyl dlotach ac anghyflawn; gan anghofio mai yn ei thramgwydd y bu mawredd a grym Efengyl Iesu Grist erioed. Fydd pobl ddim yn neidio ac yn cofleidio'r gobaith sydd yn yr Arglwydd Iesu heb iddynt yn gyntaf gael eu deffro a'u styrbio i'r twll y maent ynddo hebddo Ef.

Mae Efengyl 'Swyddogol' Iesu Grist yn tramgwyddo pobl ac yn eu denu; mae'n eu llorio ac yn eu codi; mae'n eu gwagio ac yn eu llenwi. Dyma Efengyl eglwysi answyddogol China, a gobeithio ein Hefengyl ninnau.

JOHN PRITCHARD

CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 - Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Tŷ'r Annedd, Rhos Gynfi, Deiniolen LL55 3LG

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y
PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

CHWILOTA

BWYD WYRCWS

Aninnau'n nesau at dymor y Gwyliau, dathlu'r Nadolig, ystyried ein cyd-ddyn a chymryd rhan yn y sbloets wario anfoesol flynyddol (sydd eisoes wedi cychwyn ers rhyw ddeufis), da o beth fyddai cofio sut roedd ein cyn-deidiau yn gofalu am rai llai ffodus. Am ganrifoedd, roedd gofal y tlodion wedi bod yn gyfrifoldeb y plwyfi; yn deillio o sustem a sefydlwyd yn ystod oes Elisabeth 1af, ac a ddaeth yn Ddeddf yn ystod y blynyddoedd o 1597 hyd 1601. Parhaodd y sustem, gyda rhai mân newidiadau, hyd 1834 pan ddeddfwyd gwelliannau i'r hen Ddeddf y Tlodion.

Yn ôl y drefn wreiddiol, roedd Goruchwyliwr y Tlodion yn cael ei ethol gan yr hen gyfarfod plwyfol, a'i waith oedd pennu trethi lleol er mwyn cynnal y tlodion o fewn ei blwyf. Byddai'r Goruchwyliwr fel arfer yn gwasanaethu am flwyddyn, weithiau am ddwy flynedd, ond doedd dim tâl am y gwaith.

Dros y canrifoedd, aeth gweinyddu'r Ddeddf yn drafferthus oherwydd cynnydd yn y boblogaeth a'r ffaith fod pobl yn symud o un lle i'r llall i chwilio am waith. Roedd Deddf Sefydlogi 1662 yn diffinio'r modd yr oedd goruchwylwyr y tlodion i benderfynu a oedd hawl gan dlodion i dderbyn cynhaliaeth o'r naill blwyf neu'r llall. Roedd y dadleuon ynglŷn â 'phlwyf cyfreithiol' unrhyw dlotyn yn cael eu hystyried gan Lys y Chwarter Sesiwn, ac yn arwain at gostau ychwanegol. Doedd hyn o ddim budd i'r plwyf ei hun, a wynebai gynnydd yn y dreth; ac yn sicr, doedd o ddim budd i'r tlotyn druan, a oedd yn gorfod disgwyl yn ddiymgeledd nes penderfynu pa blwyf oedd i dderbyn cyfrifoldeb amdano ef neu hi.

Roedd rhai plwyfi eisoes wedi cychwyn ar ddulliau newydd o ofalu am y tlodion. Yng Nghaernarfon, prynwyd tŷ am £360 yn 1786 i fod yn gartref i'r tlodion. Roeddent hefyd yn derbyn bwyd a dillad yno, a llin yn cael ei baratoi i'w nyddu. Yn Llanrug prynwyd tri o fythynnod am £27. Roedd pob bwthyn yn mesur 15 troedfedd wrth 13 troedfedd, ond yn ddim ond pum troedfedd o uchder. I'r bythynnod hyn yr anfonid tlodion y plwyf. Mae olion un o'r hen fythynnod hyn i'w gweld heddiw wrth dalcen Tŷ Newydd ger giât gefn Ysgol Gynradd Llanrug. Yn Llanddeiniolen, telid 'sist' (sef *'assistance'*) i'r tlodion, weithiau mewn arian, dro arall mewn nwyddau megis pâr o esgidiau.

Daeth yr hen sustem i ben yn 1834 pan gyflwynwyd dull newydd o ofalu am y tlodion. Sefydlwyd 'undeb' o blwyfi yn cael eu goruchwylio gan Warcheidwaid wedi eu hethol. Roedd yr undebau hyn yn ymestyn dros ffiniau sirol, ac yn aml wedi eu canoli ar dref farchnad. Roedd Undeb Caernarfon yn cynnwys deuddeg o blwyfi Arfon a phump o blwyfi de-orllewin Môn. Aeth yr undebau ati'n fuan i sefydlu ac adeiladu wyrcws ar gyfer y tlodion o fewn eu hardaloedd.

Adeiladwyd Wyrcws Caernarfon yn 1846. Ofn mawr y mwyafrif helaeth o weithwyr ar gyflog isel yn yr ardal oedd diweddu eu hoes yn y wyrcws. Erbyn 1894 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y wyrcws i'r cynghorau dosbarth a'r cynghorau sir newydd; ond ni ddaeth y sustem yn gyfangwbl i ben nes creu'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn 1948.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf derbyniais bennill a arferai gael ei ganu am Wyrcws Caernarfon. Mae'n bosibl mai rhan o gân hwy yw'r un pennill a ddyfynir yma. Os oes unrhyw un o'r darllenwyr yn gwybod am benillion eraill, cysylltwch. Arferai'r pennill gael ei ganu ar y dôn 'Clawdd Madog'...

Os ewch i Wyrcws C'narfon
Mor ifanc ag es i,
Fe gewch sgili yn y bore
Syrffeda galon ci;
A ll'gada mawr 'rhen Owens
Fel cocos ar y traeth;
Bum yno am ddwy flynedd,
Ond nid wyf lawer gwaeth.'

Pwy tybed oedd Owens? Mae'n ymddangos fel pe bai'n un o'r goruchwylwyr yn y Wyrcws, neu'n reolwr hyd yn oed. A sawl un ohonoch sydd wedi clywed am sgili?

Daw'r term o'r gair Saesneg *'skilly'* sy'n deillio'n wreiddiol o'r gair *'skilligalee'*. Fe'i defnyddid gan longwyr am y math o fwyd sâl ddifrifol oedd ar gael erbyn diwedd mordaith hir. Yna, daeth i gael ei ddefnyddio am fwyd carchardai a wyrcws. Math o griwel dyfrllyd oedd hwn wedi ei wneud unai o fara a dŵr neu geirch a dŵr, ond yn cynnwys mwy o ddŵr na dim arall. Fe'i disgrifiwyd fel *'uwd yn dioddef o'r ddarfodedigaeth'*, neu bryd o fwyd 'mor faethlon â dŵr glân'.

Yr hyn sy'n weddill o un o'r tai tlodion a brynwyd gan Festri Blwyfol Llanrug dros 200 mlynedd yn ôl.

Mwynwyr Cymreig yn Wardner

Mae'r cais ddeufis yn ôl am wybodaeth ynglŷn â Frances Williams wedi denu nifer o ymatebion. Addewais yn y rhifyn diwethaf roi sylw i wybodaeth sydd ym meddiant Mrs Mair Williams, Cwm y Glo. Ers hynny, cefais groeso ar ei haelwyd, a benthyca nifer o luniau.

Roedd tad Mrs Williams, sef Evan Samuel Davies, Clawdd Llwyd, Tan y Coed, wedi mudo'n ŵr ifanc i Canada. Hwyliodd o Lerpwl ym mis Ebrill 1914 ar un o longau'r cwmni Mergantic and Great Northern Railway System. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am ei arhosiad yn Canada, ond erbyn 1917 roedd wedi symud i borthladd Marcus yn nhalaith Washington, yng ngorllewin yr Unol Daleithiau, ac yn gwneud cais i'r awdurdodau am gael gweithio yno fel mwynwr. Mae cytundeb gwaith ym meddiant Mrs Williams hyd heddiw. Yn Wardner roedd yn byw yn ystod y cyfnod hwn, sef safle mwyngloddio yn County Shoshone, Talaith Idaho, ym mynyddoedd y Rockies. I'r ardal hon hefyd y daeth Frances Williams a'i mam i fyw, ac mewn cyngherddau yn Kellogg, Wardner a Spokane y gwnaeth yr enath fach cnw iddi ei hun.

Beth felly a ddenodd nifer fechan o Gymry i'r ardal anghysbell hon oedd mor bell o ganolfannau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yng...
NGWESTY
PADARN LAKE
HOTEL
LLANBERIS
Ffôn 870260
Prydau parti Nadolig
£13 neu £15
HEFYD BWYD BAR A CHINIO DYDD SUL

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad
neu
ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE
neu
e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

Cymreig eraill yr Unol Daleithiau, megis ardaloedd y chwareli llechi yn y dwyrain?

Yn 1885 cawn hanes chwilotwr aur o'r enw Noah Kellogg yn teithio afon Coeur d'Alene yn y gobaith o ddarganfod aur. Tra'n gorffwyso ar un o dorlannau'r afon, crwydrodd ei ful i ffwrdd, a phan aeth yntau i chwilio amdano, darganfu rywbeth yn sgleinio'n llachar yng ngolau'r haul. Tybiodd ei fod wedi darganfod aur, ond gwythien o galena oedd yno, yn brigo i'r wyneb. Dyma'r mwyn sy'n rhoi plwm. Aeth yr hen Noah ati i gofrestru ei hawl i gloddio am y plwm, a dechreuodd gweithwyr eraill symud i'r ardal. Un ohonynt oedd James Wardner, a oedd yn ddigon hirben i gofrestru ei hawl ar ddŵr yn yr ardal. O fewn dim, roedd Noah a James yn bartneriaid, ac yn rheoli'r rhan helaeth o gloddfeydd yr ardal. Tyrrodd gweithwyr yno i chwilio am waith. Ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf roedd hwn yn un o gloddfeydd plwm pwysicaf America, sef Bunker Hill.

Adeiladwyd degau o gabannau coed i gartrefu'r gweithwyr, a galwyd y gwersyll pren hwn yn Wardner. Yn sgil y diwydiant pwysig hwn tyfodd tref newydd o'r enw Kellogg. Ond fel yn hanes pob diwydiant o'r fath, dirywiodd y gwaith, a bellach does dim ond olion mwyngloddio yn yr ardal. Ble gynt roedd Kellogg yn ganolfan fasnachol y Coeur d'Alene Mining District, mae erbyn heddiw yn ganolfan gwyliau y Dyffryn Arian, ac nid yw Wardner bellach ond pentref bychan o tua 200 o boblogaeth.

Mae'n amlwg felly i Evan Samuel Davies weithio yma fel mwynwr yn y gweithfeydd plwm, ac y mae'r lluniau yn dangos y cabannau pren ble roedd ef a'i gydweithwyr yn byw ynddynt. Ymhlith y casgliad o luniau o'r ardal sydd gan Mrs Williams, mae dau enw arall yn cysylltu'r ardal â Chymru, sef lluniau o Dick Hughes, Tanrallt, Waunfawr, a Will Robinson, Talysarn, Dyffryn Nantlle. Tybed oes rhai o deuluoedd y ddau hyn yn parhau yn Idaho ynteu a ddaethant hwythau, fel Evan Samuel Davies, yn ôl i Gymru i fagu teuluoedd?

Teulu 'Rallt Coed Mawr

Gan Mrs Eirlys Williams, Minffordd, Brynrefail, y cefais gadarnhad ynglŷn â theulu mam Frances Williams. Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar am y croeso ym Mrynrefail, ac am y cyfle i gael gweld nifer o luniau o Frances, ei gŵr, Eric Davies, a'i mam, Katherine (neu Kate).

Roedd Katherine Owen (sef mam Frances) yn hannu o 'Rallt Coed Mawr, ac yn cael ei hadnabod fel Kate 'Rallt. Brawd iddi oedd Griffith Owen (sef taid Mrs Eirlys Williams) a oedd yn cael ei adnabod fel Guto Cae Steel. Ymfudodd chwaer arall, Nel, i Canada; ac yr oedd ganddi ddau o fechgyn – efeilliaid. Tybir fod y teulu wedi byw am gyfnod yn Gwyrfai Terrace. Roedd nain Frances, a mam Kate, Griffith a Nel, yn cael ei hadnabod yn ardal y Waunfawr fel Betsan 'Rallt.

Roedd Frances felly, yn gyfnither gyfan i fam Mrs Williams, a byddai'r ddwy yn gohebu'n gyson a'i gilydd. Byddai Kate hefyd yn anfon newyddion iddi am ei chwaer, Nel, o Ganada. Un o'i phrif bleserau ar ei hymweliadau â Chymru oedd cael mwynhau eistedd o flaen tanllwyth o dân glo. Pan fu farw Kate, ac yna'n ddiweddarach, Frances, collwyd y cysylltiad teuluol â Nel yn Canada.

Katherine Wright (Owen gynt), sef Kate 'Rallt, a'i brawd, Griffith Owen (Guto Cae Steel) pan oedd ar ymweliad â Chymru tua 1953/54.

Byddai'n ddiddorol gwybod a oes eraill o ddisgynyddion Betsan 'Rallt yn parhau i fyw yn yr ardal.

Cafwyd cadarnhad fod Frances Williams wedi arwain cymanfa ganu yn y Waunfawr ar ddechrau'r 1950'au gan Mrs Elisabeth Edwards, Trelawnyd, Sir y Fflint. Mae'n cofio bod yn bresennol yn y gymanfa honno, a chofia'r arweinydd yn gofyn i'r gynulleidfa *'unwaith eto os gwelwch yn dda'*, mewn llais araf.

Cwmni o Weithwyr

Gan Mrs Margaret Ellis, Nantperis, Mrs Hilda Orritt o Gwm y Glo, a Mrs Shirley Griffith o Gaerfyrddin y daeth sicrwydd ynglŷn â'r llun a dangoswyd ddau rifyn yn ôl. Llun ydyw o weithwyr Cantin Nicaco tua dechrau'r 1940'au. Mae mam Margaret, sef Selina Morris, ynddo, a gall enwi dwy arall o Lanberis sef Katie Owen a Beryl Owen. Roedd Mrs Orritt yn cadarnhau fod ei chwaer, Beryl Owen o Lanberis, yn y llun. Mae hefyd yn enwi Phyllis o Ddeiniolen a Mrs O'Grady o Gaernarfon. Hefyd yn y llun mae rheolwr y cantin a'i wraig, ond ni chafwyd enwau iddynt. Tybiai Mrs Griffith mai Jac Davies yw un o'r dynion yn y llun. Er mai yng Nglynrhonwy roedd prif waith Nicaco, ar lan llyn Peris, ble mae'r orsaf drydan heddiw, yr oedd y cantin. Wedi'r rhyfel, mae'n debyg i lawer o weithwyr Nicaco gael gwaith yn ffatri Peblig, Caernarfon.

Llyfrau'r Nadolig

I'r rhai ohonoch sy'n ymddiddori mewn hanes bro, mae tri o lyfrau wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar a fyddai'n gwneud anrheg Nadolig penigamp. Geraint Jones yw awdur *Cyrn y Diafol*, sy'n adrodd hanes rhyfeddol hen fandiau pres Gwynedd. Rwyf hefyd yn eithaf siŵr y bydd rhai o'i sylwadau yn achosi cryn ddadlau ymysg banjars y fro, ac y mae posib iddo godi nyth cacwn rhwng Band Deiniolen a Llanrug. Beth bynnag am hynny, prynwch, darllenwch, mwynhewch a chytunwch neu anghytunwch!

Un o Lyfrau Llafar Gwlad yw *Tyddynnod y Chwarelwyr* gan Dewi Tomos, ac er ei fod yn sôn yn bennaf am ardaloedd chwareli llechi Moel Tryfan a'r cyffiniau, mae'r disgrifiadau o gymdeithas y chwarelwr a'i amgylchiadau byw yr un mor berthnasol i'n hardal ni.

Llyfr Saesneg yw'r trydydd, sef *Cwm Gwyrfai* gan Gwynfor Pierce Jones ac Alun John Richards, dau arbenigwr ym myd chwareli llechi a'r rheilffyrdd oedd yn gysylltiedig â hwy. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'n astudiaeth fanwl o chwareli ardal y Waunfawr, Betws Garmon, Rhyd-ddu a Moel Tryfan, ac unwaith eto, yn ffinio â bro'r 'Eco'.

Cenhadon yn Enlli

O'r diwedd daeth ymateb i'r cais ynglŷn â'r ddau o blwyf Llanrug oedd yn y 'Mission House' ar Ynys Enlli. Daeth galwad ffôn, ac yna ymweliad personol gan Mr R. Arwel Jones, Rhosgadfan, a gwybodaeth gynhwysfawr am y ddau a'u teulu. Deuent yn wreiddiol o Hafodlas, Ceunant. Mwy o'r hanes yn y rhifyn nesaf.

Stamp Post a Bywoliaeth Llanberis

Daeth ateb gyda throad y post o Bristol, a chopi hynod glir o'r ddogfen wreiddiol wedi ei dyddio 1732. Daeth ateb arall hefyd o Lanrug yn lleoli'r caeau a enwir yn yr atodiad i'r ddogfen. Ond dangosodd mwy o waith ymchwil fod tiroedd eraill yn Llanrug wedi eu prynu i gynnal bywoliaeth Llanberis hefyd. Bydd yn rhaid disgwyl tan y rhifyn nesaf i gael adroddiad cynhwysfawr ar yr hanes hwn.

Siawns na fydd digon o gig arno i roi rhywbeth mwy sylweddol na sgili i chi gnoi cil arno dros yr Wyl!

Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu unrhyw ymholiad am hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

Rhai o fwynwyr gwaith plwm Bunker Hill tua 1917 y tu allan i'r cabannau coed a adeiladwyd ar eu cyfer. Yn eu plith, o bosibl, mae Evan S. Davies, Tan y Coed, Dick Hughes, Waunfawr a Will Robinson, Talysarn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

i'n holl gwsmeriaid oddi wrth bawb ym

MENTER FACHWEN

a

CABAN Y CWM
CWM Y GLO

DRAENOG

Mae bywyd cynghorydd yn gallu bod yn un blinedig iawn. Ychydig wythnosau'n ôl bu'n rhaid i gynghorydd o'r fro deithio ar drên i Lundain. Wrth adael TREF O'R enw Crewe syrthiodd i gysgu'n drwm. Dechreuodd chwyrnu. Yn wir, roedd y sŵn yn fyddarol – yn llawer uwch na sŵn yn trên! Trafodwyd y sefyllfa gan ei gyd-deithwyr, rhoddwyd y mater i bleidlais. Canlyniad? Ei adael yn y 'siambr' ar ei ben ei hun gan obeithio y byddai'r rhochian yn cymryd ei gwrs cyn cyrraedd Llundain!

BELS BACH HAYLAGE AR WERTH

PORTHIANT O ANSAWDD UCHEL AR GYFER CEFFYLAU A DEFAID. MODD DANFON LLWYTHI BYCHAN YN LLEOL FFONIWCH HEDD AR

07765 860 643

OAK AM BETROL, DEISEL OLEW AC AMRYFAL ANRHEGION MODURO **OAK**

GORSAF BETROL LONDON GARAGE CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Dodrefn Da am Bris Discownt

THE SALES HALL

Y NEUADD ARWERTHIANT

CWM-Y-GLO

Ffôn: **01286 879060**

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds'
Ffatïoedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: **LLUN – SADWRN 10.30 – 5 p.m.**

Cyfarchion Nadolig

CWM Y GLO

SWYDDFA'R POST

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym menter gymunedol

CYFEILLION Y CWM A SWYDDFA'R POST CWM Y GLO

Ffôn: 872722

Diolch am eich cefnogaeth yn 2004
Edrychwn ymlaen i'ch gwasanaethu drwy gydol 2005

ORIAU AGOR:

	SIOP	POST
Llun	9-12	9-11.45
Mawrth	9-12	9-11.45
Mercher	9-12	9-11
Iau	9-12	9-11.45
Gwener	9-4	9-11.45
Sadwrn	10-12	Ar gau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth

BILL a JACKIE

SNOWDON HOTEL Y FRICSAN

CWM-Y-GLO Ffôn 870289

- Cinio 'Dolig ar gael drwy gydol mis Rhagfyr. Archebwch yn fuan. Pris: o £9.99 am 3 chwrs.

Ffoniwch i wneud yn siŵr fod lle ar ôl!

- Cofiwch hefyd – bob dydd Sul, Cinio Rhost blasus 2 gwrs am £5.99; 3 chwrs am £6.99

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **IRFON** a phawb yn

LONDON GARAGE

Cwm-y-glo

Ffôn: 870234

Ar agor: 8.30–6 Llun–Gwener
8.30–1 Sadwrn

MOT. Disel, Petrol
Gwasanaeth ac Atgyweirio

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys

ORIEL CWM

Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS. Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

UNED Y MAMAU. Ar ddydd Gŵyl yr Holl Saint cyfarfu'r aelodau yn Eglwys Sant Gabriel i dderbyn y Cymun Bendigaid ac yna cafwyd y cyfarfod misol yn yr ysgol gymuned. Adroddwyd gweddi Undeb y Mamau ac yna trafodwyd rhai materion gan Mrs Dorothy Jones.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mrs Gwen Owen a Mrs Marjorie Roberts a derbyniwyd lythyr o ddiolch gan Uned Arbennig Plant Ysbyty Gwynedd am anfon dillad i'r plant. Y mae cerdyn Nadolig wedi ei anfon i gangen Undeb y Mamau Uganda. Yr oedd Mrs Joyce Ransom a Mrs Gwen Owen yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhorthmadog. Cafwyd adroddiad gan Mrs Margaret Latham ar ei hymweliad â Llundain a Thŷ Mary Sumner.

Croesawyd ein gwraig wâdd, Mrs Pat Jones, Brynrefail, gan Dorothy. Gwnaeth Pat addurniadau bwrdd ar gyfer achlysuron arbennig a mwynhawyd y noson gan bawb.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt a diolchwyd iddynt ac i Pat, gan Margaret. Enillodd Joyce addurn wedi ei roddi gan Pat a Dorothy enillodd y raffl a roddwyd gan y gwesteion.

Dymunwyd taith ddiogel i Margaret, oedd yn gadael i dreulio misoedd yn America, ac i Dorothy sydd yn treulio'r Nadolig gyda'i merch yn Denver, Colorado. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Bydd Gwasanaeth Carolau ar 6 Rhagfyr.

MARWOLAETH. Yn dawel yn yr ysbyty fore Sul, 14 Tachwedd, bu farw Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd, yn 83 mlydd oed. Yn enedigol o Drefor, symudodd y teulu i Benmaen-mawr ac yna i Gwm-y-glo. Diddordeb a phleser mwyaf Mrs Pritchard oedd 'hen hanesion' y pentrefi y bu'n byw ynddynt ac yr oedd yn ei meddiant luniau diddorol o'r pentrefi hynny â'u cymeriadau.

Bu ei hangladd ddydd Gwener, 19 Tachwedd, yng Nghapel y Rhos, lle bu'n aelod am flynyddoedd. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Dafydd Hughes. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i dau fab, Geraint a Cledwyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

CAPEL TABERNACL. Dydd Iau, 21 Hydref daeth plant yr ysgol i'r capel i ddathlu Gŵyl y Diolchgarwch. Gwnaeth y plant eu rhan yn rhagorol a phleser o'r mwyaf oedd gweld llawr y capel yn llawn, gyda rhieni a llawer o drigolion pentrefi Cwm-y-glo a Brynrefail wedi dod i ddathlu'r ŵyl gyda'r plant. Diolch o galon i Mrs Eleri Davies, prifathrawes yr ysgol, ac i bawb am eu cyfraniad i'r gwasanaeth.

YSGOL CWM-Y-GLO. Daeth nifer fawr o rieni draw i Gapel Tabernacl i gymryd rhan yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Casglwyd at Barnados yn ystod y gwasanaeth a rhoddwyd y ffrwythau a'r llysiau i Gaban y Cwm.

Aeth Blwyddyn 5 a 6 draw i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i gymryd rhan mewn Gweithdy Barddoniaeth. Cawsant hwyl yn barddoni ac fe wahoddwyd hwy'n ôl i gael eu ffilmio gan y BBC! Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ym mis Ionawr.

Aeth Blwyddyn 3 a 4 i lawr i Theatr Seilo gyda Mrs Davies i gael eu recordio yn canu cân ar CD. Bydd y CD yn cael ei gwerthu i gasglu arian i Henoed Gwynedd.

Daeth Paula Owen draw i sgwrsio am Ddiogelwch ar y Ffyrdd, a daeth PC Neil Williams draw ddwywaith – yn gyntaf i sgwrsio gyda'r Babanod ac wedyn at Blwyddyn 5 a 6. Diolchwn iddynt, ac i Sarah Ashton, a ddaeth i'r Urdd i sôn am goed. Diolchwn hefyd i'r Parch Tegid Roberts ddaeth at y plant hynaf i sôn am Liwiau'r Eglwys. Roeddynt wedi mwynhau yn arw.

Enillwyr y Clwb Cant oedd Mrs Hilda Orritt, Llio Davies a Lesley Wilson. Llongyfarchiadau i chi.

I ddathlu Diwrnod Plant Mewn Angen daeth nifer mawr o blant (ac athrawon!) i'r ysgol mewn gwisg ffansi neu byjamas. Casglwyd swm da at yr achos.

Cofiwch fod y Gymdeithas Rhieni Athrawon yn trefnu noson o Bingo ar 2 Rhagfyr am 6.30 yh.

Jones & Whitehead Cyf.

Contractwyr Trydan

Goleuadau Argyfwng ac offer Larwm Tân

Gwasanaeth i Cymru Cyfan

Aelod o NICEIC Contractwyr Trydan Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol

Prif swyddfa

Penrala, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS. Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Iau, Tachwedd 18fed oedd noson Cyfarfod Blynyddol y gangen leol. Daeth yr aelodau ynghyd i Ganolfan Grefftau a Dylunio Eryri. Rhoddwyd crynodeb o'r cofnodion am y flwyddyn a aeth heibio gan Carol Houston ac, yn absenoldeb y trysorydd, cyflwynwyd yr adroddiad ariannol gan Pat Jones. Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn i ddod: Llywydd, Pat Jones; Ysgrifenyddes, Carol Houston; Trysorydd, Verna Jones; Trefnwyr gwesteion, Gwenda Roberts a Gwen Edwards.

Yn dilyn croesawyd Lowri Prys Williams i roi sgwrs ar y Garthen Pwlleli sydd yn ei meddiant. Cafwyd cyfle i werthfawrogi y garthen sydd wedi ei gosod i hongian i'w harddangos ar fur yn ei chartref. Cafwyd gwybodaeth am gefndir y crefftwaith yn gyffredinol ac ychydig o argraffiadau personol am yr enghraifft dan sylw. Yn dilyn mwynhawyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Pat Jones a Carol Houston. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Carol Houston, gan Lowri Prys Williams. Cyhoeddwyd ar y terfyn y bydd y Cinio Nadolig blynyddol yn y Vaynol Arms, Pentir, nos Lun 20fed o Ragfyr.



Lowri Prys Williams fu'n rhoi sgwrs i aelodau Sefydliad y Merched am Garthen Pwllheli.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU 2005

Yn dilyn y cyhoeddiad yn rhifyn Tachwedd o'r Eco ynglŷn â'r apêl leol i godi swm o £680 tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2005 hysbysir gan Mrs Pat Jones, ein cynrychiolydd ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen fod dros hanner y targed – £375 wedi ei gyfrannu hyd yn hyn.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

BLYCHAU NADOLIG. Fel y mae'n arferiad ers rhai blynyddoedd gan aelodau a charedigion, cefnogwyd yr ymdrech 'Ymgyrch Nadolig y Plentyn' unwaith eto eleni. Dymuna'r trefnydd, Mrs Jennie Angharad Roberts, ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r achos teilwng hwn.

CAROLAU I ELUSEN. Fel y mae'n arferiad mae'r swyddogion wedi trefnu y bydd grŵp yn mynd o gwmpas yr ardal i ganu carolau nos Lun, Rhagfyr 20fed. Byddem yn falch o gael cantorion i ymuno o'r newydd â'r grŵp, felly dewch at y capel erbyn 5.00 ar y noson. Cafwyd cefnogaeth ariannol arbennig i'r gweithgaredd hwn yn y gorffennol. Diolchwn ymlaen llaw am eich cyfraniadau eleni eto. Bydd y casgliad yn mynd at apêl ddiweddar Cymorth Cristnogol.

OEDFAON RHAGFYR

5 Parch H. Gwynfa Roberts, Llanwnda am 5.30;

12 Parch John Owen, Bethesda am 5.30;

19: GWASANAETH NADOLIG dan nawdd yr Aelodau am 10.00.
Estynnwn groeso cynnes i bawb i ymuno yn y gwasanaeth a'r lluniaeth i ddilyn.

26: Dim Oedfa

Ysgol Brynrefail

Cyflwyniad Sylweddol

Yn ddiweddar, fe gofiwch i ni sôn am daith gerdded hynod lwyddiannus yr ysgol. Wel, ar ôl cyfri'r ceiniogau prin roedd yn bosib mynd at gwmni'r Abbey National gyda'r ffigwr terfynnol, sef £2,800. Fel cyfraniad at hyn, cyfrannodd yr Abbey £2,500 tuag at yr achos, gan roi cyfanswm felly o £5,300 i'r ysgol. Yn y llun, gwelir rhai o'n casglwyr mwyaf brwdfrydig yn derbyn siec oddi wrth ddwy o weithwyr y cwmni, sef Nia Williams ac Avril Jones. Diolch o waelod calon iddynt am eu haelioni.

Profiad Gwaith

Daeth y cyfle unwaith eto i Flwyddyn 11 fynd ar wythnos o brofiad gwaith i weithle o'u dewis. Bu'n gyfnod hynod lwyddiannus, gyda chyflogwyr diri yn datgan eu bodlonrwydd ynghylch agwedd, safon a brwdfrydedd disgyblion yr ysgol. Dyma ymateb rhai o'r disgyblion eu hunain:

Cefais wythnos yng Nghyngor Gwynedd. Bûm yn plastro ac yn gweithio'n galed iawn. Ces gyfle i ddod i adnabod llawer o wahanol bobl a dysgu sgiliau newydd.

Martin Davies

Fe ddaru i mi fwynhau fy mhrofiad gwaith yn arw. Mae wedi bod yn gymorth mawr i mi ddewis fy ngyrfa, a deall sut mae bywyd yn y byd gwaith go iawn.

Calvin Thomas

Es i DMM gyda David Thomas a Marc Bentham. Mi wneuthum i fwynhau gwneud offer dringo a cael profiad o weithio llawn amser.

Colin Hare

Es i ar brofiad gwaith i Gyngor Gwynedd gyda'r Adran Cynnal a Chadw er mwyn dysgu sut i blymio. Cefais gyfle i drwsio rheiddiadur, sinc a phibellau, ac fe wnes i fwynhau'r cyfle i weithio fel rhan o dîm.

Jason Cook

Roeddwn yn gweithio yn Menai Travel yng Nghaernarfon, a chefais werthu gwyliau i wahanol gwsmeriaid. Hefyd yn y llun fe welwch fod fy ffrind Kayleigh Thomas, hefyd o flwyddyn 11, wedi dod i'm gweld yn ystod ei hawr ginio, felly cefais gyfle i ddangos ein gwahanol gynigion iddi hi hefyd.

Emily Lewis

Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Dyma un o brif ddigwyddiadau calendr yr ysgol a'r gymuned ers blynyddoedd bellach, a braf, ar fore o Hydref oedd gweld neuadd orlawn gyda'r bwrlwm i'w weld a'i deimlo. Eleni, tro Eilian oedd cipio'r cwpan a'r fuddugoliaeth. Nid oes digon o ofod i ddathlu pob llwyddiant o bell ffordd, ond hyderir y bydd y lluniau hyn yn rhoi blas ar y cystadlu, y miri a'r brwdfrydedd di-gwestiwn sy'n rhan mor amlwg o blant yr ysgol hon.

Ein Hysgrifennwyr Brwd

Kayleigh Jones o Wyrfai ac Iwan Williams o Eilian.

Dyma Kayleigh Jones o Flwyddyn 11 ac o dŷ Gwyrfai ar y chwith, a enillodd brif wobr lenyddol yr Eisteddfod – y Gadair. Enillodd y wobr hon, a oedd ar gyfer disgyblion hŷn yr ysgol trwy ysgrifennu stori a'r un o'r canlynol: Cydwybod, Cywilydd, Celwydd neu Deffro. Dewisodd Kayleigh 'Deffro' fel testun. Isod cewch gyfle i fwynhau ffrwyth ei llafur.

DEFFRO

Duwch. Duwch di-ddiwedd a ... distawrwydd llethol. Mae'n unigrwydd yn annioddefol. Dydi amser ddim yn bodoli ar yr ynys unig yma ... Does dim yn bodoli yma.

Dwi'n gallu eu clywed nhw'n siarad o'm cwmpas i, cu lleisiau yn furmur melfedaidd yn llawn consýrn, ond, yn methu gwneud dim i'm helpu. Mae fy meddwl i wedi'i herwgipio, ei herwgipio a'i gloi mewn boes bychan filiynau o filltiroedd i ffwrdd.

Dwi ddim yn gwybod ers pryd dwi yma, mae amser yn sefyll yn llonydd. A dweud y gwir dwi'm yn gallu cofio pam dwi yma. Mae'r gorffennol dan haen o niwl trwchus.

Mae 'na rywun yn siarad efo fi rŵan. Llais cyfarwydd, sidanaidd. Llais Medi. Mae hi'n crio. Mae arna i eisiau ei tharo hi, cyn galeted â phosibl, ond, dwi ddim yn gwybod pam. Mae arogl ei phersawr yn cosi fy ffroenau 'Gucci Envy'. Mae'r arogl yn fygythiol. Mae 'na rywbeth yn bod yma... mae yna rywbeth mawr o'i le. Mae'n cuddio tu ôl i'r niwl.

Medi, Medi fy ffrind gorau. Dwi'n ei 'nabod hi ers dros ugain mlynedd bellach. Ers diwrnod cynta'r ysgol. Mae o mor glir yn fy meddwl...

Dwi'n cerdded lawr y stryd fawr. Mae'r haul yn wincio arnaf, ac mae mam yn codi llaw o'r drws ffrynt. Diwrnod cyntaf yn yr ysgol heddiw. Dwi erioed wedi bod mor nerfus a hapus ar yr un pryd. Mae fy esgidiau newydd yn gwichian fel llygod bach, â'r rhubanau amryliw yn siglo pob ochr i 'mhen i. Dwi'n sgipio. Dau funud, mae rhywun yn eistedd ar ei phen ei hun ar ben y stryd. Mae hi'n gwisgo siwmper las fel fi. Wrth i fi nesáu sylwaf ar ei gwallt hi'n donnau o gyrls euraidd yn dawnsio o amgylch ei hwyneb. Mae hi'n edrych arnaf. Mae hi'n crio. Mae'n syllu arnaf gyda'i dwy lygad fawr, babi doll. Dwy risial glasach na chopr sylffad yn llawn dagrau. Ar ei phen-glin mae pwll o waed coch. Mae hi 'di brifo.

'Ti'n iawn?'

Ysgydwodd y tonnau aur.

'Dwi, dwi 'di brifo.'

Rwy'n gafael yn ei braich a'i chodi ar ei thraed a chydgerdded â hi tuag at giatiau'r ysgol. Rwy'n treulio gweddill y bore gyda hi yn y 'stafell feddygol. Rydw i'n treulio gweddill y diwrnod wrth ei hochr hi.

Ers hynny mae Medi a minnau fel dwy chwaer, bob tro gyda'n gilydd. Bob tro yn rhannu popeth. Ond er i Medi fod yn ffrind i mi, yn ffrind gorau, roeddwn i ychydig yn genfigennus ohoni. Mae hi'n dlws, yn eithriadol o dlws. Llawer tlysach na fi. Mae hi'n hyderus hefyd, yn gwneud ffrindiau gyda phawb. 'Dwi, ar y llaw arall yn swil, ond roeddwn i'n llwyddo i gael marciau da yn yr ysgol, gwneud ambell ffrind, oeddwn mi roeddwn i'n llwyddo yn fy ffordd fy hun.

Ar ôl gadael yr ysgol aeth Medi a finna i goleg yn yr un dref. Fi i astudio meddyginiaeth, hi i astudio drama...

Mae hi'n dal i siarad gyda mi. Mae'n erfyn arna i, mae hi'n ymddiheuro. Ymddiheuro? Am be?

Mae 'na rywun arall yn siarad efo fi rŵan. Llais dwfn, yn llawn cariad.

Rhydian. Rwy'n caru Rhydian a'm holl galon... Ydw i? Mae 'na rywbeth yng nghefn fy nghof yn sgrechian na, na, na.

Doedd yna ddim byd yn arbennig am Rhydian pan gwrddais ag ef gyntaf ym mharti un ar hugain Medi. Jac y Jwc o hogyn, yn bell dros chwe throedfedd o daldra. Gwallt tywyll blêr yn mynnu sefyll i fyny'n syth yn y mannau anghywir, ond roedd ei lygaid tywyll yn llenwi gyda direidi.

Roeddwn i ar goll mewn

cariad, ac yn rhyfeddol, roedd o yn fy ngharu innau. Roedd o wedi sylwi arna i yn cuddio tu ôl i gysgod Medi. Roedd o wedi penderfynu fy mod i yn dlysach na hi, fy mod i yn haeddu cael fy ngharu. Am unwaith roedd Medi, fy ffrind gorau dan fy nghysgod i.

Roedd y ddwy ohonom ni mor agos, ond eto mor wahanol. Graddiais i o'r coleg, doedd Medi ddim mor lwcus. Cefais i swydd yn un o brif ysbytai Caerdydd. Cafodd Medi swydd llawn amser yn Tesco, ond, roedd hi'n hapus drosta i, doedd dim cenfigen yn perthyn iddi fel fi. Roeddwn i mor hapus, mor llwyddiannus. Roeddwn i, o'r diwedd, wedi profi fy mod i cystal, na, gwell na Medi. Felly pam? Pam mai fi, sydd wedi fy nghaethiwo yn y carchar oer, di-obaith yma yn erbyn fy ewyllys?

Mae Medi a Rhydian wedi mynd. Mae'r distawrwydd yn ôl. 'Dwi'n anhapus. Mae'r duwch yn fy nychryn. Dwi eisiau crio, ond does yna ddim dagrau. Dwi eisiau sgrechian ond does yna ddim sŵn. Does yna ddim byd. Mae fy nghorff i wedi rhewi.

Mae'r niwl o flaen fy llygaid i'n fy mhoeni. Mae'n cuddio rhywbeth pwysig, rhywbeth poenus. Dwi'n trio cofio, ond yn methu. Mae yna rywbeth mawr ar goll.

Dwi'n colli Rhydian. Colli edrych i'w lygaid tywyll o a theimlo'n hapus a chynnes. Colli'r direidi.

Mae yna rywbeth trwm ar fy llaw i, yn gwasgu fy mys i. Modrwy. Pam ci bod hi mor drwm? Pam fy mod eisiau ei thynnu hi i ffwrdd a'i lluchio mor bell â phosib?

Dwi'n cofio'r noson y rhoddodd Rhydian y fodrwy i mi. Fe addawodd o fy ngharu am byth, fe addawodd o'r byd i mi, fe addawodd o na fyddai byth yn fy ngadael i. Fe edrychodd yn ddwfn i'm llygaid ac fe addawodd fod yn ffyddlon i mi.

Ffyddlon? Mae yna rywbeth yn bod gyda'r gair yna. Ddylai o ddim ci ddefnyddio.

Mae arogl y 'Gucci Envy' yn ôl. Mae Medi yn ôl. Mae llais Rhydian yn crynu.

'Maddeua i mi, plis, maddeua i mi.'

Maddau? Ffyddlon? 'Gucci Envy?' Mae'r niwl yn teneuo, dwi yn dechrau cofio.

* * *

'Dwi'n gweithio shifft ddwbl heno.' Dyna be ddywedais i wrth Rhydian.

Fydda i ddim adra' tan ar d' ôl di heno, sori. Fedri di gweio 'wbath i de?'

'Medraf siŵr, paid â phoeni amdana i, mi wna i rywbeth i de i chdithau hefyd.'

Chwarae teg iddo. Dydi Rhydian ddim yn gallu coginio i achub ei fywyd. Heno, mae'n saith mlynedd ers i ni gyfarfod gyntaf. Felly dwi'n dod adref o'r ysbyty yn fuan, i wisgo'n ddeniadol yna mynd a Rhydian allan am bryd o fwyd i'r dref.

Mae'r ffrog brynais i ddydd Sadwrn yn gorwedd ar sedd gefn y car. Mae'r sidan yn disgleirio fel cannoedd o emau gwerthfawr yn taflu gwreichion o olau dros do'r car, wrth i'r haul dywynnu arno. Mae'n noson hynod o braf. Mae'r awyr wedi bod yn gynfas i arlunydd brwdfrydig, sydd wedi ei baentio yn fflachiadau o goch, oren, melyn a phinc. Mae'r coed yn dechrau colli eu dail brown goch ac mae heidiau o blant ifanc yn chwarae yn y gerddi.

Wrth i mi barcio'r car ar y lôn tu allan i'r tŷ 'dwi ddim yn sylwi ar y car yr ochr arall i'r ffordd. Wrth i mi gerdded i fyny'r llwybr tuag at y tŷ nid wyf yn sylweddoli fy mod yn cerdded i lawr tuag at uffern. Dwi'n cerdded ar hyd y cyntedd ac yn sylwi ar rywbeth newydd, arogl newydd. Persawr cryf. Persawr dynes 'Gucci Envy'. Nid fy mhersawr i. Dwi'n clywed sŵn traed uwch fy mhen. Mor dawel â chath fach rwy'n sleifio i fyny'r grisiau. Dwi'n troedio pob gris yn ysgafn fel pluen o eira, a'm calon i'n llamu, fy nwylo i'n crynu. 'Dwi'n yn clywed lleisiau, chwerthin. Llais merch. Llais sidanaidd. Mae golau gwan dan ddrws fy llofft i. Mae arogl y persawr yn gryfach nawr. Dwi'n llamu am y drws a'i luchio'n agored a gweld Medi, fy ffrind gorau, a Rhydian, fy nghariad, ym mreichiau ei gilydd.

Mae'r aer yn oer ond mae 'ngwaed i'n berwi. Mae 'nghalon i wedi ei rhewi ac mae fy myd i ar ben, does dim ar ôl, dim ond gwagle. Gwagle diddiwedd.

'Dwi'n troi a rhedeg, mae fy llygaid wedi eu dallu gan ddagrau, y boen yn fy ngwasgu i yn ddarnau. 'Dwi'n rhedeg lawr y grisiau, allan drwy'r drws ffrynt, dwi'n crafangu am aer. 'Dwi'm yn aros i feddwl wrth i mi redeg i'r lôn. Mae dwy afon o ddagrau chwilboeth yn llosgi wrth iddynt lifo lawr fy mocha i. 'Dwi ddim yn clywed y car. 'Dwi ddim yn gweld y car. Ond, 'dwi yn teimlo'r car. Fflach goch. Sgrech syfrdanol y brêcs. Yna oerni. Distawrwydd. Duwch.

* * *

'Dwi'n cofio. Cofio brad y ddau ohonynt. Oedd, mi oedd cenfigen yn perthyn i Medi. Fe ddarganfu ffordd i'm brifo i, i ddinistrio a dymchwel fy mywyd perffaith i. Ond mi fydd brad y ddau ohonynt ar eu cydwybod am byth.

Mae'r gwir yn fy nallu, yn agor fy llygaid i, yn fy ncffro i. Edrychaf ar eu hwynebau, Medi, fy ffrind gorau. Rhydian, fy nghariad. O, mi fydd yna ddial.

* * *

Iwan Williams (llun gyferbyn) o flwyddyn 9 o dŷ Eilian a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth Tlws yr Ifanc. Ysgrifennodd Iwan stori gyda'r testun 'Y Ffôn' a gobeithiwn ei chyhoeddi yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Parti Bechgyn Eryri yn roco rownd y cloc!

Capteiniaid Gwyrfai.

Arweinwyr Eilian.

Genethod y Ddawns Flodau o Ysgol Gynradd Llanrug.

Arweinwyr Elidir.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS.
Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

DYMUNWN wellhad buan i Mrs Ann Clarke wedi iddi fod mewn damwain car yn ddiweddar.

GENEDIGAETHAU.
Llongyfarchiadau i Valmai a Paul, Rhoslwyn ar enedigaeth mab bychan, Iwan Ynyr, brawd bach i Sion Tudur, ail ŵyr i Mrs Mair Williams, Cefn Coed, a gor-ŵyr i Mrs Mary Evans, Tref Eilian.
Llongyfarchiadau hefyd i Christina ac Arnold Roberts, 10 Bryn Golau ar enedigaeth wyres fach, Georgina Louise, merch fach i Valerie a Christian. Mae Mr a Mrs Robin Roberts, 11 Bryn Golau yn hen daid a nain i'r fechan.
Anfonwn ein cofion at Mr Robin Roberts sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri.

DATHLU PEN-BLWYDD.
Dymunwn y gorau i Ieuan Owen, Stad Croesywaun ar gyrraedd ei ddeunaw oed. Pob hwyl iti yn y dyfodol, Ieuan.

SWYDD NEWYDD.
Llongyfarchiadau i Kirsty Jones, Cynefin ar gael ei phenodi yn Chwaer (Ward Sister) mewn ysbyty yn Northampton.

PRIODASAU. Dydd Sadwrn, 20 Tachwedd, yn Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, Sir Benfro, priodwyd Sarah Grindley, Fairfield â Christopher Bird. Dymunwn yn dda i'r pâr ifanc.
Dymunwn yn dda hefyd i Bethan Williams, Fferm Bodhyfryd ar ei phriodas â Siôn. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref yn Hen Golwyn.

YMDDEOLIADAU. Dymunwn ymddeoliad hapus i Mr John Ellis, Ty'n Llidiart, o'i swydd rheolwr yn Siop Stermat yng Nghaernarfon.

Bydd llawer ohonom yn y pentref yn colli cael ein wyau ar stepan y drws bob dydd Gwener o'r wythnos hon ymlaen, gan fod Sion, Penrhos, wedi penderfynu, ar ôl blynyddoedd maith o ofalu amdanom, ymddeol. Diolch yn fawr iti, Sion, a gobeithio y bydd y driniaeth laser yn esmwytho ac yn gwella dy lygaid.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Trefor Beech, Bronallt, wedi iddo dderbyn clun newydd yn Ysbyty Gobowen.
Dymunwn wellhad hefyd i Eurwyn Griffith, Trefeddyg, wedi iddo dderbyn triniaeth i'w lygaid yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithiwn hefyd y bydd Huw, Trefeddyg, yn gwella wedi iddo gael anaf i'w droed tra'n chwarae tenis yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLYN yn ddwys â Eleri Anderson a'r teulu, 3 Stad Glynafon, yn ei phrofedigaeth o golli mam Eleri, o Carmel.
Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mr Bryn Jones, Goleufryn, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei tam yn ddiweddar. Mrs L. Jones, a oedd yn 95 mlwydd oed, ac yn un o drigolion hynaf y pentref.

DIOLCH A DYMUNO'N DDA.
Dyma fi, Katie Roberts, Tref Eilian, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'm cyfeillion a'm teulu y flwyddyn hon. Ni allaf fynd a'r tŷ i brynu anrhegion na chardiau.
Diolch i bawb am gofio amdanaf tra bûm yn yr ysbyty ac yng Nghartref Panisarwaun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a dechrau'r flwyddyn hon. Cofion cynnes at bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED.
Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Festri Eglwys y Waun, bnawn Iau, 4 Tachwedd. Darllenwyd adroddiad o'r cyfarfod o Grŵp Eifionydd a gynhaliwyd ym Mhentrefelin pryd yr enillodd Hilda Wiliams ysgoloriaeth i fynd ar gwrs i Goleg Denman a llongyfachwyd hi gan Catherine Jones, y Llywydd. Croesawyd Mrs Pat Parry i'r cyfarfod fel Cynghorydd Sefydliad y Merched i oruchwylio'r gwaith o ethol y pwyllgor newydd. Etholwyd fel a ganlyn: Llywydd: Mrs Catherine Jones; Is-lywydd: Mrs Hilda Williams; Ysgrifennydd: Mrs Anne V. Williams; Is-ysgrifennydd: Mrs Pat Parry; Trysorydd: Mrs Wenna Edwards; Is-drysorydd: Mrs Mair Parry; Ysgrifennydd Rhaglen: Mrs Catherine Jones; Clwb Cynilo: Mrs Nancy Buckley; Lluniaeth a Raffl: Mrs Iris Evans; Gohebydd i'r Wasg: Mrs Mair W. Williams.

Diolchodd y Llywydd i Mrs Pat Parry am ei gwaith. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Alice Johnston, gan Mrs Nancy Buckley.

TAITH GERDDED NODDEDIG.
Dymuna Nia Griffith, Dolydd, ddiolch yn fawr iawn i bawb a gerddodd ac a'i noddodd i wneud y daith gerdded ar hyd Lôn Eilian yn ddiweddar. Codwyd swm o £624 i Dŷ Enfys (llety i rieni aros yn Ysbyty Gwynedd tra mae eu plant yn yr ysbyty). Gyda'r arian fe brynwyd 5 teledu/fidio, clociau radio a llawer o fidios. Cyflwynwyd nhw i Dŷ Enfys yn ddiweddar.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.
Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Lun, 8 Tachwedd, pryd y cafwyd sgwrs ddiddorol a hwyliog y 'Tri John' gan Rol Williams. Diolchwyd iddo gan Gwilym Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 13 Rhagfyr, pryd y ceir sgwrs gan Y Parch Huw Gwynfa Roberts ar 'Hen Boteli'.

CÔR Y WAUN. Bu'r Côr yn cadw cyngerdd i gymdeithas Capel Nasareth ym Mhenrhyndeudraeth ar nos Iau, 4 Tachwedd. Gwynn Davies oedd yn cyflwyno gyda'i ffraethineb arferol, a chafwyd noson gartrefol iawn gyda chroeso'n ôl i'w hen gynefin, fel 'tae, i Ann Pritchard, ein cyfeilyddes.

Mae'n brysur fynd yn dymor Carolau a gobeithiwn gael cyfle i ganu mewn un neu ddau o Gartrefi Henoed cyn y Nadolig. Fel arall byddwn yn cymryd rhan gyda phlant yr ysgol mewn cyngerdd ar nos Fercher, 15 Rhagfyr, gyda'r enw at Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau.

Ar adeg sgwennu hwn mae Ann Pritchard yn sâl ac Eurwyn Griffiths yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth ar ei lygaid – dymunwn adferiad iechyd buan i'r ddau. Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r Côr, cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (01286) 650126.

YSGOL WAUNFAWR.
Diolch i bawb a ymunodd â ni yn ein gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Groes-y-Waun fore dydd Gwener, 21 Hydref. Rydym yn gwerthfawrogi cael cynulleidfa.
Croeso arbennig i Miss Lowri Morris o Ddeiniolen i'n plith. Bydd yn gwneud ei hymarfer dysgu ym mlwyddyn 3 am *ddyfnod o saith wythnos. Dymunwn pob* llwyddiant iddi.
Bu'n tis prysur. Aeth Bl.5 a 6 draw i Ysgol Syr Hugh Owen fore dydd Mawrth, 2 Tachwedd, i weld nifer o enwogion y byd pop Cymraeg yn perfformio. Yn ôl pob son, Elin Fflur a Delan Elfryn, y drymiwr o Wauntfawr, oedd y ffefrynnau.
Daeth Mrs Pragnell, y nyrs ddeintyddol, atom y diwrnod hwnnw hefyd gan addysgu plant derbyn i flwyddyn 6 sut i ofalu am eu dannedd.
Cynhaliwyd Gwasanaeth y Cadoediad yn neuadd yr ysgol fore Iau, 11 Tachwedd. Plant Bl.6 oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth eleni gyda phlant yr Adran Iau yn cynorthwyo gyda'r canu. Gosodwyd y dorch ar y gofeb gan y ddau ddisgybl hynaf, sef Tomos Parry a Keeley Griffith. Diolch i'r rhieni a phawb o'r pentref a ymunodd gyda ni.
Treuliodd Bl.6 bnawn yn Ysgol Syr Hugh Owen ddydd Llun, 15 Tachwedd. Mwynhaodd yr 14 disgybl eu hunain yn fawr iawn. Byddant yn ymweld ag Ysgol Brynrefail yn Nhymor y Gwanwyn.
Bu'n ddiwrnod o hwyl yn yr ysgol ddydd Iau, 19 Tachwedd. Roedd plant yr Adran Iau wedi bod yn brysur yn coginio cacennau a bisgedi i'w gwerthu. Roedd yn werth gweld y plant yn eu gwisgoedd ffansi, a chawsant hwythau bleser mawr o weld yr athrawon yn edrych yn wahanol iawn i'r arfer! Casglwyd £300 tuag at Apêl Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am ymuno yn yr hwyl.

Yn y llun mae Nia, Rhian, Dafydd, Aled, Iwan, Lois, Gwenan a Catrin yn cyflwyno y rhoddion i Val Maud a Gwenda Such, Tŷ Enfys.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites.*
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.*
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

GEFEILLIO

Roedd dydd Sadwrn 23 Hydref yn ddiwrnod hanesyddol ym mhentref Llanber – er i'r achlysur dan sylw ddigwydd gannoedd o filltiroedd i ffwrdd, yng nghalon mynyddoedd yr Alpau yng ngogledd yr Eidal. Ar ddiwrnod hyfryd o Hydref yn sgwâr Marconi yn Ninas Morbegno cynhaliwyd yr ail seremoni i selio y berthynas rhwng y ddwy ardal.

Croesawyd y gynrychiolaeth o Lanberis gan faer y dref, Dr Giacomo Ciapponi, a soniodd am gefndir y ddwy gymuned a bod hanes i'r digwyddiad gan fod rhedwyr o'r dref wedi cystadlu yn flynyddol yn Ras yr Wyddfa ers 1980.

Arwyddwyd y siarter gan Mr Fred Owen, ar ran Cyngor Cymuned Llanberis, a diolchodd i aelodau cyngor tref Morbegno ac i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Ychwanegodd y Cynghorydd Charles Jones, Cadeirydd Cyngor Gwynedd, ei bod yn fraint ganddo fod yn bresennol ar achlysur mor bwysig yn hanes Llanberis. Soniodd hefyd am gysylltiad arbennig Marconi ag ardal Bro yr Eco, gan fod y seremoni yn cael ei chynnal yn sgwâr y dref a oedd wedi ei henwi ar ôl y dyn ei hun. Wedi sawl araith arall (yn cynnwys araith Ken Jones mewn Eidaleg!), chwaraewyd y ddwy anthem genedlaethol. Roedd clywed 'Hen Wlad fy Nhadau' yn adleisio drwy'r strydoedd yn wefr ryfeddol, a sylweddoli fod cannoedd o bobl Morbegno yn bresennol yn y seremoni yn brawf o'u brwdfrydedd.

Yn union wedi'r seremoni gosodwyd arwyddion i nodi gefeillio y ddwy ardal ger y ddwy brif fynedfa i dref Morbegno. Wedi cyfeillgarwch sydd wedi parhau am dros ugain mlynedd, gwireddwyd breuddwyd Ken Jones, Llanberis, a Gianpietro Botta, Morbegno, gefeillwyd y ddwy dref. Y gobaith yw y bydd llawer mwy o bobl Llanberis yn manteisio ar y cyswllt ac yn ymweld â'r dref hynod hon wrth droed yr Alpau.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS. Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

DYMUNA'r Cynghorydd Trevor O. Edwards Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Llanberis a Nant Peris, a diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

DYMUNA 'Ffrindiau Eglwys St Peris' ddiolch o galon i bawb a ddaeth i gefnogi eu Ffair Nadolig yn ddiweddar. Cafwyd cefnogaeth hynod. Diolch yn fawr iawn.

DRAMA'R NADOLIG. Cynhelir y ddrama 'Pwy Sydd Wedi Dwyn y Nadolig?' yn Eglwys St Peris ar nos Sul, 12 Rhagfyr am 7 o'r gloch yr hwyr. Dewch yn llu.

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:

- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626
neu 01341 422575
ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com
Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271

TAFARN BRYNGWNA
Caeathro

Croeso mawr i bawb i'r
'Bryngwna'
yng nghanol pentref Caeathro,
lle ceir bwyd cartref ac
amrywiaeth o ddiodydd
traddodiadol, i gyd mewn
awyrgylch cartrefol mewn tafarn
bentref, yng nghwmni Gareth
a Steffan Bowen, y tafarnwyr
newydd.

Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael

Ffoniwch (01286) 674568
i gadw bwrdd neu archebu
ymlaen llaw

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
FFONIWCH
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
Eifion Hughes (7 diwrnod)
Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partion, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
(01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

CYFARCHION NADOLIG DEINIOLEN

DRAENOG

Gŵr o'r ardal wedi cael apwyntiad i weld ei feddyg yn Llanberis. Cyrhaeddodd yno ddiwrnod o flaen ei amser! Soniodd am ei gamgymeriad wrth ei feddyg rhag ofn fod yna arwyddocad meddygol i'r holl beth. Esboniodd y meddyg y gallai dau beth fod yn gyfrifol – blinder meddyliol a blinder corfforol.

'Deudwch i mi,' meddai'r meddyg, 'ydi HUWcyn Cwsg yn gafael yn sownd ynddo chi weithia, neu a ydach chi'n un am ddawnsio ROC AND ROLL yn hwyr yn y nos?'



TYMOR Y NADOLIG. Bydd y Band a'r Ieuenctid yn brysur iawn yn ystod mis Rhagfyr. Mae cyngerdd yn Eglwys Llandinorwig; Canolfan Dinorwig; Mynydd Gwefru Llanberis; Yr Awyrlu, Fali; ac Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen, ynghyd â Charolau yn Tesco Bangor a phacio bagiau yn Safeway, Caernarfon.

Gawn ni fel pwyllgor y Band gymryd y cyfle yma i ddiolch i rieni yr ieuenctid o'r pedair adran sydd yn y Band am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn, a hefyd i'r ardal ac oddi allan. Heb y gefnogaeth ni fuasai llwyddiant.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

CYFARCHION Y TYMOR A'R DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD

oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

Bar Swper Arfonia

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

KAREN, MALCOLM a staff y

WELLINGTON INN

Deiniolen

Ffôn (01286) 870227

CWRW BLASUS CHWERW AR EI ORAU

Dymuna **DAFYDD** a staff

Y TARW (Bull Inn)

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth pawb yng

TICEDI LOTERI!

Nghorsaf Betrol

01286 871 521

BERAN

Ar agor 7a.m - 9p.m. bob diwrnod

Petrol . Diesel . Nwy Calor. Glo . Wyau

Cylchgronnau . Papurau Newydd . Cardiau

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

oddi wrth bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Mrs Clara Roberts, Bwlchuchaf, ddiolch yn gynnes i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei salwch diweddar, tra bu yn Ysbyty Glan Clwyd ac yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i bawb.

DYMUNA Robert Evans, 12 Hafod Olau (Robin Scotch) ddiolch o galon i Bet a'i deulu, cymdogion a chyfeillion am yr holl alwadau ffôn, cardiau ac arian a dderbyniodd tra yn cael trinieth yn Ysbyty Glan Clwyd.

Diolch hefyd i feddygon Llanberis, Ysbyty Llandudno a holl feddygon, nyrsus a staff Ward Enfys, Ysbyty Glan Clwyd.

CYNHELIR noson ddifyr gyda'r Band a'r Ieuenctid yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Fercher, 15 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch. Dewch yn llu i fwynhau Gŵyl y Nadolig. Mynediad £2. Plant am ddim.

Bydd elw'r noson yn mynd i'r Apêl Ariannol Lleol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 2005.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS. Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU 2005. Mewn cyfarfod o Bwyllgor Cronfa Leol yr Eisteddfod penderfynwyd anfon llythyr i bob tŷ o fewn dalgylch Deiniolen a Chlwt y Bont, i ofyn yn garedig am gyfraniad ariannol tuag at y Gronfa Genedlaethol.

Bydd aelodau'r pwyllgor lleol yn dosbarthu'r llythyrau yn ystod yr wythnosau nesaf, ac yna yn galw yn ôl i gasglu'r arian.

Mae croeso hefyd i unrhyw berson o Ddeiniolen a Chlwt y Bont, neu rai o'r pentrefwyr sydd wedi symud o'r ardal ac yn dymuno cyfrannu yn lleol yma, anfon eu rhoddion i'r Drysoryddes:

Ann Lloyd, 10 Rhes Victoria, Deiniolen, LL55 3LT.

EISTEDDDFOD GWAUN GYNFI. Oherwydd y glaw trwm a gafwyd bu'n rhaid gohirio'r Eisteddfod oedd i'w chynnal ddydd Sadwrn, 23 Hydref. Fe'i cynhelir yn awr ar 5 Chwefror 2006.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y Gymeithas ar 27 Medi yn Nhŷ Elidir. Cawsom gwmni Edward a Gwyneth Morus-Jones o Landegfan. Diddorol iawn oedd gwrando ar Edward yn sôn am ei ddyddiau cynnar ym Meirionnydd, ac yn canu rhai o'i hoff ganeuon, a'r gynulleidfa yn ymuno. Bu Gwyneth yn darllen rhai o gerddi ei hoff feirdd. Cafwyd noson hwyliog a difyr. Y Llywydd oedd y Parchedig John Pritchard.

Yng nghyfarfod Hydref, cawsom gwmni dau arall, sef Jenkin a Glenys Griffith o Fethel. Rhoddodd Glenys dipyn o gefndir rhai alawon gwerin a chanodd y ddau amryw ohonynt yn swynol dros ben. Cawsom gwis i brofi ein gwybodaeth o rai hen alawon. Diolchwyd gan Mrs Jane Thorman Jones, yr ysgrifenyddes.

Ar 22 Tachwedd, cynhaliwyd y trydydd cyfarfod o dan lywyddiaeth y Parch John Pritchard. Ein gŵr gwadd oedd y Parch Marcus Robinson, Bethel, a chafwyd sgwrs ddifyr ganddo am ei waith fel Caplan ar y môr, ac mewn ffatri. Clywsom am rai o'i amrywiol brofiadau ar hyd a lled y byd a hynny yn ei ddull hwyliog ei hun.

Anfonwyd ein cofion at ein hysgrifenyddes, Mrs Jane Thorman Jones, gan ddymuno gwellhad buan iddi.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod ar 15 Tachwedd yn Nhŷ Elidir. Ein gŵr gwadd oedd Mr Keith Jones, Rhiw Goch. Mae'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ardal Beddgelert a difyr iawn oedd cael hanes y gwaith a wneir yno, trwy gyfrwng darluniau ardderchog o'r tirwedd a thrwy esboniad ar y gwaith. Diolchwyd yn gynnes iddo gan y Llywydd, Marian Williams.

YR YSGOL SUL UNDEBOL. Fore Sul, 19 Rhagfyr, cynhelir cyfarfod Nadolig y plant yn Festri Ebeneser am 10.00 o'r gloch. Bydd plant yr Ysgol Sul i gyd yn cymryd rhan. Am 5.00 o'r gloch byddwn yn ymuno â'r gynulleidfa yn Eglwys Crist, Llandinorwig, lle cynhelir gwasanaeth CRISTINGL.

Croeso cynnes i bawb.

Fore Sul, 21 Tachwedd, daeth 50 o blant i Festri Capel Ebeneser a chafwyd bore hyfryd o ganu, cwis a chyfnod o ddeng munud o ddarllen distaw noddedig. Roedd pob plentyn ac oedolyn yn darllen unai llyfrau crefyddol neu Feibl. I orffen y bediwn mwynhawyd diod a bisgedi. Dymunir diolch i bawb a dreinodd, a gefnogodd ac a noddodd y weithgaredd hon, gan sicrhau cronfa lewyrchus eto ar gyfer y flwyddyn nesaf.

PEN-BLWYDD. Dymuna Peri Evans, 5 Hafod Olau, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd ym mis Hydref.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Iorwerth a Peri, 5 Hafod Olau, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a ffrindiau ym mro Eco'r Wyddfa.

DYMUNA Pricilla Williams, Wylfa, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion gwerthfawr a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch hefyd am yr holl alwadau ffôn.

ER COF am ben-blwydd ar ddydd Nadolig ddwy efaill annwyl, Mrs Nellie Hughes, 4 Gwyrfai Terrace, Clwt-y-bont a Mrs Gracie Thomas, 24 Cae Garreg, Caernarfon. Dwy fam, dwy nain a dwy hen nain gariadus a charedig iawn, a dwy chwaer arbennig.

Mewn hiraeth – eu plant, wyrion, wyresau, gor-wyrion a wyresau a'u chwaer.

Cadair wag sydd ar ddwy aelwyd
Lleisiau garem sydd yn fud,
Gweld eu heisiau ydym beunydd
Colli wnaethom drysor drud.

Byth yn angof.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS. Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

MAROLWAETH. Bu farw Mrs 'Lilly' Jones, Goleufryn, ar 11 Tachwedd yn Ysbyty Gwynedd yn 95 oed. Cydymdeimlwn â'i mab, Bryn.

CYNGERDD EISTEDDFOD. Er mwyn cyfrannu at Apêl Waunfawr a Chaeathro tuag at Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005, bydd cyngerdd hefo Côr Ysgol Waunfawr ar 15 Rhagfyr. Bydd manylion llawn ar gael maes o law.

PEN-BLWYDDI O BWYS. Llongyfarchiadau i Donna Roberts, Erw Wen, ar ei phen-blwydd yn 18 oed yn gynharach y mis hwn. Hefyd llongyfarchiadau i John Jones, Llety'r Wennol, fydd yn 60 oed cyn y Nadolig.

MARWOLAETH DRIST. Ar ddechrau mis Tachwedd, mewn damwain car ar Ynys Môn, bu farw Helen Ogan, gynt o dai Bryn y Gof.

TYNFA MISOL. Enillwyr tynfa misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Tachwedd oedd:
£40: (63) Einir Roberts, 3 Erw Wen;
£25: (04) Michael a Dawn Owen, Rhyddallt Ganol; £15: (02) Olga a Peter Evison, Cae Hopcyn; £5: (113) Dennis Ratcliffe, Tyddyn Cae.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Dyma wasanaethau'r capel am fis Rhagfyr:

5 11.00: Ysgol Sul.
2.00: Parch Harri Parri.
12 11.00: Ysgol Sul.
19 11.00: Ysgol Sul.
5.30: Gwasanaeth Nadolig efo plant yr Ysgol Sul.
26: Dim gwasanaethau.

CROESO. Mae Rhian, merch Steffan Bowen a chwaer Gareth, wedi teithio o Ganada i ymuno â theulu Tafarn Bryngwna.

ADRA O'R YSBYTY. Mae Mai Jones, Crud yr Awel, Rhosbach, adra unwaith eto ar ôl cyfnod yn yr ysbyty ac yn gwella o ddydd i ddydd.

CROESO i Dennis Ratcliffe, tad Jayne Lloyd, sydd wedi symud i fyw yn Nhyddyn Cae.

SYMUD CARTREF. Oherwydd rhesymau personol mae Mary Owen, 10 Bryn y Gof, wedi symud i Gartref Penmon, Llanfaes, Ynys Môn.

YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Doris Muhlenfeld, sy'n gwella yn yr ysbyty.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Wendy Davies, Plas Glanrafon, ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

NADOLIG YNG NGHAEATHRO. Crynodeb o'r digwyddiadau Nadolig yma yng Nghaeathro:
Gwener, 10: Cinio Nadolig Clwb y Merched, yn Penrhos;
Iau, 16 am 6.00 yh: Ffair Nadolig, Canolfan y Capel;
Sul, 19 am 5.30 yh: Gwasanaeth Nadolig y Capel;
Mawrth, 21 am 5.30 yh: Parti Nadolig plant cynradd ac iau;
Mercher, 22 am 6.30 yh: Carolau a Chawl o dan y Goeden Nadolig efo Seindorf Llanrug:
Sadwrn 25: DIWRNOD NADOLIG

* * *

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yng Nghaeathro, a chyfeillion a phlant alltud.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Tryliwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava
MOT
website: www.a-v-w.co.uk
Shell HELIX
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Garb. neu Ghwistrelliad
Bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car
AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH

Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778 127394

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS.
Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

YSGOL GYMUNED.
Llongyfarchiadau i Carwyn Fôn Jones ac Elliw Griffith am ennill gwobr yng nghystadleuaeth Gwasanaethau Masnachol. Cafodd Dion a Siôn Maxwell y wobr gyntaf o £10 am gasglu arian noddi tuag at Ysgol Gwaun Gynfi. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Cafwyd ymweliad i'r Ysgol gan Paula Owen, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd. Mwynhaodd y plant y profiad yn fawr a chawyd taflenni a gweithgareddau addas i ddilyn ei hymweliad.

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn Theatr Seilo ar 3 Tachwedd yn recordio cân ar gyfer Cryno Ddisg Radio Ceredigion. Mae elw'r gryno ddisg yn mynd tuag at Gyngor yr Henoed. Cyfrannodd y disgyblion a gymerodd ran nwyddau at hamper i'w ddosbarthu gan Gyngor yr Henoed i gymunedau Gwynedd. Diolch i Mrs E. Humphreys am eu dysgu ac am gofio dod â'r CD cywir gyda hi i Seilo!!!

Roedd pawb yn wên o glust i glust ar 8 Tachwedd pan ddaeth Gwynant Parry i'r ysgol i dynnu lluniau'r disgyblion.

Dydd Gwener, 19 Tachwedd, roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen. Roedd cyfle i'r disgyblion ddod i'r ysgol gan dalu dirwy o £1. Os bydd y tywydd yn caniatáu rydym yn bwriadu mynd o amgylch y pentref i godi arian tuag at yr elusen. Bydd lluniau yn y rhifyn nesaf.

Pob nos Fercher cynhelir Campau'r Ddraig rhwng 3.15 a 4.00 o'r gloch. Mae oddeutu 25 o ddisgyblion yn cymryd rhan a'r tymor yma rhoddwyd sylw i Rygbi.

Mae'r ysgol hefyd wedi ymrwymo i gynllun ysgolion Gwyrdd, rydym yng nghanol datblygu gardd naturiol yn yr ysgol yn ogystal ac edrych ar ddulliau o wella'r amgylchedd, arbed ynni ac ailgylchu o fewn yr ysgol a'r gymuned.

Cafwyd noswaith arbennig o dda ar 12 Tachwedd yn Eisteddfod Gymuned y pentref. Fel ysgol rydym yn llongyfarch yr holl ddisgyblion a'r oedolion a gymerodd ran yn y noswaith lwyddiannus. Ar ddeall bod sialens yn wynebu Toni ac Aloma gan 'Spice Girls' y pentre!

Digwyddiadau am weddill y tymor:
Cynhelir Ffair Nadolig yr ysgol ar **25 Tachwedd**. Cofiwch ddod yn llu, bydd digon o anrhegion Nadolig o'w prynu. Yn ogystal bydd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn paratoi gemau ar gyfer y noson.
Cynhelir Sioe Nadolig ar nosweithiau'r **8fed** a'r **9fed** o **Ragfyr** am 6.00 yr hwyr. Hefyd cynhelir cyngerdd i Henoed y pentref brynhawn Mercher, yr **8fed.** Bydd cyfle i gael paned a mins pei ar ôl y sioe.
Ar **15 Rhagfyr** bydd disgo i ddisgyblion yr ysgol am 6 yr hwyr.
Ymgyrch Nadolig y Plentyn. Bu disgyblion yn brysur yn paratoi bocsys esgidiau ar gyfer diwrnod 'Operation Christmas Child'. Casglwyd oddeutu 40 o foscys esgidiau a fydd o fudd i blant llai ffodus na ni. Cychwynnodd y bocsys ar eu taith ar 16 Tachwedd.

CRONFA'R PENSIYNWYR.
Diolchir i bawb a gefnogodd y Ffair Nadolig ar 19 Tachwedd. Enillydd y Bêl Bonws Loteri mis Hydref oedd Mrs Mathews, Freshwinds. Bydd penisynwyr y pentref yn mynd i Landudno dydd Sadwrn, 11 Rhagfyr, i gael Cinio Nadolig yng Ngwesty'r Clarence ac yna i weld Pantomeim Sinderela i Theatr Gogledd Cymru. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i bob gweithgaredd drwy'r flwyddyn gan sicrhau gallu cynnal y trip. Parheir i werthu'r Bêl Bonws Loteri bob mis yn 2005.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â Janice Jones, Perthi, a'r teulu oll o golli nain a hen nain annwyl iawn sef, Mrs Mary Kate Hughes o Rostryfan.

Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf hefyd â Betty, Len, Llifon a Lona a'u teuluoedd yn eu colled fawr o golli mam, nain , hen nain a hen, hen nain, sef Mrs Katie Williams, 8 Llys y Gwynt, gynt. Melys yr atgofion i nifer fawr yn y pentref o'r hwyl a gafwyd yn yr Eisteddfod Bentref ac Eisteddfodau Ffug yr Eco – roedd Mrs Williams yn un i'w hedmygu gyda'i hadrodd a'i chanu disgybledig yn yr Eisteddfod Bentref a'r actio a'r caneuon actol a hyd yn oed y dawnsio hwyliog yn y Ffug Eisteddfodau.

PENBLWYDDI ARBENNIG.
Llongyfarchiadau i Mathew Philips ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed. Pob bendith i ti i'r dyfodol, Mathew. Dymuna Mathew ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mrs Jennie Williams, Cae Corniog ar gyrraedd yr oedran teg o 90 oed. Dymuna Mrs Williams ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd. Diolch yn fawr.

GWELLHAD. Anfonir y cofion gorau at bawb sy'n sâl yn y pentref gan obeithio y cewch adferiad iechyd buan cyn y Nadolig.

YSGOL SUL BOSRA. Bore Sul, 21 Tachwedd, daeth cyfle arall i Ysgol Sul Bosra ac Ysgol Sul Deiniolen ddod at ei gilydd i godi arian i Gymdeithas Action Aid Kenya – Cymdeithas sy'n helpu teuluoedd a cymunedau difreintiedig yn y wlad. Yn ystod 2004 derbyniwyd dau lythyr o ddiolch o Kenya, un gan ddynes o'r enw Leah Kingwa yn diolch am y gefnogaeth a'r newid a ddaeth i'w bywyd hi a'i theulu. Mae'r ail lythyr gan ddyn o'r enw Moses Ole Nkoriompai, yn diolch i Action Aid am ffurfio grwpiau ymysg y bobl i'w hyfforddi i sarad am eu problemau. Mae hyn wedi dod i sylw'r llywodraeth, sydd bellach yn trafod newid cyfreithiau bywyd gwyllt Kenya, fydd yn diogelu traddodiadau pobl y Maasai. Dyma ddiwedd llythyr Moses Ole, 'Diolch i Action Aid, mae'n bywydau ni wedi newid llawer yn y ddwy flynedd ddiwethaf.'
Fore Sul, 21 Tachwedd, daeth 50 o blant i Festri Capel Ebeneser a chafwyd bore hyfryd o ganu, cwis a chyfnod o ddeng munud o ddarllen distaw noddedig. Roedd pob plentyn ac oedolyn yn darllen unai llyfrau crefyddol neu Feibl. I orffen y sesiwn mwynhawyd diod a bisgedi. Dymunir diolch i bawb a drefnodd, a gefnogodd ac a noddodd y weithgaredd hon, gan sicrhau cronfa lewyrchus eto ar gyfer y flwyddyn nesaf.

GWASANAETH NADOLIG.
Gobeithir cynnal gwasanaeth Nadolig traddodiadol bnawn Sul, 12 Rhagfyr yng ngofal Mr Myrddin Jones ac aelodau'r Ysgol Sul.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd, a'r enillwyr oedd: 1. Dennis Roberts, Cytir Bach; 2. Ann Jones, Ty'n Gerddi; 3. Pat Larsen, Llygad yr Haul.
Atgoffir chwi fod llyfrau Raffl ar werth gan aelodau'r Pwyllgor ac fe'i tynnir mewn Noson Siôn Corn ar 16 Rhagfyr am 6.30 yh yn y Neuadd Gymuned. Bydd paentio wynebau, amrywiol stondinau a phaned ar gael. Am 10% o'r elw, mae croeso i unrhyw un arddangos eu cynnyrch a'u gwerthu. Bydd Siôn Corn yno yn holi'r plant a chyflwyno anrheg am bris rhesymol. Pris mynediad £1 i oedolion yn cynnwys paned, plant am ddim. £1.50 i ymweld â Groto Siôn Corn.

URDD ADRAN BENTREF. Mae'r Adran wedi ailgychwyn yn y Neuadd Gymuned bob nos Fercher yn Nhachwedd o 7.00–8.00yh.

11: Noson Gofrestru a gêm o Bingo.
18: Gemau Potes.
25: Gemau yng ngofal Geraint George.
29: **NOS LUN** Gwneud Cardiau Nadolig gyda Wendy Philips. Bydd yr Adran yn ailgychwyn ar y nos Fercher wedi i'r ysgol ddechrau yn Ionawr 2005.

APÊL CAPEL BOSRA. Oherwydd rheolau newydd y Llywodraeth, wynebir costau enfawr i adnewyddu'r Capel – costau sydd tu hwnt i allu'r aelodau i'w talu.

Penderfynwyd brwydro hyd yr eithaf i'w gadw ar agor a derbyn yr her a mynd ati i gasglu'r arian. Gofynnir yn garedig am haelioni aelodau, cyn-aelodau, aelodau'r Ysgol Sul – ddoe a heddiw, ynghyd â ffrindiau lu. Gellir cysylltu â'r swyddogion: Cadeirydd: Mrs Pat Larsen, Llygad yr Haul; Ysgrifenyddion: Mrs Eluned Jones, Cae Corniog a Mrs Ffiona Jones, Tan y Ffordd; Trysorydd: Mr Arnold Jones, 1 Tai Arthur, Waun.

Erfynnir am eich haelioni i gadw'r **unig** gapel bellach sydd ar agor yn y pentref.

CYFARCHION NADOLIG.
Dymuna Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion.

EGLWYS SANTES HELEN.
Trefn gwasanaethau ar gyfer mis Rhagfyr:

5: 10.30. Cymun Bendigaid.
12: 5.00. Cymun Bendigaid.
19: 4.00. Gwasanaeth o Naw Llith a Charol gyda rhan gan aelodau'r Ysgol Sul.
24: Noswyl y Nadolig. 9.00 yr hwyr. Cymun Bendigaid y Nadolig.
26: 10.30. Cymun Bendigaid Undebol i blwyfi Llanfairisgaer, Llanddeiniolen a Phenisarwaun yn Eglwys St. Helen.

Yr Ysgol Sul. Braf yw gweld nifer aelodau yr Ysgol Sul yn cynyddu. Estynnir croeso cynnes i bob aelod, hen a newydd, i ymuno yn Neuadd yr Eglwys bob bore dydd Sul am 10.30 o'r gloch, heblaw am wyliau'r ysgol.
Cynhelir Pwyllgor y Cyngor Plwyfol Eglwysig yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, 13 Rhagfyr am 7 o'r gloch.
Gyrfa Chwist Nadolig. Fe gynhelir yr Yrfa Nadolig yn Neuadd yr Eglwys, nos Fawrth, 14 Rhagfyr am 7.30 o'r gloch. Croeso i bawb.
Llyfrau Ariannol yr Eglwys. Fe fydd Llyfrau Ariannol 2004 yn cau dydd Sul, 26 Rhagfyr. Diolchir i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y flwyddyn.

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth
oddi wrth
Alwyn a Sarah

Blodau Racca
Penisarwaen Ffôn **870605**

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots'
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silo
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 118 247
- Hefyd, *Bouquets* Nadoligaidd

RHODD O'R GALON YW BLODAU

EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Y mae'r Gronfa ar agor o hyd os dymuna unrhyw un gyfrannu. Mae'n nod wedi ei chyrraedd ers wythnosau ond derbynnir cyfraniadau o hyd. Gellir eu hanfon i'r Trysorydd, Leslie Larsen, Llygad yr Haul neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhaliwyd yr Eisteddfod nos Wener, 12 Tachwedd, gan gychwyn am 6.00 yh. hyd 11.45. Y beirniaid hwyliog oedd Carys Edwards: Cerdd; Mair Penri: Adrodd a Llên; Mair Griffiths: Coginio a Gwith Llaw ac Arnold Jones: Arlunio. Yr arweinyddion prysur oedd Elizabeth Jones, Phyllis Elis ac Eifion Harding. Y cyfeilydd am y noson oedd Dewi Hughes a'r Llywydd eleni oedd Wena Lloyd Williams.

Bu'n Eisteddfod lewyrchus eto eleni gyda'r Neuadd dan ei sang. Roedd safon yr adrodd, canu, partïon, dawnsio a'r caneuon ysgafn yn ganmoladwy iawn. Diolchir i'r hyfforddwyr oll ac i aelodau'r Pwyllgor. Bydd y canlyniadau yn y rhifyn nesaf.

Parti Coslyd, Yn sôn am 'Llau Pennau'.

Tanya yn derbyn Cwpan Mrs Eluned Porter, Blwyddyn 1 a 2.

Sophie a Claire yn derbyn medalau.

Lois, enillydd adrodd a chanu Blwyddyn Derbyn.

Catrin Elen, Moi, Catrin Sara, oed Meithrin a llai.

Bu disgyblion yr ysgol yn brysur yn paratoi bocsys esgidiau ar gyfer diwrnod 'Operation Christmas Child'. Casglwyd oddeutu 40 o focsys esgidiau a fydd o fudd i blant llai ffodus na ni. Cychwynnodd y bocsys ar eu taith ar y 16/11/04.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YSGOL GYNRADD.

CASGLU ARIAN. Eto eleni, bu'r disgyblion, rhieni a ffrindiau yn hael eu cyfraniad tuag at y casgliad Diolchgarwch yn yr ysgol. Cyflwynwyd dros fil o bunnoedd tuag at Apêl Doctor Barnado.

Ychydig wythnosau wedi'r Diolchgrwch, roedd y plant yn awyddus i ddod i'r ysgol yn eu dillad ffasiynnol, a thalu dirwy o 50c tuag at Apêl Plant Mewn Angen. Casglwyd £120 o bunnoedd at yr apêl.

Adeiladwyd wal uchel a lliwgar yn y neuadd gyda bocsys esgidiau wedi eu llenwi â nwyddau ar gyfer eu hanfon i apêl 'Plentyn y Nadolig'.

Mae caredigrwydd plant yr ysgol yn ddiddiwedd a dymunwn ddiolch i bob teulu am eu haelioni.

NOSWEITHIAU I'W MWYNHAU. Roedd yn anodd iawn gwybod pwy oedd pwy yn y Disgo Calan Gaeaf a gynhaliwyd i'r plant yn neuadd yr ysgol. Gwnaed ymdrech fawr i wisgo dillad, mygydau a phaentio wynebau er mwyn ymgolli yn yr hwyl.

NOSON TÂN GWYLLT. Bu'r dynion yn brysur yn tanio tân gwyllt a rocedi lliwgar, a wynebau'r plant yn werth eu gweld wrth iddynt ryfeddu at y lliwiau yn tasgu i fyny i'r awyr a disgyn yn ôl. Nid oedd ambell un yn or-hoff o'r sŵn clecian, ac yn gafael yn dyn yn llaw mam. Wedi'r tanio, merched y gegin oedd yn brysur yn gwneud y cŵn poeth a'r côn sglodion. Noson dda iawn a phawb wedi mwynhau.

Unwaith eto dymuna pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol ddiolch am bob cefnogaeth.

CYFFURIAU. Daeth Marc i'r ysgol i ddysgu'r plant, o'r mwyaf i'r lleiaf, drwy sgwrs a thriciau hud, i beidio â chyffwrdd â nodwyddau a phethau amheus sydd weithiau ar y llawr. Dylent, meddai, ddweud wrth oedolyn; 'Paid cyffwrdd – dweud!' oedd ei neges bwysig iddynt.

GWAITH THEMA. Fel rhan o'u gwaith ar thema 'Goleuni' bu disgyblion Blynyddoedd 1 a 2 a'u hathrawon ar ymweliad â'r Mynydd Gwefru yn Llanberis. Dymunant ddiolch am y croeso ac am y llyfryn a gafodd pob un.

DIOLCH A DYMUNO'N DDA. Am ddeuddydd o bob wythnos, mae tair o fyfyrwyr Coleg Menai wedi bod yn cael profiad o weithio gyda phlant yng nghfnod allweddol un. Dymunwn ddiolch i Miss Rosie Radnor, Miss Gwenan Williams a Miss Donna Jones am eu cymorth yn ystod y tymor a dymunwn yn dda iddynt yn eu cwrs coleg.

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf mae Miss Elen Evans, o Goleg Prifysgol Cymru wedi bod yn gwneud ei hymarfer dysgu ym mlwyddyn dau. Dymunwn bob llwyddiant iddi hithau yn ei chwrs ac i'r dyfodol.

Bu plant Blwyddyn 5 a 6 yn Theatr Seilo yn recordio cân ar gyfer CD newydd gan Radio Ceredigion. Bydd elw gwerthiant y CD yn mynd tuag at Gyngor yr Henoed. Diolchwn hefyd i'r plant am gyfrannu tuag at hamperi ar gyfer yr henoed yng Ngwynedd.

Bu plant Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn recordio cân a ysgrifennwyd yn arbenig gan Ynyr Roberts ar gyfer CD o ddoniau ardal Llanrug. Bydd elw o werthiant y CD yn mynd tuag at gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mwynhaodd y plant ddysgu a pherfformio cân wreiddiol.

GŴYL CAMPAU'R DDRAIG. Dydd Mawrth, 2 Tachwedd, cynhaliwyd Gŵyl Rygbi Campau'r Ddraig ar gae bob tywydd Ysgol Brynrefail. Aeth dau dîm o ddisgyblion blwyddyn 6 yno a chafwyd gemau cyffrous rhwng timau clybiau eraill o'r fro. Y tymor nesaf bydd aelodau'r Clwb yn ymarfer a datblygu eu sgiliau hoci. Mae disgyblion yr ysgol yn cael cyfnod o ymarfer campau Rygbi'r Ddraig ar ôl yr ysgol bob nos Fercher, gyda Mr Griffith a Miss Jones.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug yn y Ganolfan Gymunedol ar nos Fawrth, 9 Tachwedd. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Eryl, y Llywydd. Y mis hwn tro Megan oedd dathlu pen-blwydd arbennig. Cyfeiriwyd at farwolaeth Mrs Jennie Williams, Bod Fair, a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar o'r gengen am flynyddoedd. Darllenwyd llythyr o gyflwyniad gan Mim Roberts, y Swyddog Datblygu a benodwyd yn ddiweddar. Cynhelir noson Santes Dwynwen ar 28 Ionawr 2005, ym Meithrinfa Treborth; enwau ac arian i law erbyn 15 Rhagfyr.

Y wraig wadd oedd Rhiannon Parry, Llansannan, yn wreiddiol o Dalwrn, Ynys Môn, yn fam i dair ac yn nain i dri. Enillodd gadair Eisteddfod Merched y Wawr ac mae wedi ysgrifennu nifer o ddramâu. Adroddodd ei hanes yn dysgu gwnio ac yn gwneud lliain hambwrdd gyda brodwaith arno pan oedd yn naw oed. Unwaith cafodd farciau llawn am roi edau yn nodwydd peiriant gwnio. Bu'n mynychu dosbarth pwytho ar ôl triniaeth cancr 10 mlynedd yn ôl. Dilynodd gwrs celf yng Ngholeg Menai dair blynedd ar ôl hynny.

Daeth â lluniau o frodwaith i'w harddangos a darllenodd gerddi gan Gwyn Thomas ac Einir Jones. Dangosodd lun Blodeuwedd o'i gwneuthuriad, ac i gyfleu naws adroddodd araith olaf Gwydion yn nrama 'Blodeuwedd', Saunders Lewis. Roedd wedi llifo hen flanced yn borffor, wedi ei hatgyfnerthu â phwythau o edau sidan ac wedi gwnio siapiau dail arni. Roedd ganddi hefyd glustogau wedi eu gwneud o hen blancedi gyda siapiau sêr a blodau wedi eu pwytho arnynt. Enghraifft bellach o'i gwaith oedd llun wedi ei bwytho er mwyn cyfleu awyr a môr, gyda dyfyniad o waith R. S. Thomas oddi tano. Capel Gwilym Hiraethog, Llansannan, oedd testun llun arall gyda darn ohono wedi ei neilltuo i ddangos llestri a bwyd, er mwyn cyfleu te angladd.

Roedd y cyfan yn wledd i'r llygaid gyda'r amrywiaeth o bwythau cymhleth yn rhyfeddod, a Rhiannon yn mynegi'r hanes i gyd yn ei ffordd ddihafal ei hun. Mae hi yn rhoi cyrsiau ar wnio, yn rhedeg clwb crefftau a, thrwy werthu cardiau o'i gwaith, wedi codi dros £3,000 i elusen Macmillan.

Megan, Ann Lloyd a Margaret fu'n paratoi'r baned ac enillwyd y raffl gan Meinwen.

Ar nos Fawrth, 14 Rhagfyr, bydd aelodau'r gangen yn dathlu'r Nadolig yn y Bistro, Llainberis; felly enwau ac arian i Olwen rhag blaen.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

LLONGYFARCHIADAU i Richard Lloyd Jones ar ei lwyddiant yn cipio y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Y dasg oedd llunio dyddiadur un o aelodau y gwasanaethau brys. Dyma yr ail waith iddo gipio'r Fedal.

CRONFA APÊL YR EISTEDDFOD. Diolch i bawb a gefnogodd y Talwrn, llwyddwyd i wneud elw o £205. Wedi'r Nadolig bydd y cwisiau poblogaidd yn ail gychwyn. Fe'u cynhelir yn Y Bedol a'r Gors Bach bob yn ail. Bydd hysbysebu lleol yn agosach i'r adeg.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS. Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd, nos Fercher, Tachwedd 10, yn Ysgol Gynradd Bethel. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd, Rhian Hughes.

Llongyfarchwyd Nia Môn, merch Sian Davies, sydd wedi ennill y gadair mewn Eisteddfod ym Mhatagonia yn ddiweddar. Aeth Sian yno i gynrychioli ei merch. Llongyfarchwyd, hefyd, un o gyn-aelodau'r gangen sef Miss Leah Thomas, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Emma, wyres Bet, sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar ac wedi cael triniaeth ddigon egr, a hefyd i Edwina Morris sydd wedi bod yn cael trafferthion efo'i chefn yn ddiweddar; dymunwyd gwellad buan a llwyr i'r ddwy ohonyn nhw.

GECO ARIAN. Mwynhawyd noson hynod o ddifyr yng nghwmni Ann Griffith o Geco Arian yn sôn am ei hanes yn teithio i bellteroedd byd. Soniodd am amrywiol deithiau i wledydd egsotic gyda phac ar ei chefn. Soniodd hefyd am y gwahanol fathau o emwaith y daeth ar eu traws yn y gwledydd hynny. Daeth â samplau o'i chrefftwaith efo hi a chafodd yr aelodau amser difyr yn edrych ar ei chynnyrch. Enillwyd y raffl gan Sian Davies a diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Ann Lewis

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cafwyd noson agoriadol ardderchog i'r Gymdeithas eleni yng nghwmni dwy o ferched ifainc o Gaernarfon, sef Elain a Ffion Llwyd, gyda Rhian Roberts, Llanwnda a Ceren Lloyd yn cyfeilio. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Jenkin Griffith, ac roedd rhaglen y ddwy o safon uchel iawn, ac yn cynnwys unawdau, deuawdau, cerdd dant a chyflwyniad dramatig. Ffion oedd yn cyflwyno'r eitemau, a hynny mewn ffordd gartrefol braf. Diolchwyd iddynt am noson arbennig gan Eirwen Williams, Felinheli.

Roedd cynulleidfa niferus yn bresennol yng nghyfarfod mis Tachwedd oedd yn cael ei noddi gan yr Academi. Angharad Tomos oedd y wraig wadd, ac yn dilyn y croeso arferol, cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol yn olrhain hanes bywyd a gwaith ei Thaid, sef David Thomas, a groniclir yn ei llyfr 'Hiraeth am Yfory'. Cynigwyd diochiadau gan Richard Lloyd Jones. Yn y cyfarfod nesaf bydd yr aelodau yn dathlu'r Nadolig, ar lafar ac ar gân, a hynny ar nos Fawrth Rhagfyr 14.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref o'r Clwb, gyda Goronwy Jones yn llywyddu. Hysbysodd yr aelodau fod y Clwb wedi derbyn £116.17c, sef hanner y swm a gasglwyd o dŷ i dŷ o gwmpas y pentref. Croesawyd pawb ynghyd, ac hefyd y gŵr gwadd, sef Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ganddo yn olrhain hanes ei fagwraeth yn y Sarnau, ger y Bala, a sut bu i nifer o bersonau creu argraff arno, pan yn ifainc, wrth gyflwyno iddo ramant yr iaith Gymraeg, a'r hoffter hyn yn parhau hyd heddiw. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan y Prifardd Selwyn Griffith.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd yn Festri Bethel gyda Goronwy Jones yn llywyddu. Mae trefniadau'r cyfarfod, nesaf sef y Cinio Nadolig yn Y Bedol, mewn llaw, ac i bawb sy'n dymuno dod i'r Cinio gofynnir i chi gysylltu ag Elizabeth Evans neu Megan Humphreys, cyn Rhagfyr laf. Y Gŵr Gwadd oedd Medwyn Williams (Pencampwr Sioe Chelsea), Llanfairpwll, a chafwyd ganddo sgwrs addysgiadol iawn gyda lluniau pwrpasol, yn dangos y grefft o dyfu llysiau ar gyfer cystadlu yn y Sioe Fawr yn Chelsea. Mae amseru yn holl bwysig, oherwydd mae popeth i fod ar ei orau erbyn dyddiad y Sioe. Erbyn hyn mae'r tyfu wedi cychwyn ar gyfer 45 o wahanol lysiau, a hynny ar gyfer Sioe y flwyddyn nesaf, pryd y bydd Medwyn Williams yn gobeithio ennill ei ddegfed Medal Aur. I goroni ei orchestion dros y blynyddoedd, bu yn ddigon ffodus y llynnedd i ennill Tlws y Llywydd am yr arddangosfa orau yn y Pafiliwn. Diochwyd iddo yn gynnes iawn am brynhawn gwerth chweil gan Jenkin Griffith.

ADRAN YR URDD BETHEL Daeth Aled Jones o'r Urdd atom ar nos Fercher, 3 Tachwedd i gynnal sesiwn o weithgareddau athletau. Cafwyd amser da iawn a thipyn o chwysu! Yna nos Fercher Tachwedd 17 noson o gelf Nadolig gafodd y plant lleiaf o dan ofal Anti Meryl. Roedd pawb wedi gwneud cerdyn ac addurn hardd iawn yn barod at y Nadolig. Diolch i Anti Meryl am drefnu ac i bawb fu'n helpu ar y noson. Cafodd plant blynyddoedd 4, 5 a 6 noson o gwis dan ofal Iola Jones. Roedd cystadlu brwd ymysg y timau a chafwyd noson dda iawn.

Bu'r canlynol yn rhan o'r orsedd yn ystod seremoni cadeirio Eisteddfod Bethel nos Sadwrn, 13 Tachwedd: Arron Hughes, Aaron Gwyn, Daniel Bell, Gruffydd John, Gerallt Bryn, Aled Jones, Gethin Griffiths, Ilid Speake, Manon Elwyn a Bronwen Price. Gwnaeth pawb ei ran yn ardderchog. Diolch i chi am fod mor barod i gymryd rhan. Llongyfarchiadau i sawl aelod o'r Urdd a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod pentref.

I ddiweddu'r tymor caiff yr aelodau fwynhau disgo nos Fercher, 1 Rhagfyr, yn y Neuadd Goffa. Plant Blynyddoedd 2 a 3 o 5.30 tan 6.15, a blynyddoedd 4, 5 a 6 o 6.30 tan 7.30. Bydd cŵn poeth a diod ar werth.

EISTEDDFOD. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn eto eleni gyda chystadlu brwd ar y llwyfan ddydd Sadwrn, Tachwedd 13eg. yn dilyn noson o Ddawnsio Disco ar y dydd Mawrth. Y beirniaid am eleni oedd Elin Huws (Celf) Christine Hanks (Dawnsio Disgo) Siwan Llynor (Llefaru) Tammi Gwynn, (Llên) a Ffion Evans (Cerdd). Diolchodd Llywydd y Pwyllgor i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod a mynegwyd balchder at gymaint o dalent oedd yn y pentref ymysg y plant a'r pobl ieuanc. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i garedigion yr Eisteddfod am roddion ariannol ac am gyflwyno tlysau bach i'w cadw am byth i enillwyr y tariannau.

Enillwyd tariannau gan y canlynol;

Piano cynradd – Gethin Griffiths;
Offeryn cynradd – Manon Elwyn;
Lleisiol cynradd – Elin Owen;
Llefaru cynradd – Gerallt Jones;
Lleisiol uwchradd – Geri Griffith;
Offeryn uwchradd – Rhys Hughes;
Piano uwchradd – Huw Foulkes;
Llefaru uwchradd – Huw Foulkes;
Siarad cyhoeddus – Huw Foulkes;
Celf cynradd – Lowri Pierce;
Celf uwchradd – Ceri Griffiths.

Beth Gaffey enillodd y Tlws Cynradd am ei cherdd i'r 'Tymhorau' a Manon Wyn Wiliams, 'Refail oedd enillydd y Tlws Uwchradd am ei stori fer, 'Cywilydd'. Bydd y canlyniadau yn llawn a'r stori 'Cywilydd' yn rhifyn Nadolig yr *Eco*.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau Awst oedd Alan Ginsberg, Celtic House (128): £50; Liz Evans, Pen Parc (125): £25; Aled Morris, Celynnen (74): £10.

Ym mis Medi yr enillwyr oedd Susan Owen, Llys Gwynedd (111): £50; Marcus Robinson, Cartrefle (54) £25; a Mair Jones, 12 Tan y Cae (87): £10.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

DATHLU'R NADOLIG. Cynhelir gwasanaeth dathlu'r Nadolig Ysgol Sul y Cysegr yn y capel fore Sul, 19 Rhagfyr am 10 o'r gloch ac ar yr un amser bydd plant Bethel yn cynnal eu gwasanaeth hwythau ym Methel. Croeso cynnes i bawb ymuno yn y dathlu.

Cynhelir parti Nadolig yr Ysgol Sul yn Festri'r Cysegr am 2.00 y prynhawn, ar ôl y gwasanaeth yn y bore.

(Canlyniadau Eisteddfod yn rhifyn Dolig.)

R. L. DAVIES
Coed Bolyn Mawr, Bethel
JCB *Fastracs* a *trailers* 16 tunnell *diggers* bychain
ac *excavators* 360° newydda llawer mwy

- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu *footings*
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion
(01248) 671300 neu **(07775) 638620**

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN
- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I CYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Mwy o Newyddion Llanrug

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS. Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

YSGOL FEITHRIN.

11 Rhagfyr: Casglu arian yn siop Safeway. Rhowch eich enw i Gwen yn y Caban os ydych yn barod i helpu.

14 Rhagfyr: Cyngerdd Ysgol Feithrin yn Neuadd yr Ysgol Gynradd, drysau ar agor am 5.30, pris yn £2 i oedolion a phlant am ddim. Bydd yna baned a mins pei ar gael ar ôl y Cyngerdd yn ogystal â stondin gacennau a gemau i'r plant.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

CAPEL Y RHOS.

Cyngerdd Nadolig – dydd Sul, 19 Rhagfyr am 9.45–10.45am. Mae'n bwysig i'r plant ddod i'r Capel yn yr wythnosau nesaf er mwyn iddynt gael ymarfer ar gyfer y Cyngerdd.

Parti Nadolig – dydd Sul, 19 Rhagfyr am 12.00–2.00 yn y Festri. Caiff y plant sy'n dod i'r Ysgol Sul gyfle i ddathlu y Nadolig gyda'u ffrindiau a gweld Siôn Corn.

* * *

Ers ailagor y Capel yn ystod yr haf eleni, mae'r aelodau a'r plant wedi gwerthfawrogi'r estyniadau i'r adeilad, y cyfleusterau a'r cynhesrwydd. Ddydd Sul, 17 Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig o Ddiolchgarwch wedi ei baratoi gan y Gweinidog. Roedd plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn hynod o effeithiol a graenus, ac yn amlwg yn mwynhau eu gwaith. Daeth cynulleidfa dda yno i glywed y plant, a phawb yn gwerthfawrogi ymroddiad athrawon yr ysgol Sul sy'n eu hyfforddi mor drwyadl.

Roedd naws arbennig i'r oedfa fore Sul, 7 Tachwedd. Paratowyd y gwasanaeth ar gyfer Sul Cenhadol gan y Parch David Andrew Jones o Fwrdd y Genhadaeth, wedi ei addasu gan y Gweinidog, gydag aelodau Capel y Rhos yn cymryd rhan. Gweinyddwyd y Cymun gan y Gweinidog yn ystod y gwasanaeth, ac roedd casgliad y Sul yn mynd tuag at y cyni yn Sudan.

Etholwyd dau ŵr yn flaenoriaid i'r Eglwys yn ddiweddar, sef Huw Emyr Williams o'r Gounant ac Elwyn Vaughan Williams, Nant-y-Glyn, ac mewn cyfarfod yng Nghapel Caeathro nos Fawrth, 16 Tachwedd, fe ordeiniwyd y ddau i'r swydd. Llywydd yr Henaduriaeth, Mr Oswyn Evans, oedd yn llywyddu'r cyfarfod, a Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, Miss Megan Jones, yn arddeinio'r blaenoriaid ac yn traddodi'r Cyngor iddynt.

Er is Capel y Rhos golli amryw o aelodau ffyddlon a gweithgar yn ddiweddar, mae'n galonogol gweld pobl ifanc yn dod yn ôl i'w charu gwaith Eglwys Crist ymlaen i'r dyfodol.

PLAID CYMRU. Cynhaliwyd tri chyfarfod o gangen Llanrug o Blaid Cymru y tymor hwn, gyda dwy sgwrs arbennig o ddiddorol ym mis Medi a Hydref. Y Prifardd Ieuan Wyn oedd y siaradwr ym mis Medi yn trafod y dylanwadau ar ei waith. Yna fis Hydref, daeth arweinydd Cyngor Gwynedd, Richard Parry Hughes, gyda sgwrs hwyliog am ei fagwraeth a'i gefndir yn Llŷn a dylanwad hynny ar ei waith fel Cynghorydd.

Noson Goffi i godi arian a gafwyd nos Fercher, 17 Tachwedd. Croesawodd y Llywydd, Phyllis Ellis, y Trefnydd sydd newydd ei benodi yn Swyddfa'r Etholaeth yng Nghaernarfon, Meilyr Gwilym, a dymuno iddo bob llwyddiant yn ei swydd newydd. Er gwaetha'r tywydd, fe ddaeth tyrfa dda i fwynhau paned a gwnaed elw sylweddol ar y stondinau.

Enillwyr y Clwb Cant am y pedwar mis diwethaf oedd:

Awst: 1. James Jones; 2. Meirwen Lloyd.

Medi: 1. Falmai Williams; 2. Dafydd Arfon.

Hydref: 1. Olwen Llywelyn; 2. Frank Green.

Tachwedd: 1. Olwen Llywelyn; 2. Charles Jones.

Enillydd raffl y noson: Mari Rhun.

Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson. Bydd cyfarfod nesaf Cangen Llanrug nos Fercher, 19 Ionawr, pan ddaw Gareth Jones, a fu'n Aelod Cynulliad dros Gonwy, i siarad ar 'Blaid Cymru Heddiw'. Croeso i bawb i'r Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch.

EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU 2005. Bydd y CD yn cael ei lawnsio a'i gwerthu o ddydd Llun, 29 Tachwedd. Mae yn cynnwys ein doniau lleol ac fe fydd ar werth am £6 – anrheg Nadolig i bawb!

Mae'r raffl yn barod i'w gwerthu, byddwn yn cychwyn yn syth ar ôl y Nadolig. Mae diolch o galon i unigolion a busnesau lleol am eu cymorth hael i roi safon i'r raffl fawr yma.

Ar 29 Ionawr, bydd Idwal a Bethanne Williams yn trefnu noson 'Burns' yn y Sefydliad ac fe rown fwy o wybodaeth i chwi yn y rhifyn nesaf.

Ym mis Chwefror, gobeithir casglu o dŷ i dŷ. Fe all pawb gael cyfle i gyfrannu os mynnant.

Mae Noson Arbennig wedi ei threfnu yng Ngwesty y Seiont Manor ym mis Mawrth, cewch wybod mwy ymhellach ymlaen am hyn hefyd.

Diolch eto, am bob cefnogaeth.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb Cant am **Fedi** yw £20: (63) M. Jones, 21 Rhos Rug; £7: (79) Mrs C. Owen, 4 Bro Rhythallt; £5: (27) G. Parry, Wenllys.

Hydref: £20: (169) Mrs M. Jones, 24 Hafan Elan; £7: (96) G. Davies, Bod Awel; £5: (61) Mrs E. Roberts, Glanfa.

Tachwedd: £20: (2) Iwan Williams, 35 Nant y Glyn; £7: (169) Mrs M. Jones, 21 Hafan Elan; £5: (149) Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan.

Os am ymuno â'r Clwb, cysylltwch a'r trefnydd, Mr R. Thomas, 54 Nant y Glyn (673582).

PROFEDIGAETHAU. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Gareth Thomas a'r teulu, Regent House. Bu farw ei fam, Mrs Annie Thomas yn Y Fron yn ddiweddar, yn 92 mlwydd oed, a'i chwaer, Ann Rowson Thomas yn 62 mlwydd oed.

Hefyd, yn 60 oed, bu farw Dafydd Warren Roberts, 14 Bro Rhythallt, ar 18 Hydref. Cydymdeimlwn yn arw â Blodwen, ei wraig, a'r plant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Bu farw Rita Owen, chwaer Mrs Ceinlys Roberts, yn Llanberis yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn arw â chwithau a'ch teulu yn y brofedigaeth yma hefyd.

PENBLWYDDI ARBENNIG. Llongyfarchiadau mawr i Mr Tom Williams, Penfro, Ffordd Tan y Coed, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed. Hefyd i Olwen Hughes, Eithinog, Afon Rhos a Megan Roberts, Gregynnog, ar gyrraedd eu cerrig milltir hwythau!

LLONGYFARCHIADAU Da iawn, Jennifer Jones, 2 Bro Rhythallt, ar ennill y 'Black Belt' mewn Karate ar 23 Hydref.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Ceridwen Wiliams, 25 Hafan Elan ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd mis diwethaf.

Mae hefyd yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

(Parhad ar dudalen 25)

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Gosodwr Teils
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



CARPEDI GERAINT OWEN
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

Gwynfryn Cymunedol Cyf.
Y Stiwdio, Snowdonia Park, Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AQ
Ffôn / Ffacs : 01286 650523
e-bost : meolaethgwynfryn@hotmail.com
www.gwynfryncymunedol.co.uk



Gwyliwch allan amdani neu cysylltwch â Goronwy Hughes (01286) 674839

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Hoffter a pharch at hen eiriau

Oni bai am rai fel John E. Williams, Y Gors, Llanrug, a nifer eraill, a diolch rif y gwlith amdanynt, mi fyddai Cymru ein gwlad yn llawer tlotach. Ar Fai y cyntaf eleni, danfonodd John restri cynhwysfawr ataf o enwau yn y Gymraeg, sy'n ymwneud â phlanhigion, adar ac anifeiliaid, yn ei randir ef o blwyf Llanrug. Stwff gwerthfawr iawn ac ysgogiad pellach i grwydro cynefinoedd, a tharo ar blanhigion, adar ac anifeiliaid o bob math. Diolch John, Joan, a Siôn, yn y Gors, Llanrug am eich diddordeb byw, a'ch ymroddiad i'r 'pethe' ym myd Natur. Mi ofalaf bod y rhestr yn llawysgrifen gywrain John, wedi'i throsglwyddo maes o law i ofal, a hynny o'u sefydlu yma yng Nghymru, y Ganolfan Genedlaethol Byd Natur yng Nghymru ac Archifdy Cenedlaethol Cymru, a lleoedd y mae gwir angen amdanynt, gan fod Ddeddf Llywodraeth Cymru, 1998, yn dweud yn eglur fod hyn yn rhan o waith y Cynulliad yng Nghaerdydd.

Y CORSDIR: Planhigion a ffynnai 80 mlynedd yn ôl (detholiad, a chodi'r cwrlid oddi ar yr hen ddaear megis – rhestr John E. Williams, Llanrug: *blodau neidar; carn yr ebol; cegid; crafanc y frân; cwrlid* – arogl fel saets arno, ebe John; *brenhines y weirglodd; ffa'r corsydd; gwerthol y cyffylog*, a dyma beth sydd gan John i'w dd'eud. Darllenwch da chwi. Blaswch rin geiriau: *Pan fyddai'r ceffyla' allan yn yr haf, a'u mwng wedi mynd blith draphlith, y cyffylog*, (sef aderyn y corsdir, hefo pig eithriadol o hir), *oedd wedi bod yn eu marchogaeth yn y nos.* Llygriad ydy' gwerthol o gwrthafl. Dyma'r tro cynta' erioed imi glywad yr esboniad hwn. Gwirioneddol fendigedig! *llygad aeron; llygad bwgan; llwyn hidil; migwyn; llin sgwarnog; pengalad; robin grynwr*, (gan fyw mewn gobaith mi wnaf drafod y gweiryn hwn yn ystod y flwyddyn nesaf. Ôl-nodyn- D.G.); *syrdins cŵn; tegeirian.*

'D ydy' byd Natur yn ryfeddol d'wedwch gyda'r holl enwa' 'ma. Diolch eto amdanynt. Y mae'n rhaid eu cadw ar dir y byw. Nid erefu arnoch i 'neud hynny rydw i, ond d'eud ei fod yn ddyletswydd arnoch. Y mae gan bob cymdeithas, yr ysgol leol ac addysg yn gyffredinol, gym'int ran i'w gyfrannu yn hyn i gyd. Ond mi wn un peth – allan fan 'na, os caf hoen ac iechyd, y byddw' i yn y flwyddyn 2005, yn cribino'r meysydd, a'r corsdiroedd, gan fynd ar drywydd rhai o'r planhigion a enwyd uchod gan Gymro hynaws, sy'n byw yn y Gors, Allt Riwth, Llanrug. Llawenydd y 'Dolig i bob un ohonoch, a phob dymuniad da yn y flwyddyn newydd.

CANLYNIAD

Cystadleuaeth Calan Gaeaf

Yr Ystlum, (lluosog *ystlumod*), neu'r *'slum/'slumod* ar dafod leferydd ac fe ofynnwyd i'n darllenwyr roddi enw arall yn y Gymraeg am yr ystlum. Roedd yma gyfle penigamp, os roeddech â'ch gwreiddia' mewn rhanbartha' erill o'n henwlad i 'neud defnydd o dafodieithoedd.

Mi fyddwn wedi derbyn y geiriau *'slumyn* (gwryw), neu *'slumsen* (benywaidd) fel rhai cywir. Geiriau yw'r rhain, a ddefnyddir am yr ystlum yng Ngheredigion a Morgannwg. Ar y llaw arall byddai *(y)sglemyn*, sy'n air sydd ar ga'l ym Morgannwg, a rhai ardaloedd yn Arfon, wedi bod yr un mor dderbyniol. Ond yr un yr aeth y cwbwl ohonoch amdano y tro hwn ydoedd *ystlumyn y bacwn*, neu'r *'slumyn bacwn*, hynny ydyw ymadrodd a geir yn nhafodiaith goeth Geredigion, sef *'slimin bacwn*, a d'wedir hefyd ei fod yn bodoli ran 'run ffurf yn Ne-Orllewin Arfon. Bacwn ydyw cig moch Ffurf corff yr ystlum a ddisgrifir. Ceir hefyd *'slumyn baco* ac *ystlum clustiog*. Dyna ddigon am y tro!

* * *

A'r enillydd?

Llongyfarchiadau i Eirlys Sharpe, Ael y Bryn, Bethel, am ddanfon yr ateb cywir inni, sef *'slumyn bacwn*. Cafodd Eirlys o hyd i'r ateb yn *Geirfa Natur*, Gwasg Prifysgol Cymru, 1951; 4ydd arg. 1958 t.1, a brynodd yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst. Ffynhonnell arall werthfawr ydyw *Geiriadur Prifysgol Cymru* sydd ar gael mewn llyfrgelloedd. Mae tocyn llyfr Cymra'g gwerth £10 wedi cyrra'dd Ael-y-Bryn, Bethel, neu ar fin dwad Eirlys! I'r rhai ohonoch na fu'n fuddugol, daliwch ati ac hwyl dros y 'Dolig, a chofiwch ddal ati i ddarllan Eco'r Wyddfa.

A'r gystadleua'th nesa'? Rhaggyhoeddir y dyddiad, sef rhifyn mis Mawrth 2005!

Enwau eraill am yr Ystlum yn yr iaith Gymraeg

Cynigiwyd gan gystadleuwyr yr enwau a ganlyn am yr ystlym: (1) *humog*. Yn sicr, hyd y gwn, os nad oes newid aruthrol wedi digwydd yn y Gymraeg, nid yr ystlum mo hwn, ond yn hytrach *rhaced*, neu hyd yn oed y *bêl*, a ddefnyddid i chwarae gemau; (2) *cwlbren*. Pastwn ydyw hwn, neu ffon. Gall cwlbren olygu llabwst yn ogystal! Yn yr iaith Saesneg 'bat' ydyw, ond nid anifail, ond offeryn!

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, yr 2il o Dachwedd, yng Nghanolfan Penisa'rwaun. Llywyddwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Gwilym Williams. Gweddïwyd i ddechrau gan Richard Ll. Jones.

Croesawyd Mr Dafydd Einon Jones, Swyddog Adfywio Gwynedd, gan y Cadeirydd. Rhoddodd Mr Jones fraslun o'i swydd flaenorol a'i fwriad fel swyddog adfywio. Dywedodd ei fod yn dal yn rhannol yn y swydd honno ond yn gobeithio cael ei ryddhau i fod yn swyddog adfywio amser llawn erbyn tua mis Chwefror nesaf.

Dilynwyd hyn â thrafodaeth ar gynlluniau'r ardal. Dywedodd Mrs Larsen bod Penisa'rwaun a Rhiwlas bellach yn rhan o'r cynllun adnewyddu a Huw P. Hughes bod Bethel hefyd yn gynwysiedig, ond mewn cynllun gwahanol.

Eglurodd Mr Jones bod ei gyfrifoldeb hefyd dros gymunedau Llanberis, Llanrug a'r Felinheli. Gofynnwyd iddo sut bydd arian grantiau yn cael eu rhannu, ai fesul cymuned neu fesul pentref, gan bod y gofynion dipyn yn wahanol ar hyd y cymunedau. Atebodd bod llawer o waith ymchwil ganddo i'w wneud gyda'i ragflaenydd a bydd mwy o wybodaeth ar gael erbyn y Nadolig.

Soniwyd am y Grŵp Cymunedol gan ofyn i Mr Jones pa mor fuan y gallai gyfarfod â'r Grŵp i ddechrau ar gynlluniau'r Cyngor. Penderfynwyd trefnu hynny yng Nghyfarfod y Cyngor Fis Rhagfyr.

Datgan Buddiant: Amlygodd Mrs Pat Larsen a Len Jones bod ganddynt gyfrifoldebau Tasg Gwirfoddol y Cyngor Sir ac felly am ddatgan buddiant yn y drafodaeth ar rannu arian i fudiadau'r ardal. Agorodd hyn yr hen ddadl, pe bai pawb sy'n aelod o'r gwahanol fudiadau yn datgan buddiannau, prin y buasai neb ar ôl i gynnal trafodaeth. Dywedodd Phyllis Ellis ei bod wedi cael ar ddeall nad yw hyn i fod i effeithio ar Gyngor Cymuned. Dywedodd Len Jones y dylid creu canllawiau mewn cysylltiad â'r Côd Ymddygiad erbyn eto.

Penderfynwyd:

(1) Gofyn i Adran Ysgrifennydd a Chyfreithiwr Gwynedd am arweiniad pan fo sefyllfa fel yma yn codi.

(2) Trafod 'Cymorth i Fudiadau Lleol' yn olaf er mwyn rhyddhau Mrs Larsen a Len Jones o'r drafodaeth.

Cofnodion Cyfarfod 19 Hydref

Eisteddfod Eryri: Dywedodd Phyllis Ellis y bydd Cwmni'r Frân Wen yn gwahodd plant pob ysgol yn y dalgylch i gymryd rhan mewn gweithdai ar gyfer yr Eisteddfod. Dywedodd Elspeth Mitcheson ei bod wedi cael eglurhad gan swyddfa'r Eisteddfod ar raniad rhoddion yr ardal, nid oedd y ffigurau a gafwyd yn flaenorol yn cynnwys cyfraniad y Cyngor.

Materion o'r cofnodion

Pont Clwt y Bont: Ateb Gwynedd nad oedd eu archwiliad yn profi unrhyw anhawster. Ychwanegodd Len Jones bod llinellau gwyn i fod yno ac ar hyd y lôn heibio i Plâs Eryr. Penderfynwyd pwyso arnynt i osod arwydd 'dim parcio' a/neu 'lorïau'n troi' yno ac ail baentio'r llinellau gwyn.

Tan yr Allt, Penisa'rwaun: Derbyniwyd ateb yr Adran Ffyrdd bod eu harolwg cyflymder wedi ei wneud am 24ain awr y dydd o'r 24ain tan y 30ain o Awst.

Materion Eraill:

Cyfarfod Blynyddol Cynghorau Cymuned Gwynedd: Cynhelir y cyfarfod yn Siambr Pen'rallt am 6.30 ar y 10ed o Dachwedd.

Dogfennau'r Cynulliad ar Ddyfodol Llywodraeth Leol: Eglurodd y Clerc na fuasai'n deg ceisio gwneud crynodeb o'r dogfennau hirfaith a dderbyniwyd. Gwirfoddolodd Elspeth Mitcheson eu darllen gan ei bod wedi gweld rhai o'r cyflwniadau gwreiddiol.

Penderfynwyd:

(1) Cael copi i bob aelod o 'Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r Astudiaeth Ymchwil i Rôl Swyddogaethau a Photensial Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref yng Nhymru yn y Dyfodol' a 'Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru a'u Potential i'r Dyfodol': Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad (Mawrth 2004).

(2) Cael tri neu bedwar copi o'r canlynol erbyn cyfarfod Rhagfyr i bwy bynnag fydd yn awyddus i'w darllen: Cynllun partneriaeth Llywodraeth Leol;

a) Adroddiad cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol;

b) Gweithredu Strwythyrau Rheoli Gwleidyddol Newydd o fewn Llywodraeth Leol.

(3) Y dair dogfen ddiweddaraf – aeth Elspeth Mitcheson a hwy i'w darllen, trafodir y rhain eto.

Y Ffordd o Gors Bach at Gelli Gyffwrdd: Soniodd Richard Ll.

CWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON - PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ... 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
Wefan: www.ydyncig.co.uk

Jones am y drafnidiaeth drom i Gelli Gyffwrdd ac eglurodd Huw P. Hughes bod gwelliannau ar y gweill.

Llwybrau

Llwybr heibio i Rhos Wian, Penisa'rwaun. Dywedodd Phyllis Ellis bod y ffordd yma mewn cyflwr difrifol, bron yn amhosib cerdded ar ei hyd. Penderfynwyd cysylltu â Gwynedd unwaith yn rhagor gan gyfeirio at eu cynnig blaenorol i ffurfio llwybr un fedr o led yno a gofyn faint fuasai'r gost o lwybr arall o'r un lled ar yr ochr arall. Ystyrir ffyrdd o gyllido'r ail lwybr ar ôl derbyn pris Gwynedd.

Trem Eilian i Cwm y Glo

Awgrymodd Pat Jones ofyn i Wynedd am lwybr beicio *(trac)* yma gan eu bod wedi gwrthod palmant iawn. Dywedodd Phyllis Ellis bod cynllun ar dro i geisio am 'ffordd ddiogel i'r ysgol' ar hyd y ffordd yma.

Tyddyn y Felin, Penisa'rwaun

Cyflwynwyd llythyr Mr Graham Owen Evans, Cyngor Gwynedd, yn gofyn a yw'r Cyngor yn barod i dynnu'r gwrthwynebiad yn ôl. Penderfynwyd nad oedd pwynt dal at y gwrthwynebiad.

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad: 43, Bro Eglwys, Bethel.

Newidiadau: Ysbyty, Fachwen.

Cymorth Ariannol i Fudiadau lleol

Awgrymodd Richard Ll. Jones ein bod, yn y dyfodol, yn gofyn i'r mudiadau a oes bwriad ganddynt i wireddu rhyw brosiect arbennig.

Cyfraniadau 2004:

Cylch Meithrin Rhiwlas: £200
Cylch Meithrin Bethel: £200
Ti a Fi, Dinorwig: £200
Clwb Pêl-droed, Rhiwlas: £100
Pwyllgor Neuadd Penisa'rwaun: £200
Neuadd Bentref Rhiwlas: £200
Neuadd Goffa Bethel: £200
Llais Ogwan: £50
Eisteddfod Bethel: £250
Eisteddfod Bentref Penisa'rwaun: £250
Eisteddfod Deiniolen: £250
Eco'r Wyddfa: £200
Seindorf Deiniolen: £200
Cronfa Pensiynwyr Penisa'rwaun: £50
Clwb Orwig Dinorwig: £50
Cymdeithas Trigolion Dinorwig: £50
Clwb Bro Bethel: £50

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 7ed o Ragfyr

GORSAF RADIO MARCONI

Yn dilyn yr adroddiad am Orsaf Marconi yn rhifyn Hydref o'r Eco, penderfynais ychwanegu ychydig at yr hanes diddorol.

* * *

Yn ystod codi'r Orsaf fe adeiladwyd rheilffordd fechan o ffordd Ceunant i fyny ochr Cefn Du, er mwyn trosglwyddo'r 800 tunnell o anghenion adeiladu'r Orsaf a'r mastiau.

- Roedd pob un o'r 10 mast yn pwyso tua 80 tunnell, yn 400 troedfedd o uchel a'u gwaelod tua 800 troedfedd uwchben y môr.
- Gan fod angen cyflenwad cyson o drydan ar yr Orsaf, cysylltwyd hi â Gorsaf Drydan Cwm Dyli. Tybed a wŷr rhywun a oedd yr adeilad *pebble-dash* a saif ar ochr dde i'r ffordd rhwng Hafod Uchaf a Brithdir, Llanberis, yn gysylltiedig â'r cyflenwad i Marconi.
- Bu'r Orsaf yn gweithredu rhwng 1914 a 1939.

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco**

LLANRUG

(Parhad o dudalen 23)

EISTEDDFOD LLANRUG A CHWM-Y-GLO 2005. Pan ganodd y gynulleidfa 'Hen Wlad fy Nhadau' yn neuadd ysgol Brynrefail wedi'r cystadlu ddod i ben nos Wener, 12 Tachwedd, roedd cloc y neuadd newydd droi hanner nos. Ers talwm roedd llwyddiant unrhyw eisteddfod yn cael ei fesur gan pa mor hwyr oedd yr eisteddfod yn gorffen. Felly, o gymryd y mesur hwnnw, roedd Eisteddfod Llanrug a Chwm-y-glo 2004 yn eisteddfod dda!

Cafwyd cystadlu brwd a chaboledig drwy gydol y nos, ac yn ôl y beirniaid roedd sglein arbennig ar y cystadlaethau – ar y llwyfan ac yn y gwaith cartref.

Yr uchafbwynt i lawer oedd seremoni'r Cadeirio. Y Gadair yn cael ei rhoi i'r cynnyrch llenyddol gorau ym mlynyddoedd 10–13, a Thlws yr Ifanc i'r darn gorau o lenyddiaeth ym mlynyddoedd 3–9. Yn ôl y beirniad, Eleri Richards, roedd hi wedi cael blas garw ar y cynnyrch. Meddai hi am enillydd y gadair, Natalie Elisha, 'Dyma awdur a greodd argraff arbennig arnaf, awdur ifanc sy'n llwyddo i greu cydbwysedd aeddfed rhwng emosiwn a ffaith.' Roedd cael cyfle i ddarllebn gwaith Siôn Emyr, enillydd Tlws yr Ifanc, yn fraint meddai Eleri Richards, gan ychwanegu, 'Diolch i'r awdur am greu campwaith a fydd yn em werthfawr yng nghoron ei deulu.'

Diolch i bawb felly a gyfrannodd at lwyddiant yr eisteddfod. Dyma restr lawn o'r canlyniadau.

Canlyniadau
LLWYFAN

Cyn oedran ysgol: Unawd 1. Miriam Lennon-Jones; 2. Mathew Wiggins; 3. Teleri Medi Jones. *Adrodd:* 1. Efa Lewis Roberts; 2. Mathew Wiggins; 3. Miriam Lennon-Jones.

Dosbarth derbyn: Unawd: 1. Sion Eifion Land; 2. Ceri Griffiths a Beca Llwyd; 3. Georgina Birnie. *Adrodd:* 1. Deian Wyn Williams; 2. Harri Williams; 3. Sion Eifion Land.

Blwyddyn 1 a 2: Unawd: 1. Nia Williams (Cadair Lowri); 2. Gwern Brookes a Llinos; 3. Ffion. *Adrodd:* 1. Llinos Jones; 2. Math Roberts; 3. Dafydd Llywelyn.

Blwyddyn 3 a 4: Unawd: 1. Anna Wyn Jones; 2. Chloe Roberts; 3. Sioned Griffiths a Hanna Huws Tulliver. *Adrodd:* 1. Anna Wyn Jones a Bethan Roberts; 2. Math Emyr a Hanna Huws Tulliver; 3. Sioned Griffiths.

Blwyddyn 5 a 6: Unawd: 1. Rhodri Brookes a Heledd Roberts; 2. Emma Roberts; 3. Rebecca Wynne. *Adrodd:* 1. Gwenno Gibbard; 2. Heledd Roberts; 3. Emma Roberts a Rhian Darwood.

Parti Unsain oedran cynradd: 1. Parti Lois; 2. Parti Iola; 3. Parti Dafydd.

Parti Llefaru oedran cynradd: 1. Sgwad Cymru; 2. Parti'r Tywydd a Pharti'r Neiniau.

Unawd offerynol oedran cynradd: 1. Elain Roberts; 2. Heledd Roberts; 3. Chloe Roberts a Gwenno Gibbard.

Cyflwyniad cerddorol unigol oedran uwchradd: 1. Llinos Roberts; 2. Aled Rhys Williams; 3. Iwan Arwel.

Dawnsio disgo: 1. Chloe Roberts (Ysgol Llanrug); 2. Lowri a Katie (Ysgol Brynrefail); 3. Chantelle (Ysgol Llanrug).

Cyflwyniad cerddorol unigol uwchradd: Cydradd 1: Criw Rygarug a Hogie'r Wyddfa.

Sgets Cynradd/Uwchradd: 1. Sgets y doctor (Ysgol Llanrug); 2. Nos Wener yn y W.I. (Ysgol Brynrefail); 3. Ysgol y Ffyliaid (Ysgol Brynrefail).

Unawd offerynol uwchradd: 1. Ifan Dafydd Owen; 2. Declan Jones; 3. Aled Rhys Williams.

Parti canu: 1. Parti'r Glaw; 2. Y Llongwrs; 3. Hogie'r Wyddfa.

Perfformiad offerynnol gorau: Ifan Dafydd Owen

Unigolyn gorau yn y cystadlaethau canu ac adrodd: Heledd Roberts.

Enillydd Cadair Lowri: Nia Williams

Llenyddiaeth

Y Gadair: Natalie Elisha; 2. Megan Jones.

Tlws yr Ifanc: Sion Emyr; 2. Gerallt Bryn.

Blwyddyn 3: 1. Mari Gibbard; 2. Beca George; 3. Sioned Elin Griffiths.

Blwyddyn 4: 1. Anna Wyn Jones; 2. Chloe Marie Roberts; 3. Laurar Isabel Parkinson.

Blwyddyn 5: 1. Ffion Erin Williams; 2. Llio Emyr; 3. Gwion Ynyr Morris Roberts.

Blwyddyn 6: 1. Emma Roberts; 2. Ffion Roberts; 3. Gwenan Smith.

Blwyddyn 8 a 9: 1. Sion Emyr; 2. Gerallt Bryn; 3. Karon Williams.

Blwyddyn 10 ac 11: 1. Cai Dyfan; 2. Ffion Eleri; 3. Dewi Morgan.

Blwyddyn 12 a 13: 1. Natalie Elisha; 2. Megan Jones; 3. Manon Glyn.

Arlunio

Meithrin/Derbyn: 1. Gethin Wyn Jones; 2. Miriam Catrin; 3. Ffion Hâf Roberts (Cwm-y-glo) a Rhydian (Cylch Meithrin Llanrug).

Blwyddyn 1 a 2: 1. Math Roberts; 2. Owain Gibbard; 3. Gwydion Rhys Williams.

Blwyddyn 3 a 4: 1. Hanna Huws Tulliver; 2. Anna Wyn Jones; 3. Math Emyr.

Blwyddyn 5 a 6: 1. Deian Williams; 2. Tomos Huws Tulliver; 3. Gwenno Gibbard.

Blwyddyn 7 ac 8: 1. Llywelyn Williams.

Blwyddyn 9 a 10: Neb yn cystadlu.

Blwyddyn 11, 12 ac 13: Neb yn cystadlu.

Dyluniad Cyfrifiadurol

Adran Babanod (Ty Ni): 1. Robin Whiteside Thomas; 2. Dafydd Llywelyn; 3. Lois Wyn Griffith.

Adran Iau (Castell): 1. Tomos Huws Tulliver; 2. Anna Wyn Jones; 3. Hanna Huws Tulliver.

Oedran uwchradd (Ar Wib): Neb yn cystadlu.

Tri Dimensiwn

Meithrin/Derbyn (Neidr o Glai): 1. Beca Llwyd; 2. Lleucu Brookes; 3. Gethin Wyn Jones.

Blwyddyn 1 a 2 (Ynys Trysor): 1. Gwern Llŷn Brookes; 2. Owain Bryn Gibbard; 3. Catrin Ann Roberts.

Blwyddyn 3 a 4 (Fy Ystafell Wely): 1. Rhun Meirion Williams; 2. Sian Williams; 3. Beca George.

Blwyddyn 5 a 6 (Pont): 1. Elain Roberts; 2. Heledd Anna Roberts; 3. Deian Williams.

Oedran uwchradd (Strwythur neu adeilad uchel): 1. Carwyn George; 2. Llywelyn Williams.

Tecstiliau

Adran Babanod (Pypet yn defnyddio hosan): 1. Catrin Ann Roberts; 2. Alys Fflur Williams a Llinos Hâf Jones; 3. Nia Hâf Williams a Gwydion Rhys Williams.

Adran Iau (Gweddnewid Crys T): 1. Siân Angharad Williams; 2. Ffion Wyn Roberts ac Anna Wyn Jones; 3. Deian Williams a Llio Emyr.

Oedran uwchradd (Unrhyw eitem): Neb yn cystadlu.

Agored (Unrhyw eitem): 1. Bethan Wyn Jones.

(Parhad ar dudalen 26)

(Parhad o dudalen 25)

Coginio

Meithrin/Derbyn (Addurno 'Victoria Sandwich'): 1. Ffion Hâf Roberts a Gethin Wyn Jones.

Blwyddyn 1 a 2 (Plât o fwyd ar gyfer parti): 1. Owain Gibbard; 2. Gwydion Rhys Williams; 3. Catrin Ann Roberts, Math Roberts a Llinos Hâf Jones.

Blwyddyn 3 a 4 (Cymeriad wedi ei wneud o ffrwythau): 1. Mari Elin Gibbard; 2. Math Emyr; 3. Dafydd Lewis Roberts/Rhun Meirion Williams.

Blwyddyn 5 a 6 (Salad i un person): 1. Deian Illtud Williams; 2. Emma Louise Roberts/Ffion Erin Williams; 3. Heledd Anna Roberts/Elain Roberts.

Oedran uwchradd (Teisen Pen-bwydd/Nadolig): 1. Siôn Emyr; 2. Sophie Owen.

Agored – Merched (Treiffl): 1. Hâf Roberts a Siân Wheway; 2. Mannon Williams.

Agored – Dynion (Pizza): 1. Vaughan Williams; 2. Llywelyn Williams.

Agored (Jam/Marmaled): 1. Eirianwen Thomas; 2. Aled Gibbard; 3. Jeli ffrwythau'r goedwig *Agored (Chutney):* 1. Siôn Eifion; 2. Siôn Eifion; 3. Aled Gibbard/Eirianwen Thomas.

Agored – Diod 'Cocktail' (wedi ei enwi): 1. Siân Wheway.

Gosod Blodau

Agored (Addrun ar gyfer bwrdd cinio Nadolig): 1. Siw Brookes; 2. Beryl Hughes; 3. Bethan Wyn Jones.

Ffotograffiaeth

Agored Unrhyw lun ar y thema 'Parti': 1. Irfon Jones; 2. Bethan Wyn Jones; 3. Dafydd Roberts.

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DYMUNA Robert Evans, 12 Hafod Olau (Robin Scotch) ddiolch o galon i Bet a'i deulu, cymdogion a chyfeillion am yr holl alwadau ffôn, cardiau ac arian a dderbyniodd tra yn cael triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

Diolch hefyd i feddygon Llanberis, Ysbyty Llandudno a holl feddygon, nyrsus a staff Ward Enfys, Ysbyty Glan Clwyd.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS. Pnawn Sul, 12 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llu i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at Gronfa CLIC – Cancr a Leukaemia mewn Plant.

CLWB ORWIG. Dathlwyd pedwerydd pen-blwydd y clwb ar 7 Hydref, pan fu'r aelodau yn ciniawa ym mwyty Tŷ Mawr.

Ar 21 o'r mis, daeth pawb ynghyd i'r Ŵyl Ddiolchgarwch. Trefnwyd y rhaglen gan Nellie Wyn Jones a'r unawdydd oedd Betty Lloyd Roberts. Diolchwyd i Glenys a Martin am eu rhodd Ddiolchgrwch o lysiau, ac i Geraint Williams am ei rodd o dorthau bach. Swm y casgliad a dderbyniwyd oedd £40 ac fe'i trosglwyddir i Gronfa Cyfeillion y Feddygfa. Llywyddwyd gan Ray Bower.

Diolchwyd i Sally Brennan a Betty Bower am y te ac i'r ddwy ac i Dennis Glass am wobrau'r raffl, a enillwyd gan Ann Lo, Margaret Faulkener, Betty Ll. Roberts ac Elizabeth Jones. Llongyfarchwyd Margaret Faulkener a Morfudd Jones ar ddathlu eu pen-blwyddi a chyflwynwyd tusw o flodau iddynt. Hefyd ymfalchïwyd yng nghamp Joan Glass yn beicio ar draws yr Alpau i gefnogi Apêl Ysgol Pendalar.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI 2005. Yr ydym wedi dechrau'r gwaith o gasglu arian at yr Eisteddfod ac wedi anfon llythyr o dŷ i dŷ yn apelio am gymorth i gyrraedd at y nod, yn araf bach y mae'r arian yn dod i mewn.

Fe fyddwn yn cynnal Cyngerdd hefo Seindorf Arian Deiniolen ar nos Iau, 9 Rhagfyr yn y Ganolfan am 7 o'r gloch, hyn yn cynnwys te a mins peis.

Ar nos Wener, 17 Rhagfyr fe fydd Noson Goffi, eto yn y Ganolfan, am 6.30 o'r gloch. Apeliwn yn daer arnoch i gefnogi.

COFEB I"R CHWARELWYR. Fe fydd y gofeb i'r chwarelwyr yn cael ei dadorchuddio ar ddydd Sadwrn, 7 Mai 2005. Os am gyfrannu rhodd tuag ati cysylltwch â Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Mynydd Gwefru
LLANBERIS

ORIAU'R GAEAF:
Ar agor 5 diwrnod yr wythnos
Dydd Mercher i Dydd Sul

ARDDANGOSFA
gan arlunwyr lleol tan 23 Rhagfyr

ANRHEG NADOLIG
Manteisiwch ar ddisgownt o 10% wrth wario dros £5 yn y siop drwy ddangos yr hysbyseb yma (tan Rhagfyr 23)

CYNGERDD NADOLIG
Cynhelir ein cyngerdd Nadolig eleni am 2 o'r gloch brynhawn dydd Sul, Rhagfyr 12 yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris a Seindorf Deiniolen. Mynediad am ddim

Pleser o'r mwyaf yw i ni ddatgan ein diolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu. Hoffem ddiolch i'r mudiadau sydd yn cwrdd yma yn rheolaidd ac edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu eto y flwyddyn nesaf.

Mae staff Mynydd Gwefru yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd 'Gwefreiddiol' i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

CROESAIR RHAGFYR



Nid cliwiau cyffredin yw'r saith sy'n cyfeirio at y rhanbarthau (ee *Gogledd*), ond cyfeiriad bras at leoliad rhai o (28 i lawr) Cymru.

Ar Draws:

1 Bwriad 11 i lawr? (5)
4 *Gogledd* (6)
7 Teiliwr Llundain ar adain (4)
9 Llefaru geiriau wedi eu hysgrifennu (6)
10 *Gorllewin* (6)
12 Cyfnod y Rhyfel mawr? (3)
13 Un sy'n talu rhent am ychydig bach o amser ar ddechrau'r dydd (7)
14 Fe welir yr edau o amgylch yr hyn sydd mewn baril dryll (3)
15 Rhoi rhywbeth i'w yfed... (5)
17 ... i'r polyn o ddyn a elwir Trystan Cadwaladr! (6)
20 Hel merched? ... (5)
23 ... â math o gyllell? (4)
25 *Gogledd* (6,5)
26 Y tir a ddefnyddir o reidrwydd yn y sioe amaethyddol? (4)
27 Cabledd yr ysgolfeistr cyn dechrau dysgu! (5)
29 Mae'n aneglur i glown trwsgl! (6)
32 Anifeiliaid digynffon tebyg i'r mwnci ...(5)
35 ... yn fynych yn Amlwch! (3)
37 Ysbeilio ... (7)
39 ... mewn peth wedi ei wau? (3)
40 Galonogi (6)
41 *Canolbarth* (6)
42 Bod yn feiddgar mewn achosion o gamddefnyddio'r Iaith! (4)
43 Siglen o ddesg un meddw? (6)
44 Aelodau o'r corff morwr

I Lawr:

1 Gogledd (7)
2 Ci brenhinol efo coesau byr? (5)
3 Rhai â dim byd amdanynt (7)
5 Mynychwyr y dafarn ...? (5)
6 ... a mynychwyr y 'ristorante' (7)
8 Dwyrain (5)
11 Symudiad y pen i gytuno â 1 ar draws? (3)
16 Llidiardau yn eu tai sigledig (5)
18 Lliw Anest pan mae'n feddw? (5)
19 Siop y bwtsier (5)
21 Yr hyn sy'n digwydd ar ôl diwedd yr wythnos? (5)
22 Cneuen y marsipán ... (5)
24 ... yn licio ffrwydro wrth fynd yn ôl ... (5)
25 ... i fwrw amcan! (5)
30 Brodorion o America neu o'r is gyfandir (7)
31 A'i negro sy'n rhoi trefn haenau ar bren? (7)
33 Canolbarth (5)
34 Llidiowgrwydd mewn rhwystredigaeth ...? (3)
36 ... y ffwl! (5)
38 Torch neu gadwyn addurnol (5)

Derbyniais atebion i groesair mis Tachwedd gan Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; Moreen Lennon, Olwen Owen ac Aylwyn Hughes, Llanbedr; D. B. Williams ac Eluned Jones, Trefor; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Gwen Griffith, Deiniolen; Jennie Williams, Glynnog; H. O. Hughes, Pwllheli; Dilys A. Pritchard-Jones, Aberdaron; Megan Morris, Dinorwig; E. E.Jones, Rhoshirwaun; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; N. Hughes, Cwmyglo; Hywel Griffith, Awstralia; Alvona Jones, Prestatyn; Pat Owen, Caerfyrddin; Nansi Davies, Rhuthun; Gareth Oliver, Tregarth; Huw Tegid Roberts, Llanrug a dau arall yn ddi-enw.

Enillydd y mis ydy Catherine A. Jones, Tŷ Capel, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli.
Llongyfarchiada' a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair Rhagfyr, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE erbyn 20 Ionawr 2005.



Cefnogwch ein Hysbysebwyr

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

ARVONIA
LLANRUG Ffôn: 01286 675175
GWYLIAU CARTREF A THRAMOR
Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

CHWARAEON

BYD Y SGWÂR

Pan oeddwn yn dysgu yn Nhonyrefail, roedd un direudus iawn yn un o fy nosbarthiadau.
Ei enw oedd Tyrone Williams, a ddaeth, ymhen blynyddoedd yn joci llwyddianus iawn.

Roedd ei dad yn fwy o gymeriad ac yn arwr yn y cwm. Dyma'r lliwgar Lenny 'The Lion' Williams, a ddaeth yn bencampwr pwysau bantam Prydain. Dros y mynydd yng Ngwm Cynon, ble roedd Mary yn dysgu, roedd ganddynt hwy eu harwr, sef yr amryddawn Dai Dower. I Gaerdydd y perthynai Jim Peterson a Joe Erskine. I'r Rhondda yr arwyr oedd Jimmy Wilde a Tommy Farr. I ardal Merthyr, Howard Winstone, Johnny Owen ac Eddie Thomas oedd i gario'r dorch. I'r gorllewin, Dick Richardson, Brian Nancurvis a Colin Jones oedd i gyrraedd yr uchelfannau. A heddiw mae Joe Calzaghe yn bencampwr byd.

Enwau a chyfnod o wrando ar y radio, a lleisiau Barrington Dalby neu Eammon Andrews yn wir 'ddarlunio'r' gornestau â'u crefft sylwebaeth radio. Os bu Cymru yn 'wlad y menig gwynion', yn sicr bu'n 'wlad y menig bocsio'.

Yr hyn â'm denodd at fyd y sgwâr oedd y gyfres ddiweddar ar BBC2 ar nos Sul yn olrhain hanes y gamp. Yn fy marn i dyma un o'r rhaglenni gorau ym myd chwaraeon ers sawl blwyddyn. Roedd yr ymchwil yn grefftus, y sylwebaeth yn raenus ddealladwy, a'r cyfranwyr i gyd yn bobl a 'gymerodd y cledro' a 'dioddef y chwys'.

Yn llinyn arian drwy'r rhaglenni roedd nifer o themâu cudd a lecha tu cefn i nifer o'r gornestau cofiadwy. Thema un rhaglen oedd obsesiwn yr Amerig i gael pencampwr byd yn y pwysau trwm. Yna ymateb y cyfandir i'r anorchfygol ond benstiff Jack Johnson ennill ac amddiffyn y goron sawl tro – ac yntau'n ddyn tywyll ei groen. Yna tyfiant Natsïaeth, a'u dymuniad hwy o weld y cawr gwyn pen-felyn Max Schmelling yn cipio'r goron. Llwyddodd i guro Joe Louis mewn gornest di-deitl ac roedd gobeithion y Natsiaid yn uchel. Ond, yn y frwydr oedd yn cyfrif, a'r holl bwysau politicaidd ar y ddau, gorffennodd Joe Louis yr ornest wedi dau funud o'r rownd gyntaf.

Yna'r rhaglenni fu'n canolbwyntio ar yrfa ryfeddol Cassius Clay/Mohammed Ali. Yn gysgod dros y cyfan roedd Vietnam a phroblem hiliaeth yr Unol Daliacthau.

Canolbwyntwyd ar ddwy ornest yn arbennig, dwy sy'n rhan o chwedloniaeth y gamp, ac a gofir am leoliad y ddwy ornest. Ali yn wynebu y cawr, George Foreman, yng nghwres annioddefol Zaire – 'y Rymbl yn y Jyngl'. Yna cfallai un o'r gornestau mwyaf corfforol erioed, sef Joe Frazier yn herio Ali yn beth oedd yn wir 'Thrilla yn Manila'. Yn Zaire, Ali yn ailgipio'r gwyn gyda'r tactegau rhyfeddol o flino Foreman drwy adael i'r cawr ymosod yn ddibaid. Yna llorio'r cawr gyda ymosodiad anhygoel o ddyrnu – a hynny mewn gwres dros 100gradd.

Roedd rhaglen gornest Manila yn rhyfeddol. Roedd y rhaglen ei hun fel yr ornest, yn adeiladu at yr uchafbwynt anhygoel. Dyma ornest, yn anad un, oedd yn adlewyrchu holl elfennau y gamp waedlyd a heriol hon. Roedd yma ffitrwydd anhygoel, ymroddiad, crefft, dioddef poen i'r eithaf a'r reddf anesboniadwy i wrthod ildio.

Yn rhyfeddol, cawsom wybod fod gan Frazier gateract yn ei lygaid chwith. Bocsiwr un llygaid oedd y 'tanc dynol' yma. Haws oedd i hwn ymosod yn ddibaid nag amddiffyn dyrnau nad oedd bob tro yn eu gweld. Cymaint oedd y difrod i'w lygaid dde yn y rowndiau olaf, fel bod awgrym fod Frazier wedi ymladd dwy rownd bron iawn yn ddall!

Yn wir fe stopiwyd yr ornest o blaid Ali gyda un rownd yn weddill. Y fath ddrama, y fath ymrwymiad. Codwyd yr hen ddadl pryd y dylsid stopio gornest. Roedd awgrym fod rhai dyfarnwyr yn ofni gwneud hynny. Teimlent ddyletswydd i gyflwyno theatr real i'r sawl oedd yn talu i wylio. Yn oes y teledu 'tâl i wylio' ond eto oes yr achosion llys, wn i ddim a yw'r drefn wedi newid.

Roedd dangos yr ornest a arweiniodd at farwolaeth Bernie Perez – a drawyd gan 17 ergyd mewn 10 eiliad – yn sobri rhywun. Yn ddiweddarach sobrwyd ni fel cenedl drwy farwolaeth Johnny Owen.

Mae'r wobr i bencampwyr y sgwâr yn fawr, ond hefyd rhaid meistroli a choncro sawl gelyn meddyliol a chorfforol i gyrraedd y brig. Ie, cyfres wych oedd hon ar sawl lefel o groniclo a dangos ac hefyd yn heriol drwy ofyn sawl cwestiwn.

PWY OEDD Y GORAU?

Eleni mae'r BBC yn cynnal pleidlais arbennig i weld pwy, ym marn y cyhoedd, oedd prif seren byd y campau yng Nghymru dros y 50 mlynedd diwethaf. Dyma'r cyfnod bu'r Gorfforaeth yn cyflwyno tlws 'Personoliaeth y Flwyddyn'. Gallesid dadlau fod sawl seren heb unrhyw bersonoliaeth! Wedi chwynnu a stilio dewiswyd pump ar y rhestr fer: Gareth Edwards, John Charles, Tanny Gray Thompson, Colin Jackson a Lyn Davies.

Pump o fawrion yn sicr, a phob un â'u cefnogwyr. Ond pwy sy'n apelio i drawsdoriad o wylwyr y campau, a phwy sy'n adlewyrchu y ddelwedd o Gymro/Gymraes ddawnus ac ymroddgar?

Yn rhyfeddol, ni enillodd John Charles erioed y tlws 'Personoliaeth y Flwyddyn'. Ond sut fydd dewis a gwahaniaethu?

Gareth Edwards. Y chwaraewr rygbi gorau erioed hyd yma, medd rhai. Seren ymysg seren y 70'au, ac a anfarwolodd ei hun ar deithiau llwyddianus y Llewod i Seland Newydd yn '71 a De Affrica yn '74. Y cais yn y mwd yn erbyn yr Alban. Y Barbariaid – *'What a score!'* Ond y gorau?

John Charles. Y cawr addfwyn. Hwn a gariodd dîm Cymru yn llythrennol ar ei ysgwyddau llydan i rowndiau terfynnol Cwpan y Byd yn Sweden, 1958. Ei gicio'n ddi-drugaredd, a Chymru yn colli i gôl Pele yn erbyn Brasil. Arwr yng Nghymru, Leeds a'r Eidal. Ond y gorau?

Tanny Gray-Thompson. Merch ryfeddol iawn, a frwydrodd i wneud datganiad bositif, yn ei byw a'i chystadlu, dros bobl anabl. Merch y wên barhaol, y gwyneb ymdrechgar, ac a gasglodd gynhaeaf gwych o fedalau Olympaidd. Cawr yn wir. Ond y gorau?

Colin Jackson. Un arall gydag ymroddiad anhygoel. Daliodd yntau record byd yn ei gamp dros y clwydi. Pencampwr Cymru, Ewrop a'r Byd fwy nag unwaith, ond methiant fu pob ymgais am y Fedal Aur Olympaidd. Un arall fu'n genhadwr gwych dros Gymru. Ond y gorau?

Lyn Davies. Daeth ei awr fawr yng ngwynt a glaw Tokyo a'r naid hir ryfeddol i gipio'r fedal aur Olympaidd. Y llanc ifanc o Nant y Moel a Choleg Cyncoed, yn neidio i anfawroldeb, a'i ardal enedigol yn paentio'r pellter ar brif stryd y pentref. Oedd y gamp yma yn ddigon?
A'i ef oedd y gorau?

Pan enillais Gadair Eisteddfod Penrhyncoch y llynedd, gofynwyd am 6 englyn yn ymwneud â phobl yn y byd chwaraeon. Yn y casgliad roedd tri o'r englynion yn ymwneud â thri o'r enwau uchod. Fy newis personnol i fuasai John Charles, oherwydd ei ddawn, ymroddiad a phersonoliaeth diymhongar. Yn realistig, rwy'n meddwl mai testun yr englyn yma fydd yn cipio'r tlws.

Yno'r sgrym yn llenwi'r sgrin –
i wyliwr,
Dim golwg o'r dewin.
Un fflach o liw, roedd siwin,
Yn troi a ffoi dros y ffin.

Pwy fuasech chwi yn dewis?

Y BROBLEM HILIAETH

Trist yw cofnodi dychweliad y broblem hon yn ddiweddar. Er i'r problemau ym Madrid, ar lefel rhyngwladol a chlwb, gael cryn ofod yn y cyfryngau, mae'n broblem byd eang. Dioddefodd chwaraewyr croenddu Cymru mewn gemau pêl-droed yng nghwledydd y Balkans. Ychydig ddegawdau yn ôl, ni welwyd chwaraewyr croenddu yn cynhyrchioli Cymru mewn rygbi nes dyfodiad Glenne Webb. Neu diffyg chwaraewyr croenddu yn nhimau criced Swydd Efrog. Diolch fyth nid yw hyn yn wir heddiw, yn yr achosion hyn.

Ond erys y gweiddi torfol. Bu mainc llys ynadon Blackburn ddigon dewr yr wythnos diwethaf i wahardd a dirwyo troseddwr. Mae'n rhaid i FIFA yn awr ddangos eu dannedd.

TIPYN O NAID

Bu'n gri gyson gennyf dros y blynyddoedd i fechgyn a merched lleol wneud eu marc yn aelodau o'n 'prif' dimau lleol. O glwb rygbi merched Caernarfon, mae ambell un wedi datblygu yn chwaraewyr rhyngwladol. Yr un yw'r stori gyda gwahanol dimau pêl-droed
Merched Cymru. Gwantan iawn yw hi yn ein timau pêl-droed cenedlaethol dan 15, 16 ac 17 i fechgyn.

Mae'n ymddangos fod clybiau Bangor a Chaernarfon yng Nghynghrair Cymru yn dechrau cael y 'weledigaeth leol'. Ar yr Oval ar hyn o bryd mae Caeron Roberts, Marcus Orlik a Mathew Philips. Mae Caeron yn cymryd ei le yn rheolaidd yn y tîm cyntaf. Yn rhyfeddol chwaraeai fel asgellwr chwith i Fethel yng Nghyngrair Arfon y tymor diwethaf. Erbyn hyn cefnwr chwith ydyw yng nghynlluniau Wayne Philips.

Cafodd Caeron gêm digon cymen yn erbyn Casnewydd yn y Gwpan Genedlaethol, gêm a deledwyd yn fyw ar S4C. Gêm o frwydro ar faes trwm iawn oedd hon, ac roedd gallu Caerwyn i fwydo'r blaenwyr gyda phasio hir yn gaffaeliad i'w dîm. Dangosodd lefel dda o ffitrwydd, ac o'i gic rydd ef y daeth y gôl dyngedfenol.Roedd hon yn gôl werthfawr iawn i'w glwb gan ei bod yn rhoi £15,000 yn y coffrau, a sicrwydd o gêm gartref yn erbyn Caerdydd, Wrecsam, Abertawe neu'r Rhyl yn y rownd nesaf.

Bu Marcus yng Nghaer a Lerpwl, ond dros y tymhorau bu'n anlwcus gydag anafiadau. Gobeithio y gall ailgychwyn ei yrfa ar yr Oval. Mae Mathew yntau yn chwaraewr dawnus ar y bêl, a gobeithio, dan arweiniad 'Yncl Wayne', y gall yntau dorri trwodd.

Cof da am Marcus a Mathew yn serenu mewn ambell noson Tlws yr Eco yn y gorffennol. Dymunwn yn dda iddynt.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
07050 357735



FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
PORCHES
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS
BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES